



# Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru

Gorffennaf 2023

# Galwedigaethol Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | Tudalen 2 |
| Cydnabyddiaeth | Tudalen 4 |
| Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion | Tudalen 6 |
| Cyflwyniad i adolygu cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru | Tudalen 12 |
| Pennod 1: | Tudalen 15 |
| Pennod 2: | Tudalen 29 |
| Pennod 3: | Tudalen 41 |
| Pennod 4: | Tudalen 57 |
| Pennod 5: | Tudalen 73 |
| Pennod 6: | Tudalen 94 |
| Atodiadau: | |
| Atodiad 1: | Tudalen 110 |
| Atodiad 2: | Tudalen 117 |
| Atodiad 3: | Tudalen 118 |

# Rhagair

Roedd hi'n bleser ac yn anrhydedd cael fy ngwahodd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg i gadeirio'r adolygiad hwn o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru. Dros nifer o flynyddoedd, rwyf wedi gweld y gwahaniaeth y mae addysg a hyfforddiant galwedigaethol wedi'i wneud i unigolion, ac ar eu cyfer, ac wedi gweld pa mor falch ydynt i ennill cymwysterau galwedigaethol.

Mae'n anochel bod angen ystyried cymwysterau galwedigaethol ochr yn ochr ag addysg a hyfforddiant galwedigaethol – naïf fyddai meddwl bod y ddau'n endidau ar wahân. Gall y cymwysterau feithrin yr addysg a'r hyfforddiant, ac yn ystod yr adolygiad, cafwyd llawer o ddadleuon, a oedd weithiau'n ddryslyd, ynghylch beth yw cymhwyster galwedigaethol, a beth yw rhaglen ddysgu alwedigaethol – beth ddylai cynnwys pob un ohonynt fod a sut y dylid mynd ati i asesu pob un.

Gofynnwyd i'r Grŵp Llywio a oedd yn arwain yr adolygiad gynhyrchu adroddiad a oedd yn bragmatig a hefyd yn ymarferol – mae'r cylch gorchwyl yn glir yn hyn o beth. Mae wedi canolbwyntio ar y systemau o fewn cymwysterau galwedigaethol ac o'u hamgylch – sut y dylem ymateb i'n huchelgeisiau mewnol ar gyfer Cymru a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru, a sut y dylem fynd i'r afael â phwysau o'r tu allan, gan gynnwys y newidiadau i gymwysterau galwedigaethol yng ngwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig. Wrth wneud hynny, uchafiaeth y dysgwr oedd canolbwynt ein trafodaethau, ac ym mhob argymhelliad, effaith yr argymhelliad ar y dysgwr oedd yr ystyriaeth sylfaenol.

Rydym yn cydnabod na fydd pawb yn rhoi eu cymeradwyaeth i'r adroddiad hwn, a'i argymhellion. Bydd rhai'n teimlo nad ydym wedi bod yn ddigon radical. Nid ydym yn argymell newid sylfaenol. Nid ydym yn argymell sefydlu cyrff newydd, na diddymu rhai eraill. Nid ydym yn argymell dull newydd sbon o ymdrin â chymwysterau galwedigaethol. Rydym wedi cydnabod yr agweddau hynny ar gymwysterau galwedigaethol sydd eisoes yn gweithredu'n dda, ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd, a lle rydym yn teimlo bod angen newid, rydym wedi argymell hynny.

Ac mae gennym resymau da dros weithredu fel hyn. Nid yw Cymru'n 'dechrau â llechen lân'. Mae llawer o bethau eisoes yn mynd yn dda ym myd addysg, hyfforddiant a chymwysterau galwedigaethol, ac mae newid eisoes wedi'i roi ar waith. Mae wyth mlynedd eisoes wedi mynd heibio ers Deddf Cymwysterau Cymru. Rydym wedi dechrau rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith ar gyfer ein dysgwyr cyn-16 ac wedi ymgynghori ar gymwysterau cyn-alwedigaethol. Mae gennym Dystysgrif Her Sgiliau, ac mae'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar fin cael ei sefydlu i fynd i'r afael â dysgu ôl-16. Felly, credwn y dylem adeiladu ar y pethau sy'n mynd yn dda, ac y dylai unrhyw newid pellach ddigwydd yn raddol, yn hytrach na bod yn chwyldroadol.

Ond mae angen inni newid, ac nid newid dim ond oherwydd bod newidiadau'n digwydd yng Nghymru, ac i safle Cymru yn y byd, ond oherwydd bod arnom *eisiau* newid – a gwella. Nid yw hyn yn golygu ein bod yn beirniadu'r hyn sydd wedi

digwydd o’r blaen – i’r gwrthwyneb yn llwyr.  Rydym wedi gallu manteisio drwy ddysgu o’r gorffennol, ac mae ein hargymhellion yn adlewyrchu’r ffaith ein bod yn byw mewn byd lle mae newid yn digwydd yn gyson ac yn gyflym.  Rydym wedi mynd ati i gynhyrchu adroddiad sy’n seiliedig ar y dystiolaeth rydym wedi’i chael – ac nid ydym wedi bod yn barod i wneud argymhellion oni bai fod tystiolaeth glir i gefnogi’r argymhellion hynny.

Gall cymwysterau galwedigaethol gael effaith enfawr ar ein heconomi a’n cymdeithas.  Mae angen inni ddatgan yn gyhoeddus ein gweledigaeth ar gyfer addysg, hyfforddiant a chymwysterau galwedigaethol, a datgan yn hyderus y gobaith, a’r angen, i gynyddu nifer y bobl sy’n dewis addysg a hyfforddiant galwedigaethol fel llwybr dysgu.  Mae angen inni wneud hyn gan fod yn ymwybodol o’r bylchau a ragwelir yn ein heconomi o safbwynt galwedigaethol a sgiliau, ond hefyd yn y ffordd rydym eisiau i Gymru dyfu fel cymdeithas – gan arwain y ffordd at sero net, datblygu cymunedau parchus a chynhwysol, a hyrwyddo arloesedd ac entrepreneuriaeth.  Gadewch inni fachu nawr ar y cyfle hwn i roi cymwysterau galwedigaethol yn eu priod le – yn cael yr un ystyriaeth mewn dewisiadau gyrfa, yn ganolog i ddatblygu gweithlu ar gyfer cyflogwyr, ac yn ddylanwadol wrth greu’r gymdeithas rydym ei heisiau – cymwysterau galwedigaethol sy’n cael eu gwerthfawrogi gan bawb.

Sharron Lusher MBE DL

Cadeirydd y Grŵp Llywio ar gyfer yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru

## Cydnabyddiaeth

Mae nifer fawr o bobl wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn, ac rwy'n arbennig o ddiolchgar iddynt am eu hamser, eu cefnogaeth a'u hymrwymiad diwyro i gymwysterau galwedigaethol.

Mae aelodau'r Grŵp Llywio wedi bod yn wych am fynychu cyfarfodydd, darllen papurau, cymryd rhan mewn dadleuon bywiog a chynnig cyngor a doethineb o fewn y broses.  Mae gennych weledigaeth ar gyfer dyfodol Cymru, a'r rôl y dylai addysg a chymwysterau galwedigaethol ei chwarae, a dyma sydd wedi llywio'r gwaith o lunio'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Aelodau:

| | |
|---|---|
| Tom Bewick | *Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu* |
| Sian Cartwright | *Cyngres yr Undebau Llafur* |
| Ben Cottam | *Ffederasiwn Busnesau Bach* |
| Owen Evans | *Estyn* |
| Jamie Insole | *Undeb Prifysgolion a Cholegau* |
| Ben Kinross | *Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr* |
| Guy Lacey | *Colegau Cymru* |
| Ioan Matthews | *Coleg Cymraeg Cenedlaethol* |
| Scott McKenzie | *Y Brifysgol Agored* |
| Chris Millis | *Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru* |
| Lisa Mytton | *Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru* |
| Ian Price | *Cydffederasiwn Diwydiant Prydain* |
| Kieron Rees | *Prifysgolion Cymru* |

Cynghorwyr Strategol:

| | |
|---|---|
| Philip Blaker | *Cymwysterau Cymru* |
| Cassy Taylor | *Cymwysterau Cymru* |
| Gareth Downey | *Cymwysterau Cymru* |

Ni fyddai'r adolygiad hwn wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth swyddogion Llywodraeth Cymru:  Rhian Edwards, Alison Bryant, Chloe Harris, Jonathan Ackland, Thomas Rose, Catherine Singleton, Marian Jebb, Chris Hare a Geoff Hicks i enwi dim ond rhai.  Fodd bynnag, rhaid rhoi sylw arbennig i Mark Price, am ei effeithlonrwydd anhygoel, ei sgiliau trefnu, a'i allu i beidio â chynhyrfu dim ots beth oedd yn cael ei daflu ato!

Darparwyd gwybodaeth a chyngor gan dîm Cymwysterau Cymru, sydd wedi gweithredu fel cynghorwyr strategol, ac rwy'n arbennig o ddiolchgar i Philip Blaker, Cassy Taylor a Gareth Downey.  Mae gan y tîm wybodaeth a phrofiad helaeth yn y maes hwn, ac fe wnaethant ymateb yn gyflym i'r llu o ymholiadau oedd gen i.  Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r OECD, Golley Slater a Beaufort Research am eu gwaith, ac i'r

Edge Foundation am hwyluso gweithdai gyda rhanddeiliaid. Mynychodd llawer o unigolion a sefydliadau gyfarfodydd y Grŵp Llywio i roi cyflwyniadau i ni, ac mae llawer o rai eraill wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn drwy ddarparu gwybodaeth, hysbysrwydd a phrofiad, gormod ohonynt i grybwyll pawb.

Diolch i'r holl unigolion a sefydliadau sydd wedi rhoi tystiolaeth i'r adolygiad.  Mae eich didwylledd, eich gonestrwydd a'ch parodrwydd i rannu'ch profiadau a'ch safbwyntiau wedi helpu i lunio'r adroddiad hwn.  Bydd dysgwyr yn elwa o'ch eiriolaeth dros gymwysterau galwedigaethol, ynghyd â'ch cefnogaeth a'ch teyrngarwch.

# Crynodeb Gweithredol

Mae llawer o bethau sy'n dda ym myd cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru, ac mae'r rheiny sy'n ymwneud â'r adolygiad hwn wedi bod yn frwd dros hyrwyddo addysg, hyfforddiant a chymwysterau galwedigaethol ac wedi ymrwymo i hynny. Roedd y rhanddeiliaid yn cymeradwyo:

- yr ystod eang o gymwysterau galwedigaethol, sy'n cynnig dewis i ddysgwyr, cyflogwyr a darparwyr dysgu
- gwreiddio cymwysterau galwedigaethol mewn rhaglenni dysgu, sy'n ddigon hyblyg i ganiatáu iddynt gael eu teilwra ar gyfer dysgwyr unigol
- cefnogaeth gref gan ddiwydiant a chysylltiadau â diwydiant o ran datblygu a chyflwyno cymwysterau galwedigaethol
- nifer cynyddol o gymwysterau galwedigaethol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog

Gofynnodd rhanddeiliaid inni ganolbwyntio ar rai elfennau: sut y gallwn sicrhau bod gennym y cymwysterau galwedigaethol cywir i ddiwallu anghenion y dyfodol, bod yn fwy ymatebol i gyflogwyr, a bod yn fwy hyblyg iddynt, llwybrau cynnydd clir i ddysgwyr, methodolegau asesu, a phryderon ynghylch pa mor gludadwy fydd cymwysterau galwedigaethol yn y dyfodol.

Mae'r adolygiad wedi canolbwyntio'n bennaf ar gymwysterau galwedigaethol ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed. Un o'r prif ffactorau a sbardunodd y ffocws hwn oedd y risg i gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru o ganlyniad i ddad-gyllido rhai cymwysterau galwedigaethol yn Lloegr, a gofynnwyd inni fod yn bragmatig ac yn ymarferol wrth wneud ein hargymhellion.

Roedd ein cylch gorchwyl yn gofyn inni ystyried y dirwedd cymwysterau galwedigaethol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag yn rhyngwladol. Daeth yn amlwg ar unwaith bod y sefyllfa'n gymhleth, ac yn wahanol ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig. Mae cyfnod sylweddol o ddiwygio yn mynd rhagddo yn Lloegr, gyda Lefelau T yn cael eu cyflwyno ar lefel 3, ac mae cynllun hefyd i ddiwygio cymwysterau ar lefel 2 ac is. Mae'r Alban newydd gyhoeddi ei strategaeth darparu sgiliau ac adolygiad o gymwysterau ac asesiadau ar gyfer y cyfnod ysgolion hŷn. Yn ddiweddar, mae Gogledd Iwerddon wedi cau'r ymgynghoriad ar bwrpas ac egwyddorion cymwysterau galwedigaethol. Yn yr achosion olaf hyn, nid yw'r ymatebion i'r adolygiadau a'r ymgynghoriad yn hysbys eto.

Beth yw'r prif ganfyddiadau a'r prif negeseuon yng Nghymru? Drwy gydol yr adolygiad hwn, un o'r heriau rydym wedi ei wynebu yw gwahaniaethu rhwng 'cymwysterau galwedigaethol' ac 'addysg a hyfforddiant galwedigaethol'. Rydym yn

glir bod gennym yr agwedd iawn at addysg a hyfforddiant galwedigaethol, lle mae cymwysterau'n rhan o raglen ddysgu, sy'n ein galluogi i wahaniaethu rhwng elfennau rhaglenni sy'n addas i anghenion y dysgwr unigol, neu'r cyflogwr.

Rydym wedi dysgu bod gostyngiad wedi bod yn nifer y dysgwyr sy'n dechrau cymwysterau galwedigaethol dros y pum mlynedd diwethaf. Rydym yn cydnabod ein bod wedi dioddef pandemig COVID-19 yn ystod y cyfnod hwn, ac felly rydym yn ofalus ynghylch dehongli ac allosod tueddiadau o'r fath. Nid yw'n syndod bod gostyngiad hefyd wedi bod yn nifer y cymwysterau galwedigaethol y mae'r dysgwyr hyn yn cofrestru arnynt, sef tua 17%. Nid yw graddfa'r gostyngiad hwn yn cael ei adlewyrchu mewn cofrestriadau ar gyfer cyrsiau Safon Uwch neu Uwch Gyfrannol. Gallai fod llawer o resymau dros hyn ac rydym yn cyfeirio atynt yn ein hadroddiad, ac mae maint y gwahaniaeth yn rheswm dros graffu. Roeddem hefyd yn awyddus i nodi bod nifer y cofrestriadau i alwedigaethau sy'n bwysig i economi Cymru, fel peirianneg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, wedi aros yr un fath ar y gorau, ac ar y gwaethaf, wedi gostwng fel canran o'r holl gofrestriadau.

Nid oes gan Gymru strategaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol – yn wir nid oes ganddi strategaeth gyffredinol ar gyfer dysgu ôl-16. Mae angen strategaeth arnom sy'n cyfuno'r gwahanol elfennau sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant galwedigaethol a darparu cymwysterau, mewn un cynllun cydlynol. Nid oes ychwaith gennym asesiad clir o'n hanghenion galwedigaethol cenedlaethol ac anghenion o ran sgiliau ar gyfer y dyfodol. Yn erbyn asesiad o'r fath, mae angen inni gofnodi ein cofrestriadau ar gymwysterau, a chyrchfannau ein dysgwyr – heb gydberthynas o'r fath mae'n anodd penderfynu a oes gennym ystod berthnasol ac effeithiol o gymwysterau galwedigaethol i ddiwallu ein hanghenion yn y dyfodol. Ond mae angen inni gydnabod uchafiaeth dewis y dysgwyr, ac efallai na fydd dewis y dysgwyr bob amser yn cyd-fynd â'r galw. Mae angen inni gydnabod hefyd y gall cymwysterau galwedigaethol ysgogi dysgwyr i ailafael mewn dysgu. Mae angen i'n cwricwla galwedigaethol gydbwyso'r gofynion hyn.

Edrychom ar y darlun rhyngwladol a thynnu sylw at rai arferion rhyngwladol – ymgysylltu â rhanddeiliaid, lleoliadau gwaith, a Chydnabod Dysgu Blaenorol i enwi dim ond rhai. Fe wnaethom ystyried taith y dysgwr, tuag at gymwysterau galwedigaethol ac wrth eu cyflawni. Sylwom fod anghysondeb wrth ddarparu cyngor ac arweiniad cychwynnol i ddysgwyr – canfyddiad a adlewyrchir mewn sawl adroddiad cyfoes arall. Gwelsom y gall y pontio rhwng dysgu galwedigaethol cyn ac ôl-16 fod yn gymhleth, ac rydym yn annog Cymwysterau Cymru i ystyried y pontio hwnnw'n ofalus wrth ystyried y 'Cynnig Llawn ar gyfer Cymwysterau 14-16'. Roeddem yn falch o gydnabod nifer y cymwysterau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a chynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau'n ddwyieithog, ond credwn fod mwy i'w wneud.

Dywedwyd wrthym fod angen llwybrau cynnydd cliriach drwy gymwysterau galwedigaethol, a bod y dewis o gymwysterau sydd ar gael yn bwysig. O ran dysgwyr ôl-19, dywedodd cyflogwyr wrthym nad oeddem yn ddigon uchelgeisiol wrth ddatblygu a darparu ein cymwysterau. Mae angen inni fynd i'r afael â pha mor gyflym mae pethau'n datblygu a chyflymu'r ddarpariaeth drwy ddarparwyr dysgu.

Yn olaf, fe wnaethom ystyried yr opsiynau ar gyfer Cymru. Fe wnaethom ystyried mabwysiadu'r dull sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr. Er y gallwn weld bod lefelau T yn gymwysterau trwyadl a heriol, nid oeddem yn teimlo bod y cysyniad wedi cael ei brofi dros gyfnod realistig. Roeddem hefyd yn cydnabod yr heriau y mae darparwyr yn eu hwynebu. Fe wnaethom ystyried dull adweithiol o ddatblygu cymwysterau yng ngwledydd eraill y DU ond nid oeddem yn teimlo y byddai ymateb atgyrch yn bodloni ein dyheadau ein hunain.

Byddai cael corff dyfarnu cenedlaethol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn dod â nifer o fanteision, ac un ohonynt fyddai ein bod yn cael ein diogelu rhag penderfyniadau a wneir mewn gwledydd eraill. Fodd bynnag, un o'r negeseuon allweddol a gawsom oedd ei bod yn bwysig cael dewis o gymwysterau – gyda'r rhesymau'n cynnwys cludadwyedd rhyngwladol – a bod cyflogwyr yn parchu 'brandiau' cyrff dyfarnu sydd wedi hen ennill eu plwyf. Gan ystyried arwyddocâd sefydlu corff dyfarnu cenedlaethol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, gan gaffael arbenigedd, a dylunio a datblygu cymwysterau newydd ac effaith bosibl hyn ar gymwysterau presennol, ni allem argymell hyn fel ffordd ymlaen ar hyn o bryd.

Ein dewis olaf oedd ehangu cymwysterau sydd wedi'u gwneud i Gymru. Yn y pen draw, roedd ein dull gweithredu'n seiliedig ar ein sylwadau agoriadol – bod llawer o bethau da am gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru, a'r rheini sy'n cynllunio, yn datblygu, yn darparu ac yn cefnogi'r cymwysterau hyn. Gallwn adeiladu ar hyn, drwy gael ymagwedd newydd at adolygiadau sector, a mynd ati'n raddol i ehangu'r cymwysterau galwedigaethol sydd *wedi'u gwneud i Gymru*. Fodd bynnag, nodwn hefyd ein bod wedi wynebu rhai heriau wrth gyflwyno rhai cymwysterau sydd *wedi'u gwneud i Gymru* a bod angen inni sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o'r adolygiadau cyflym o'r cymwysterau hyn.

Byddwn yn adeiladu'r trywydd a argymhellir gennym drwy gydol naratif yr adroddiad hwn. Rydym yn argymell y dylid datblygu cymwysterau galwedigaethol sydd *wedi'u gwneud i Gymru* fesul cam, o fewn cynllun 10 mlynedd o adolygiadau sector newydd. Rydym hefyd yn argymell y dylid parhau i gynnig dewis, lle bynnag y bo modd, a dim ond pan fo gwir angen y dylem ddefnyddio cyfyngiadau. Dylid datblygu cymwysterau galwedigaethol sydd *wedi'u gwneud i Gymru* a'r cynllun 10 mlynedd yng nghyd-destun y strategaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol a'r asesiad o anghenion galwedigaethol a sgiliau, er mwyn sicrhau bod gennym yr ystod berthnasol ac effeithiol o gymwysterau galwedigaethol.

## Argymhellion

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol, a fyddai yn ei thro yn llywio'r cyfeiriad strategol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Dylai'r strategaeth hon fod yn rhan o strategaeth ehangach ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Argymhelliad 2: Fel rhan o'i strategaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol, dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r pwrpas a'r egwyddorion fel y'u diffinnir.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith i ddiffinio beth fydd y galw yn genedlaethol am anghenion galwedigaethol a sgiliau yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm, ochr yn ochr ag anghenion rhanbarthol a lleol sydd wedi'u mynegi'n glir ac sy'n cael eu fframio gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, ac yn cefnogi Cymwysterau Cymru i asesu'r blaenoriaethau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu'r gwaith o nodi tueddiadau cofrestru dysgwyr, a hefyd beth fydd cyrchfannau dysgwyr, er mwyn deall a yw dysgwyr yn symud ymlaen i ddiwydiant sy'n gysylltiedig â'u cymhwyster galwedigaethol. Dylid mapio'r tueddiadau hyn yn erbyn gofynion y farchnad lafur a nodir yn argymhelliad 3 uchod, er mwyn penderfynu a yw Cymru'n llwyddo i lenwi ei bylchau o ran galwedigaethau a sgiliau er mwyn bodloni dyheadau yn y dyfodol.

Argymhelliad 5: Bod Cymwysterau Cymru yn adnewyddu ei ddull ar gyfer adolygiadau sector, gan ailedrych lle bo angen ar sectorau sydd eisoes wedi cael eu hystyried. Dylai'r gwaith hwn gyd-fynd â'r strategaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol y cyfeirir ati yn argymhelliad 1, ac â'r dadansoddiad o'r gofynion o ran galwedigaethau a sgiliau yn y dyfodol y cyfeirir atynt yn argymhelliad 3.

Argymhelliad 6: Dylai Cymwysterau Cymru ehangu cylch gwaith grwpiau cymwysterau'r sector i roi cyngor ar ofynion yn y dyfodol, gan gynnwys rhanddeiliaid eraill i ategu'r grwpiau hyn lle bo hynny'n briodol.

Argymhelliad 7: Dylai Cymwysterau Cymru gyflwyno canfyddiadau a chynigion pob adolygiad sector i'w Fwrdd, er mwyn rhoi cyfle i graffu a herio cynigion a wnaed cyn eu cyhoeddi.

Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a Chymwysterau Cymru sicrhau bod adolygiadau sector ac adolygiadau fframwaith prentisiaethau yn cael eu cydlynu'n well, ac yn ystyried defnyddio grwpiau cymwysterau sector Cymwysterau Cymru a thystiolaeth o adolygiadau thematig Estyn i lywio'r broses.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau o ran cysondeb rhwng Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a Safonau Galwedigaethol yn Lloegr.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn cyfleoedd lleoliadau gwaith i bob dysgwr lefel 3 lle nad yw leoliad gwaith yn rhan orfodol o'u cymhwyster.

Argymhelliad 11: Dylai Cymwysterau Cymru edrych ar y cyd â rhanddeiliaid ar y ffordd orau o gydnabod dysgu generig yn y gweithle,

Argymhelliad 12: Wrth ystyried cymeradwyo cymwysterau a'r cyfundrefnau asesu yn y cymwysterau hynny, dylai Cymwysterau Cymru roi mwy o ystyriaeth i ba mor hawdd yw rheoli asesiadau, o safbwynt dysgwr a darparwr dysgu.

Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a Chymwysterau Cymru ystyried y derminoleg a ddefnyddir mewn cysylltiad â chymwysterau, a sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i nodi ffyrdd o gryfhau'r gwaith hyrwyddo, a chodi ymwybyddiaeth o werth addysg, hyfforddiant a chymwysterau galwedigaethol, i ddysgwyr a chyflogwyr.

Argymhelliad 14: O ystyried y gostyngiad a welwyd dros y pum mlynedd diwethaf yn nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol, mae Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ystyried a yw'r duedd hon yn cyd-fynd â gofynion y farchnad lafur a sgiliau ar gyfer y dyfodol ac yn nodi camau gweithredu pe bai angen hynny.

Argymhelliad 15: Wrth wreiddio'r Cwricwlwm i Gymru, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyngor teg a diduedd ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt mewn addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, ac yn ystyried y ffordd orau o gefnogi'r nod hwn yn benodol ar gyfer dysgwyr ag anableddau ac anawsterau dysgu.

Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 yn cael mynediad priodol at ddysgwyr cyn-16 er mwyn darparu gwybodaeth am gynnydd i ddysgwyr.

Argymhelliad 17: Dylai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil gynnull grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried gofynion mynediad i raglenni dysgu galwedigaethol i ddeall y gwahaniaethau presennol mewn gofynion, ac i benderfynu ar yr opsiynau gorau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Bydd rhaid i hyn ystyried tegwch ar draws y gofynion mynediad ar gyfer pob cymhwyster.

Argymhelliad 18: Dylai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu ffordd y gall staff sy'n gallu siarad Cymraeg gefnogi amrywiaeth o ddarparwyr dysgu, os ydynt yn fodlon gwneud hynny.

Argymhelliad 19: Gan weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, dylai Cymwysterau Cymru gyhoeddi ei gynllun i gynyddu nifer y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, gan gydnabod y gall hyn ganolbwyntio ar y cymwysterau gyda'r niferoedd mwyaf wedi cofrestru arnynt a lle mae'r galw mwyaf am y Gymraeg.

Argymhelliad 20: Dylai Cymwysterau Cymru ddatblygu ei gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru ymhellach i roi mwy o fanylion am y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Argymhelliad 21: Dylai Llywodraeth Cymru a darparwyr dysgu gydweithio i ystyried ffyrdd arloesol o gynnig cwricwlwm ehangach i ddysgwyr lle mae'r dewis yn fwy cyfyngedig, neu lle mae nifer fach o ddysgwyr,

Argymhelliad 22: Gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y 'Cynnig Llawn ar gyfer Cymwysterau 14-16', dylai Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru weithio gyda darparwyr dysgu a chyrff dyfarnu i sicrhau bod dysgwyr yn deall diben cymwysterau cyn-alwedigaethol, bod y cymwysterau hynny'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n gyson â'r disgwyliadau, a bod dilyniant rhwng cymwysterau cyn-alwedigaethol a chymwysterau galwedigaethol ôl-16.

Argymhelliad 23:  Dylai Cymwysterau Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i gynhyrchu ‘mapiau ffordd’ cymwysterau galwedigaethol i alluogi dysgwyr i nodi cyfleoedd cynnydd ym mhob sector.

Argymhelliad 24:   Dylai darparwyr dysgu hyrwyddo unedau unigol neu luosog o gymwysterau galwedigaethol i gyflogwyr lle bo hynny’n briodol, a dylai Cymwysterau Cymru annog cyrff dyfarnu i sicrhau bod tystysgrifau unedau ar gael i ateb y galw.

Argymhelliad 25:  Dylai’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ddarparu cronfa 'ymateb cyflym' i ddarparwyr dysgu, yn seiliedig ar anghenion a nodwyd a chanlyniadau cynaliadwy, i'w galluogi i ymateb yn gyflym i ofynion y diwydiant.

Argymhelliad 26:  Dylai Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a darparwyr dysgu weithio gyda’i gilydd i archwilio a yw’r trefniadau sy’n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol yn dal yn briodol, ac ystyried rhinweddau eu cymhwyso mewn ffordd gyson ledled Cymru.

Argymhelliad 27: Dylai Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil weithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i archwilio cynnydd drwy ddarpariaeth alwedigaethol i ddarpariaeth lefel 6, gan roi pwyslais penodol ar radd-brentisiaethau.  Dylai integreiddio fertigol rhwng lefelau fod yn hollbwysig yn y model cynnydd hwn.

Argymhelliad 28:  Dylai Cymru gadw marchnad agored mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol, ac ni ddylid mynd ati i greu un corff dyfarnu cenedlaethol.

Argymhelliad 29:  Ni ddylai Cymru fabwysiadu’r un dull gweithredu ag yn Lloegr wrth roi Lefelau T ar waith, ond dylai gadw golwg wrth i’r cymwysterau aeddfedu.

Argymhelliad 30:  Fel mesur tymor byr/canolig, dylai Cymwysterau Cymru barhau i weithio gyda chyrff dyfarnu i ymestyn dyddiad dechrau terfynol arferol y cymwysterau lle bo hynny’n briodol, a dylai roi’r wybodaeth ddiweddaraf i ddarparwyr dysgu am newidiadau posibl i gymwysterau drwy gyfathrebu clir a rheolaidd.

Argymhelliad 31:  Dylid derbyn yr ymadrodd *wedi’u gwneud i Gymru* fel terminoleg, a dylid mabwysiadu’r diffiniad o gymwysterau sydd *wedi’u gwneud i Gymru*.

Argymhelliad 32:  Pan fydd Cymwysterau Cymru yn comisiynu cymwysterau newydd, byddant yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff sy’n cynrychioli darparwyr dysgu i sefydlu datblygiad proffesiynol a goblygiadau o ran adnoddau, ac yn datblygu cynllun gweithredu ar y cyd.

Argymhelliad 33:  Dylai Cymwysterau Cymru adnewyddu ei ddull ar gyfer adolygiadau sector drwy ddatblygu cynllun 10 mlynedd, gan gynnwys adolygiadau thematig, a nodi cymwysterau y dylid *eu gwneud i Gymru*.  Lle bo angen diwygio cymwysterau, dylai Cymwysterau Cymru ystyried yn gyntaf yr opsiynau ar gyfer diwygio neu addasu cymwysterau presennol, a dim ond lle mae angen sicrhau ymrwymiad cyrff dyfarnu y dylai Cymwysterau Cymru gomisiynu cymwysterau newydd a chyfyngu arnynt.

# Cyflwyniad i'r Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru

## Y Cefndir

Cynhaliwyd yr adolygiad o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru o ganlyniad i'r Cytundeb Cydweithio[1] rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru (2021). Mae'r Cytundeb yn cyfeirio at 'Diwygio Sylfeini Cymru',[2] ac, mewn perthynas ag addysg yng Nghymru, at:

> 'Canolbwyntio ar brofiadau a lles wrth inni ddiwygio cymwysterau, yn unol â Chwricwlwm newydd Cymru. Byddwn yn ehangu cryn dipyn ar yr amrediad o gymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu 'gwneud yng Nghymru' er mwyn diwallu anghenion ein dysgwyr a'n heconomi.

Nodwyd cwmpas yr adolygiad yn y Cylch Gorchwyl (gweler Atodiad 1) ac roedd yn cynnwys cymwysterau galwedigaethol o lefelau 1 i 5, ni waeth lle maent yn cael eu darparu – chweched dosbarth mewn ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, neu addysg gymunedol i oedolion. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed, gan gydnabod y risg bosibl i gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru o ganlyniad i newidiadau yng ngwledydd eraill y DU – ac yn enwedig yn Lloegr.

Mae Lloegr wrthi'n diwygio cymwysterau galwedigaethol yn sylweddol. Lloegr yw'r farchnad fwyaf ar gyfer cyrff dyfarnu sy'n gweithredu ar draws pedair gwlad y DU, ac mae'n cyfrif am 92% o'r holl ardystiadau cymwysterau galwedigaethol ledled Cymru (5%), Lloegr a Gogledd Iwerddon (3%).[3] Mae Gogledd Iwerddon yn adolygu cymwysterau galwedigaethol ar hyn o bryd, ac ym mis Mawrth 2023 daeth ymgynghoriad i ben ar bwrpas ac egwyddorion addysg alwedigaethol.[4] Mae'r Alban newydd gwblhau adolygiad o'r 'cyfnod uwch'[5] a'r dirwedd o ran darparu sgiliau.[6]

## Sut rydym wedi cynnal yr adolygiad

Sefydlwyd y Grŵp Llywio ar gyfer yr adolygiad ym mis Gorffennaf 2022. Roedd yn cyfarfod yn fisol o fis Medi 2022 tan fis Mehefin 2023, gan sefydlu'r cyfeiriad ar gyfer yr adolygiad, a'r sail dystiolaeth sydd ei hangen i lywio ei ystyriaethau. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaeth y grŵp llywio:

---

[1] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/cytundeb-cydweithio-2021.pdf
[2] Ibid.P7
[3] Papur Briffio ar y Dirwedd Cymwysterau Galwedigaethol yn y DU: Cymwysterau Cymru, mis Tachwedd 2022
[4] https://consultations.nidirect.gov.uk/dfe/principles-for-vocational-qualifications-in-northe/
[5] https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/independent-report/2023/06/future-report-independent-review-qualifications-assessment/documents/future-report-independent-review-qualifications-assessment/future-report-independent-review-qualifications-assessment/govscot%3Adocument/future-report-independent-review-qualifications-assessment.pdf
[6] https://www.gov.scot/publications/fit-future-developing-post-school-learning-system-fuel-economic-transformation/

- gael cyflwyniadau gan wledydd eraill yn y Deyrnas Unedig, a gan wledydd eraill (gweler Atodiad 2)
- comisiynu ymchwil gan yr OECD ar ffurf 5 astudiaeth achos, pob un yn canolbwyntio ar ddarparu, dylunio a datblygu cymwysterau galwedigaethol mewn gwledydd unigol
- comisiynu ymchwil gan ddysgwyr drwy ymchwil Beaufort a Golley Slater
- cynnal dau weithdy ehangach i randdeiliaid, wedi'u hwyluso gan The Edge Foundation
- derbyn adborth o dystiolaeth ysgrifenedig, a chan y Cadeirydd, a wnaeth gynnal trafodaethau gydag ystod eang o sefydliadau ac unigolion (gweler Atodiad 3)

Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth, a dadansoddiad o sbectrwm eang o ddata. Gyda'i gilydd, rhoddodd yr holl wybodaeth hon ffynhonnell gyfoethog o dystiolaeth i ni er mwyn helpu i lywio casgliadau ac argymhellion.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ystyriaeth o'r dystiolaeth a nodwyd uchod, adborth gan randdeiliaid, gwaith ymchwil a dadansoddi helaeth, a llawer iawn o bwyso a mesur a thrafod. Rydym yn gwneud 33 o argymhellion.

**Cymwysterau Galwedigaethol: beth sy'n gweithio'n dda nawr?**

Drwy gydol yr Adolygiad rydym yn canolbwyntio ein meddwl ar fuddiannau gorau dysgwyr, gan sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol yn eu cefnogi i ddarparu cyfleoedd cynnydd i'r swydd o'u dewis, datblygu eu gwybodaeth a'u cymwyseddau er mwyn eu defnyddio i ddatblygu'r economi, ac i'w datblygu fel dinasyddion a fydd yn cyfoethogi ein cymdeithas a'n cymunedau.

Ar y cychwyn cyntaf, mae angen inni gydnabod bod llawer o bethau'n mynd yn dda ym myd cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru. A phan rydym yn sôn am gymwysterau galwedigaethol, rydym yn cyfeirio at gymwysterau galwedigaethol yn eu cyd-destun ehangaf posibl – y rheini sy'n dylunio ac yn datblygu, y rheini sy'n dyfarnu, y rheini sy'n darparu, y rheini sy'n cefnogi, y rheini sy'n ariannu, y rheini sy'n rheoleiddio ... ac fe allem fynd yn ei blaenau. Roedd pawb y buom yn ymgysylltu â nhw yn ystod yr adolygiad hwn yn frwd dros sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr yng Nghymru.

Roedd y rhanddeiliaid y gwnaethom ymgysylltu â nhw'n glir ynghylch rhinweddau amrywiol cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru ar hyn o bryd, ac roeddent am sicrhau bod yr elfennau hyn yn cael eu diogelu mewn unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- yr ystod eang o gymwysterau galwedigaethol, sy'n cynnig dewis i ddysgwyr, cyflogwyr a darparwyr dysgu

- gwreiddio cymwysterau galwedigaethol mewn rhaglenni dysgu, sy'n ddigon hyblyg i ganiatáu iddynt gael eu teilwra ar gyfer dysgwyr unigol

- cydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol o gymwysterau galwedigaethol

- cefnogaeth gref gan ddiwydiant a chysylltiadau â diwydiant o ran datblygu a chyflwyno cymwysterau galwedigaethol

- nifer cynyddol o gymwysterau galwedigaethol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog

- dull systematig o adolygu cymwysterau galwedigaethol

Fodd bynnag, gofynnodd rhanddeiliaid inni ganolbwyntio ar rai meysydd, gan gynnwys sut rydym yn sicrhau bod gennym y cymwysterau galwedigaethol cywir i ddiwallu anghenion yn y dyfodol, eglurder llwybrau cynnydd i ddysgwyr, mwy o ymatebolrwydd a hyblygrwydd i gyflogwyr, methodolegau asesu, a phryderon ynghylch cludadwyedd cymwysterau galwedigaethol yn y dyfodol. Rydym yn rhoi sylw i'r materion hyn yn ein hadroddiad.

**Strwythur yr Adroddiad**

Strwythurwyd ein hadroddiad fel a ganlyn:

- Mae Pennod 1 yn ystyried y rheswm dros gynnal yr adolygiad hwn, yn darparu gwybodaeth am gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru, y ffordd maent yn cael eu darparu a'u rheoleiddio a'r sefyllfa gymharol yng ngwledydd eraill y DU

- Mae Pennod 2 yn ystyried ein dysgwyr – pwy sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol a pha feysydd maen nhw'n eu hastudio

- Mae Pennod 3 yn edrych ar y cyd-destun cenedlaethol y caiff cymwysterau eu datblygu a'u darparu ynddo

- Mae Pennod 4 yn archwilio'r ffordd y caiff cymwysterau galwedigaethol eu dylunio a'u datblygu'n rhyngwladol

- Mae Pennod 5 yn canolbwyntio ar daith y dysgwr tuag at gymwysterau galwedigaethol ac wrth eu cwblhau

- Mae Pennod 6 yn ystyried ac yn gwerthuso'r opsiynau sydd ar gael i Gymru

# Pennod 1: Adolygiad o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru

## 1.1 Cyflwyniad

Cafodd yr adolygiad hwn o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru ei gynnal o ganlyniad i'r Cytundeb Cydweithio[7] rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru (2021). Nod y Cytundeb yw 'diwygio sylfeini Cymru,'[8] ac, mewn perthynas ag addysg yng Nghymru, 'canolbwyntio ar

brofiadau a lles wrth inni ddiwygio cymwysterau, yn unol â chwricwlwm newydd Cymru. Byddwn yn ehangu cryn dipyn ar yr amrediad o gymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu 'gwneud yng Nghymru' er mwyn diwallu anghenion ein dysgwyr a'n heconomi.

Cytunodd y Gweinidog dros y Gymraeg ac Addysg, a'r Aelod Dynodedig ar Gylch Gorchwyl yr adolygiad hwn cyn dechrau'r adolygiad hwn. Nodwyd chwe amcan penodol, sef:

- cofnodi a gwneud sylwadau ar berthnasedd ac effeithiolrwydd y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd ar lefelau 1, 2, 3, 4 a 5, a nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu pellach arnynt

- nodi'r modelau rhyngwladol gorau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, gan gynnwys unrhyw dueddiadau a newidiadau diweddar, a pha mor addas a pherthnasol ydynt yma, yn enwedig yng nghyd-destun uchelgeisiau a nodau'r Cwricwlwm newydd i Gymru

- ystyried effaith y cymwysterau Lefel T newydd ar Gymru a'r opsiynau, gan gynnwys dewisiadau eraill, ar gyfer dysgwyr yng Nghymru

- ystyried gwaith a wnaed gan Cymwysterau Cymru i ganfod pa gymwysterau galwedigaethol presennol y mae cyrff dyfarnu yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn bwriadu eu gwneud i newid yr ystod o gymwysterau galwedigaethol maent yn eu cynnig ar lefelau 1, 2, 4 a 5 dros y pedair blynedd sy'n weddill ar y Senedd bresennol

- amlinellu a gwerthuso'r opsiynau ar gyfer Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a darparwyr cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn sgil y newidiadau tebygol a nodwyd o dan bwyntiau 1 i 4 uchod

- gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ac Aelodau Dynodedig ynghylch ffurf ac amseriad yr ehangu sylweddol ar gymwysterau galwedigaethol sydd wedi cael 'eu gwneud yng Nghymru' a rhai sydd 'wedi'u gwneud i Gymru' yn ystod y cyfnod

[7] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/cytundeb-cydweithio-2021.pdf
[8] Ibid.P7

rhwng 2023 a 2026. Bydd hyn yn cynnwys yr adnoddau ychwanegol a'r gofynion cyllido i gefnogi unrhyw newidiadau arfaethedig

Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar gymwysterau galwedigaethol a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed. Yn y bennod hon, rydym yn darparu gwybodaeth gyd-destunol allweddol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru – beth ydynt, pwy sy'n eu darparu, sut maent yn cael eu hariannu a rôl y rheoleiddiwr – Cymwysterau Cymru. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth am y dirwedd cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru, yng ngwledydd eraill y DU, ac yn gryno mewn gwledydd a oedd yn rhan o ymchwil a gynhaliwyd gan yr OECD[9] fel rhan o'r adolygiad hwn.

## 1.2 Beth yw cymwysterau galwedigaethol?

Cynlluniwyd addysg a hyfforddiant galwedigaethol er mwyn i ddysgwyr gael gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau sy'n benodol i alwedigaethau penodol yn gyffredinol, neu fynediad at addysg bellach ac uwch. Mae cymwysterau galwedigaethol yn darparu ac yn asesu gwybodaeth, sgiliau a lefelau gallu dysgwyr sy'n dilyn addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Efallai fod gan y cymwysterau gydrannau sy'n seiliedig ar waith, ac yn achos fframweithiau prentisiaeth, caiff dysgwyr eu cyflogi gan y sefydliad y maent yn gweithio iddo.

Mae cymwysterau galwedigaethol ar gyfer dysgwyr ôl-16 ar gael ar sawl lefel. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried y rheini o lefel 1 i lefel 5, ond rydym yn cyfeirio at gymwysterau lefel mynediad (cymwysterau sy'n is na lefel 1) lle bo hynny'n briodol, er mwyn darparu dadansoddiad cynhwysfawr o'r dirwedd cymwysterau galwedigaethol. Mae amryw o gymwysterau galwedigaethol yn bodoli: mae enghreifftiau'n cynnwys diplomâu estynedig sy'n cyfateb yn fras i dri chymhwyster Safon Uwch; cymwysterau galwedigaethol cenedlaethol, a all fod ar gael ar bob lefel sy'n cael sylw yn yr adolygiad hwn; cymwysterau sy'n paratoi unigolion ar gyfer bywyd a gwaith; a chymwysterau proffesiynol, fel y rheini ar gyfer technegwyr cyfrifyddu. Mewn llawer o achosion, mae darparwyr hefyd yn cynnig Tystysgrif Her Sgiliau Uwch lefel 3, sy'n aml yn cael ei galw'n Fagloriaeth Cymru. O fis Medi 2023 ymlaen, bydd hyn yn cael ei ddisodli gan Fagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru.

## 1.3 Pwy sy'n darparu cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru?

Darperir y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael ar gyfer arian cyhoeddus yng Nghymru mewn tri math o leoliad yn bennaf:

- ysgolion gyda'u chweched dosbarth eu hunain
- colegau addysg bellach

[9] Vocational Qualifications in an International Perspective, OECD, Mehefin 2023

- darparwyr dysgu seiliedig ar waith

Mae partneriaid Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac eraill hefyd yn darparu cymwysterau galwedigaethol, er bod nifer y dysgwyr yn sylweddol is yn y lleoliadau hyn.

Yn 2021/22, roedd chweched dosbarth mewn 136 o ysgolion yng Nghymru[10] – ysgolion uwchradd a chanol (ysgolion pob oedran).[11] Roedd 23,520 o ddisgyblion[12] yn y chweched dosbarth hynny ym mlynyddoedd 12, 13 a 14. Roedd ychydig o dan draean o'r rhain yn dilyn cymwysterau galwedigaethol – 7,335 o ddysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion sydd â chweched dosbarth yn cynnig cymwysterau galwedigaethol ar lefel 3 ochr yn ochr â Safon Uwch. Mewn rhai ardaloedd, mae darpariaeth drydyddol, lle mae dysgwyr o ysgolion heb chweched dosbarth yn cael mynediad i goleg lleol neu ysgol arall gyda chweched dosbarth ar ôl cwblhau Blwyddyn 11.

Mae tri ar ddeg o golegau addysg bellach, gan gynnwys Addysg Oedolion Cymru, yn cynnig amrywiaeth o gymwysterau addysg galwedigaethol a chyffredinol o lefel mynediad hyd at lefel 5 yng Nghymru. Mae llawer o golegau addysg bellach yn cynnig darpariaeth lefel uwch, mewn partneriaeth â phrifysgolion yn gyffredinol. Yn 2021/22, roedd 45,250 o ddysgwyr unigryw llawn amser mewn Colegau Addysg Bellach, a 54,680 o ddysgwyr rhan amser.[13] Nid oedd pob un o'r dysgwyr hyn yn dilyn cymwysterau galwedigaethol. Roedd 19,375 o ddysgwyr eraill yn dilyn darpariaeth dysgu seiliedig ar waith mewn colegau addysg bellach.

Caiff darpariaeth prentisiaeth – rhan o ddysgu seiliedig ar waith – ei ddarparu yn y gweithle ac fel arfer mae'n cynnwys elfen tu allan i'r gwaith lle mae dysgwyr yn mynychu canolfan hyfforddi neu goleg ar gyfer rhannau theori eu rhaglen. Ym mis Awst 2021, contractiodd Llywodraeth Cymru â deg o'r 'prif' ddarparwr dysgu seiliedig ar waith i ddarparu prentisiaethau ledled Cymru. Mae chwech o'r rhain yn gonsortia neu'n bartneriaethau sy'n cael eu harwain gan golegau addysg bellach, ac mae pedwar yn ddarparwyr hyfforddiant annibynnol. Mae'r deg prif ddarparwr dysgu seiliedig ar waith yn gweithio gydag is-gontractwyr i ddarparu fframweithiau prentisiaeth. Mae fframweithiau prentisiaeth yn cynnwys cymwysterau technegol, cymwysterau galwedigaethol sy'n seiliedig ar gymhwysedd, sgiliau hanfodol Cymru a chymwysterau eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer galwedigaeth benodol.

---

[10] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Schools/schools-by-localauthorityregion-type

[11] Mae darpariaeth ôl-16 ar gael hefyd mewn ysgolion arbennig a gynhelir. Nid yw data'n cael ei gasglu am y cymwysterau sy'n cael eu gwneud yn yr un ffordd â'r rhai ar gyfer ysgolion uwchradd ac ysgolion canol, felly nid yw'r rhain wedi cael eu cynnwys.

[12] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Schools/schools-by-localauthorityregion-type

[13] StatsCymru: Datganiad Ystadegol Cyntaf – Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith ac addysg oedolion yng Nghymru, 2021/22

Mae pum darparwr dysgu seiliedig ar waith yn cynnig darpariaeth Cyflogadwyedd – Twf Swyddi Cymru +. Mae tri o'r rhain yn gonsortia neu'n bartneriaethau sy'n cael eu harwain gan golegau addysg bellach, ac mae dau yn ddarparwyr hyfforddiant annibynnol. Rhaglen hyfforddi a/neu ddatblygu ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed nad ydynt yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant na chyflogaeth ôl-16 yw Twf Swyddi Cymru +. Prif amcan Rhaglen Twf Swyddi Cymru + yw arfogi pobl ifanc â'r sgiliau, y cymwysterau a'r profiad sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i symud ymlaen i ddysgu ar lefel uwch, cyflogaeth (gan gynnwys hunangyflogaeth) neu brentisiaeth.

Yn 2021/22, roedd 43,755 o ddysgwyr unigryw mewn darpariaeth dysgu seiliedig ar waith.[14] Mae'r nifer hwn yn cynnwys dysgwyr sy'n dilyn llwybrau prentisiaethau neu hen raglenni hyfforddeiaeth (un o 'ragflaenwyr' Twf Swyddi Cymru) ond nid yw'n cynnwys dysgwyr Twf Swyddi Cymru a Twf Swyddi Cymru + a ddechreuodd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2022. Ddiwedd mis Rhagfyr 2022, roedd 2,035 o raglenni Twf Swyddi Cymru + yn cael eu cynnal.[15]

### 1.4 Beth yw'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru?

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am addysg a hyfforddiant a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Nodir deddfwriaeth ar gyfer dysgwyr 16 oed a throsodd yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, a Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, sy'n nodi'r sail statudol ar gyfer llwybrau dysgu 14-19. Darperir canllawiau statudol ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed[16], sy'n gofyn am greu cwricwla lleol, wedi'u llywio gan y rhwydweithiau rhanbarthol 14-19, gofynion cwricwlwm cyfnod allweddol 4, a rhwymedigaeth i sicrhau bod cymaint â phosibl o gyrsiau astudio ar gael.

Gall cyfansoddiad cwricwla lleol amrywio yn ôl blaenoriaethau a gofynion lleol a rhanbarthol ond dylai gynnwys o leiaf 30 o gyrsiau ar lefel 3. Rhaid i bob cwricwlwm lleol gynnig o leiaf 5 cwrs cyffredinol a 5 cwrs galwedigaethol. Rhaid i'r cyrsiau galwedigaethol fod ar draws o leiaf 3 maes,[17] ac mae'n rhaid i un ohonynt fod ym maes mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg.

Gellir cynnwys darpariaeth o raglenni lefel 2 mewn cwricwla lleol i ddarparu cynnydd priodol o Gyfnod Allweddol 4 i ddysgwyr sy'n dewis cyrsiau sydd ond yn gallu cael eu darparu ar lefel 1 ar gyfer dysgwyr cyn-16.

---

[14] Ibid

[15] Ystadegau Twf Swyddi Cymru+ | LLYW.CYMRU

[16] Canllawiau Statudol ôl-16 (llyw.cymru)

[17] Y meysydd dysgu yw (a) mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg, (b) busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith, (c) gwasanaethau i bobl, (d) y celfyddydau, y cyfryngau, diwylliant ac ieithoedd, (e) y dyniaethau, y gwyddorau cymdeithasol a pharatoi ar gyfer bywyd a gwaith.

O dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, rhaid i bob cymhwyster hyd at 19 oed nad yw'n radd sydd ar gael ar gyfer cyllid cyhoeddus yng Nghymru gael eu 'cymeradwyo' neu eu 'dynodi' fel rhai sy'n gymwys i gael cyllid gan Cymwysterau Cymru.[18] Corff annibynnol yw Cymwysterau Cymru, sy'n rheoleiddio cyrff dyfarnu a'r cymwysterau y maent yn eu cynnig yng Nghymru. Rhestrir yr holl gymwysterau sy'n cael eu cynnig gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru, sydd hefyd yn nodi a ydynt wedi cael eu 'cymeradwyo' neu eu 'dynodi' ar gyfer cyllid cyhoeddus.

Sefydlodd Cymwysterau Cymru raglen o adolygiadau sector ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, a ddechreuodd yn fuan ar ôl i'r sefydliad gael ei sefydlu yn 2015. Caiff meysydd pynciau'r sector eu gwerthuso i benderfynu a yw'r cymwysterau galwedigaethol sydd ynddynt yn dal yn addas i'r diben. Gall adolygiadau sector arwain at gymwysterau galwedigaethol newydd sbon sydd *wedi'u gwneud i Gymru* – fel yn sectorau 'iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant (2016)', ac 'adeiladu a'r amgylchedd adeiledig (2018)', diweddaru cymwysterau galwedigaethol presennol, neu gadw'r sefyllfa bresennol. Mae'r camau a gymerir yn dibynnu ar ganfyddiadau'r adolygiad a'u bwriad yw bod yn gymesur â'r canfyddiadau hynny.

Mae Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu Gydol Oes 2009 yn cynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud â phrentisiaid.[19] Cynigir Fframweithiau Prentisiaeth i ddysgwyr rhwng 16 a 18 oed, ac yn wir, maent yn cael eu cynnig i ddysgwr o unrhyw oedran yng Nghymru, ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf penodol. Llywodraeth Cymru yw'r Awdurdod Cyhoeddi ar gyfer fframweithiau prentisiaethau Cymru.[20]

Caiff fframweithiau prentisiaeth eu hadolygu a'u datblygu gan Lywodraeth Cymru o fewn amserlen tair blynedd. Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw fframweithiau newydd neu ddiwygiedig yn bodloni safonau'r diwydiant a'r gofynion sylfaenol a nodir yn Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru. Wrth wneud hynny, mae partneriaid datblygu yn cael eu contractio i ddiweddaru fframweithiau, gan gynnwys cyrff sy'n cynrychioli cyflogwyr yn y sector, fel Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu, a chyrff datblygu'r gweithlu fel Gwella Addysg Iechyd Cymru. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi trefniadau ar gyfer 'Galwadau i Weithredu' sy'n caniatáu i gyflogwyr gyflwyno cynigion i ddatblygu fframweithiau newydd a rhai sydd wedi cael eu diweddaru.

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf ADY)[21] yn golygu bod y trefniadau ar gyfer cynllunio a chyllido'r holl addysg a hyfforddiant ôl-16, gan gynnwys Addysg Uwch, yn newid o 1 Ebrill 2024 ymlaen. Mae'r weledigaeth

[18] https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents
[19] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/22/contents
[20] [20] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-05/awdurdod-cyhoeddi-prentisiaethau-cymru.pdf
[21] https://www.legislation.gov.uk/asc/2022/1/contents/enacted

strategol[22] yn nodi 'gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau sector Addysg Drydyddol ac Ymchwil (ADY) mwy ymgysylltiedig, rhagorol a theg yng Nghymru sy'n blaenoriaethu buddiannau dysgwyr ac yn cyfrannu at ffyniant cenedlaethol. Dymunwn weld system ADY gydgysylltiedig yng Nghymru sy'n hawdd i bawb ei llywio, yn cael ei gwerthfawrogi gan y cyhoedd, yn creu cymdeithas fedrus iawn, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, sydd ag enw da ledled y byd am

addysg, hyfforddiant, ymchwil ac arloesi rhagorol, ac sy'n seiliedig ar genhadaeth ddinesig'.

**1.5 Sut mae cymwysterau galwedigaethol yn cael eu cyllido yng Nghymru?**

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ar gyfer dysgwyr hyd at 19 oed i ariannu cymwysterau galwedigaethol drwy grant bloc i ddosbarthiadau chwech mewn ysgolion (drwy awdurdodau lleol) a cholegau addysg bellach. Darperir cyllid ar gyfer darpariaeth dysgu seiliedig ar waith drwy ymarfer caffael cyhoeddus, ac ar ôl i Lywodraeth Cymru ddyfarnu contractau i gontractwyr llwyddiannus sy'n cael eu galw'n ddarparwyr arweiniol, byddant wedyn yn cael eu hariannu i gynnig y ddarpariaeth. Mae partneriaid Dysgu Oedolion yn y Gymuned hefyd yn cael cyllid grant, drwy awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach fel arfer.

Yn 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fframwaith ar gyfer cynllunio a chyllido addysg ôl-16 yng Nghymru. Roedd y fframwaith newydd yn addasu rheoliadau cyllido i ganolbwyntio ar 'raglenni dysgu' yn hytrach na chymwysterau fel sail ar gyfer cynllunio a chyllido. Mae rhaglen ddysgu yn seiliedig ar becyn dysgu sydd â'r pwrpas a'r nod o gamu ymlaen i gyflogaeth neu addysg bellach neu uwch. Cynlluniwyd pob rhaglen amser llawn gyda'r un strwythur cyffredinol ond bydd ganddi ei manyleb ei hun yn dibynnu ar y math o raglen a'i lefel. Mae pob rhaglen ddysgu fel arfer yn cynnwys pedair elfen:

- craidd
- prif Gymhwyster/Gymwysterau
- Ffocws Diwydiant Dysgwyr cymunedol (CLIF)
- profiad cysylltiedig â gwaith (WRE)

**Craidd:** Dylid cefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd o ran eu sgiliau rhifedd a llythrennedd drwy gydol eu rhaglen ddysgu. Mae sawl dewis a chyfuniad o ddewisiadau lle gall dysgwyr ddatblygu eu sgiliau, gan gynnwys ymgymryd â'r Dystysgrif Her Sgiliau, naill ai ar eu pen eu hunain neu fel rhan o'u Bagloriaeth Cymru, gan gymryd o leiaf 2/3 cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru, yn unol â chanlyniad asesu Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) ar gyfer pob dysgwr, ac amser tiwtorial.

[22] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/gweledigaeth-strategol-addysg-a-hyfforddiant-orfodol.pdf

**Prif Gymhwyster/Gymwysterau:** Rhaid dewis prif gymwysterau mewn rhaglenni dysgu o'r rhai a restrir ar gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru[23] o fewn y categorïau o gymwysterau cymeradwy neu ddynodedig, a rhaid iddynt fod yn berthnasol i faes dysgu'r rhaglen. Rhaid i'r prif gymhwyster/cymwysterau gyfrif am dros 50% o gyfanswm yr Oriau Cyswllt dan Arweiniad ar gyfer y rhaglen, gyda'r targed yn 70% o gyfanswm yr Oriau Cyswllt dan Arweiniad.

**Ffocws Diwydiant Dysgwyr Cymunedol:** Dylid teilwra'r elfen hon o'r rhaglen i ddiwallu anghenion penodol y dysgwr, ac anghenion cyflogwr penodol a chyflogwyr yn lleol. Dylai'r cymwysterau a ddarperir o dan Ffocws Diwydiant y Dysgwyr Cymunedol ychwanegu gwerth at raglen drwy ddatblygu sgiliau ehangach neu drwy ddatblygu lefel uwch o sgiliau i helpu pobl i gamu ymlaen i swyddi neu astudiaethau pellach. Ni fydd angen i bob dysgwr ymgymryd â'r elfen hon oherwydd ei bod yn bosibl na fydd angen gwneud hyn os yw'r prif gymhwyster wedi mynd i'r afael yn llawn â gofynion y dysgwr. Mae gan ddarparwyr yr hyblygrwydd i deilwra'r elfen hon i ddarparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr unigol i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd neu sgiliau personol a chymdeithasol.

**Profiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith:** dim ond ar gyfer rhai rhaglenni y bydd angen hyn, naill ai er mwyn bodloni manyleb y cymhwyster ar gyfer profiad gwaith a asesir, neu'r sgiliau sy'n ofynnol er mwyn symud ymlaen.

Mae gwahanol lwybrau cyllido ar gael i ddysgwyr dros 19 oed, yn dibynnu ar eu cymhwysedd. Mae'r llwybrau hyn yn cynnwys Grant Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru (amser llawn a rhan-amser), ReACT+, a Chyfrifon Dysgu Personol.

### 1.6 Pwy sy'n rheoleiddio cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru?

Ledled y DU, corff allanol, annibynnol sy'n rheoleiddio'r holl gymwysterau a gaiff eu cynnig ar gyfer cyllid cyhoeddus – sef y rheoleiddiwr. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r cymwysterau galwedigaethol a ddilynir yng Nghymru hefyd ar gael yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r dull hwn yn hwyluso cludadwyedd cymwysterau ac yn annog dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr. O dan Ddeddf Cymwysterau Cymru (2015), caiff yr holl gymwysterau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed yng Nghymru eu cymeradwyo neu eu dynodi'n gymwys i gael eu cyllido a'u rheoleiddio gan y rheoleiddiwr annibynnol, Cymwysterau Cymru.

Mae Deddf Cymwysterau Cymru yn canolbwyntio'n glir ar anghenion penodol system Cymru. Mae'n nodi'r prif nodau fel a ganlyn: *'sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng*

[23] https://www.qiw.wales/qualifications/search?lang=cy&all=True

*Nghymru; a magu hyder mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru ymysg y cyhoedd.'*


Cymwysterau Cymru sy'n cyflawni'r pwerau a'r swyddogaethau rheoleiddio a fynegir yn y ddeddfwriaeth, sy'n cynnwys y canlynol:

- rheoleiddio cyrff dyfarnu a'u cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru
- canolbwyntio ar gymwysterau blaenoriaeth
- cymeradwyo mathau o gymwysterau sydd yna'n gymwys i gael eu darparu i ddysgwyr sy'n mynychu cyrsiau penodol sy'n derbyn cyllid cyhoeddus
- dynodi mathau eraill o gymwysterau sydd yna hefyd yn gymwys i'w defnyddio ar gyrsiau sy'n derbyn cyllid cyhoeddus
- cyfyngu'r nifer o fathau o gymwysterau a allai gael eu cymeradwyo
- comisiynu cymwysterau newydd lle mae cyfyngiad o'r fath ar waith, ac
- adolygu cymwysterau a'r system gymwysterau

Mae swyddogaeth Cymwysterau Cymru yn ehangach na rheoleiddiwr cymwysterau confensiynol, ac mae ganddo bwerau ychwanegol i gomisiynu cymwysterau newydd drwy broses gystadleuol agored lle mae angen yn y farchnad, mae'n gallu cyfyngu ar yr amrywiaeth o gymwysterau sy'n cael eu cynnig, ac mae'n gallu darparu grantiau i gefnogi'r system gymwysterau, gan gynnwys cymorth ar gyfer cymwysterau yn y Gymraeg.

### 1.7 Categoreiddio Cymwysterau

Mae Cymwysterau Cymru yn cydnabod cyrff dyfarnu - cyrff dyfarnu sydd wedi bodloni'r meini prawf a sefydlwyd gan Cymwysterau Cymru.  Ar ôl cael eu cydnabod, rheoleiddir yr holl gymwysterau a gynigir gan y corff dyfarnu hwnnw yng Nghymru, oni bai fod y corff dyfarnu yn gwneud cais am esemptiad i gymwysterau penodol. Maent yn cael eu categoreiddio yn gymwysterau 'cymeradwy', 'dynodedig' neu'n gymwysterau 'rheoleiddiedig eraill'.




'Cymwysterau Cymeradwy' yw'r cymwysterau hynny sy'n gymwys i gael eu defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ac a gymeradwywyd o dan Ran 4 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, a ddyfarnwyd yng Nghymru ac sydd wedi bodloni meini prawf cymeradwyo.  Mae cymwysterau a gymeradwywyd yn rhai:

- sydd wedi'u gwneud i Gymru, ac felly wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr yng Nghymru
- lle mae Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi meini prawf cymeradwyo y mae angen i gyrff dyfarnu eu bodloni er mwyn cynnig y cymwysterau hynny
- sydd ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg
- wedi'u targedu'n benodol fel rhan o raglen flynyddol i fonitro cymwysterau.

'Cymwysterau Dynodedig' yw'r cymwysterau hynny sydd wedi'u dynodi'n rhai cymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed, fel y'u diffinnir o dan adran 29 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.  Fel arfer, cynigir cymwysterau dynodedig ar draws y DU gyfan, felly nid ydynt yn benodol yn rhai sydd *wedi'u gwneud i Gymru*, er y gall Cymwysterau Cymru osod gofynion rheoleiddio ychwanegol pan gaiff y rhain eu cynnig i ddysgwyr yng Nghymru. Fel arfer, mae Cymwysterau Cymru'n gweithio mewn partneriaeth agos â rheoleiddwyr cymwysterau eraill y DU ar y cymwysterau hyn.

Cymwysterau 'rheoleiddiedig eraill' yw'r cymwysterau hynny a ddyfernir yng Nghymru gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig, nad ydynt wedi cael eu dynodi na'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru.  Maent yn cael eu rheoleiddio o dan yr amodau cydnabod safonol ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu rheoleiddio ar y cyd â'r Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau a rheoleiddwyr eraill yn y DU.

Cymwysterau Cymru sy’n penderfynu a yw cymhwyster yn gymwys i gael ei ddefnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yng Nghymru, ond Llywodraeth Cymru sy’n gwneud penderfyniadau ynghylch ariannu rhaglenni o’r fath.

### 1.8 Pa gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru?

Ar hyn o bryd mae 90 o Gyrff Dyfarnu yn cynnig cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru.[24] Yn ystod 2021/22, 10 Corff Dyfarnu ddyfarnodd 82% o gyfanswm yr ardystiadau galwedigaethol a’r ardystiadau eraill a ddyfarnwyd.[25] Yn yr un flwyddyn, CBAC ddyfarnodd 7.85% o’r holl dystysgrifau galwedigaethol a gyhoeddwyd. Mae llai na 100 o gofrestriadau bob blwyddyn ar gyfer oddeutu 85% o gymwysterau galwedigaethol.


Ym mis Gorffennaf 2022, roedd 3,768 o gymwysterau galwedigaethol/eraill[26] cymeradwy a dynodedig ar gael ar gyfer cyllid cyhoeddus yng Nghymru ar bob lefel. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y cymwysterau galwedigaethol/eraill sydd ar gael ar gyfer cyllid cyhoeddus, o 7,569 yn 2017/18 i 3,768 - gostyngiad o bron i 4,000 mewn pum mlynedd.

Graff 1: Cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill sydd wedi’u cymeradwyo a’u dynodi yng Nghymru

[24] vq-release-cy-final.pdf (cymwysterau.cymru)

[25] https://cymwysterau.cymru/cyhoeddiadau-ac-adnoddau/adroddiad-blynyddol-ar-y-farchnad-gymwysterau-blwyddyn-academaidd-2021-i-2022-yng-nghymru/

[26] Mae Cymwysterau Galwedigaethol ac Eraill yn cynnwys: FfCCh; Cymwysterau cyffredinol eraill; Cymwysterau yn y maes Galwedigaethol; IVET; CVET; Lefel mynediad; Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill; Sgiliau Hanfodol Cymru; Lefel Uwch; Cymhwyster Galwedigaethol; Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol; Sgiliau Allweddol; Sgiliau Gweithredol; Sgiliau bywyd eraill; Cymwysterau Galwedigaethol eraill; Arholiad Graddedig y Celfyddydau Perfformio; Asesiad Pwynt Gorffen




Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru ar y Farchnad Cymwysterau 2021/22, Chwefror 2023

Yn ogystal â'r cymwysterau hynny sydd ar gael ar gyfer cyllid cyhoeddus, mae dros 12,000 o gymwysterau galwedigaethol ychwanegol ar gael i ddysgwyr, er na fydd llawer o'r rhain wedi cael eu dyfarnu ers cryn amser – nid yw'r rhain yn derbyn cyllid cyhoeddus drwy grant bloc.

**1.9 Sut beth yw'r dirwedd cymwysterau galwedigaethol yn Lloegr?**

Sefydlwyd y Panel Annibynnol ar Addysg Dechnegol ym mis Tachwedd 2015 gan Weinidog Sgiliau Llywodraeth San Steffan. Gofynnwyd i'r Panel roi cyngor ar fesurau a allai wella addysg dechnegol yn Lloegr.[27] Ei brif argymhelliad oedd y dylai'r 'Llywodraeth ddatblygu opsiwn addysg dechnegol cydlynol sy'n datblygu'r wybodaeth dechnegol a'r sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith medrus, sy'n arwain o lefelau 2/3 i lefelau 4/5 a thu hwnt, ac sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr am ei fod yn gweithio yn y farchnad'.

O ganlyniad, mae Lloegr wrthi'n diwygio cymwysterau galwedigaethol yn sylweddol. Lloegr yw'r farchnad fwyaf ar gyfer cyrff dyfarnu sy'n gweithredu ar draws pedair gwlad y DU, ac mae'n cyfrif am 92% o'r holl ardystiadau cymwysterau galwedigaethol ledled Cymru (5%), Lloegr a Gogledd Iwerddon (3%).[28]

[27] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/536046/Report_of_the_Independent_Panel_on_Technical_Education.pdf

[28] Papur Briffio ar y Dirwedd Cymwysterau Galwedigaethol: Cymwysterau Cymru, mis Tachwedd 2022

Ar lefel 3, mae Lloegr wedi cyflwyno Lefelau T[29] mewn nifer o feysydd sector. Cyrsiau dwy flynedd sy'n cael eu hastudio ar ôl TGAU yw Lefelau T ac maent yn cyfateb yn fras i dair lefel A. Fe gawsant eu datblygu ar y cyd â chyflogwyr a darparwyr addysg ac maent yn cynnwys y canlynol:[30]

- cymhwyster technegol
- lleoliad diwydiannol am ddim llai na 315 awr (45 diwrnod)
- cymwysterau Mathemateg a Saesneg
- gofynion eraill yn unol â chyfarwyddyd paneli Lefel T, fel cymwysterau trwydded i ymarfer neu gofrestriad proffesiynol.

Y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol sy'n goruchwylio ac yn dyfarnu Lefelau T, ac mae'n gyfrifol am wneud trefniadau gyda chyrff dyfarnu i ddatblygu a darparu cymwysterau technegol o fewn Lefelau T. Cyfyngwyd y gwaith o gynllunio a datblygu'r cymwysterau technegol i un corff dyfarnu.

Mae Lefelau T yn cael eu cyflwyno'n raddol. Mae'r 16 cyntaf wedi cael eu lansio bellach a'r bwriad yw y bydd 24 ar gael yn y pen draw. Ddechrau mis Mawrth 2023, gohiriodd yr Adran Addysg y gwaith o gyflwyno 4 Lefel T, a oedd i fod i ddechrau yn 2024 yn wreiddiol 'i sicrhau bod modd darparu'r cymwysterau'n llwyddiannus, a bod myfyrwyr yn cael profiad o ansawdd uchel ac yn gallu symud ymlaen yn llwyddiannus'.[31]

Mae Lefelau T yn debygol o ddisodli ystod o gymwysterau galwedigaethol a thechnegol a ariennir ar gyfer pobl ifanc 16–19 oed yn Lloegr. Ar 29 Mawrth 2023, cyhoeddodd yr Adran Addysg yn Lloegr restr derfynol o gymwysterau ar Lefel 3 sy'n gorgyffwrdd â Lefelau T (tonnau 1 a 2 o'r cyfnod gweithredu yn unig) ac a fydd yn cael eu dad-gyllido o 1 Awst 2024 ymlaen. Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd restr o gymwysterau y mae'n fwriad eu dad-gyllido mewn perthynas â thon 3.

Ym mis Mawrth 2022, lansiodd Llywodraeth San Steffan ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu safbwyntiau ar gynigion i ddiwygio cymwysterau ôl-16 ar Lefel 2 ac is.[32] Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig y bydd wyth grŵp o gymwysterau yn dod o fewn y cwmpas ar gyfer cyllid cyhoeddus ar lefel 2, ochr yn ochr â chymwysterau TGAU a Sgiliau Gweithredol. Bydd cymwysterau'n cael eu grwpio yn ôl y canlynol: a ydynt yn cefnogi camu ymlaen i astudio ar lefel 3, yn darparu mynediad at gyflogaeth

---

[29] https://www.gov.uk/government/publications/introduction-of-T Levels/introduction-of-T Levels
[30] Papur Briffio ar Lefelau T: Cymwysterau Cymru, mis Medi 2022
[31] https://support.tlevels.gov.uk/hc/en-gb/articles/10414725763218-Wave-4-T Level-Delays#:~:text=T%20Levels%20deferred%20from%202023,the%20needs%20of%20the%20sector.
[32] Consultation: Review of post-16 qualifications at Level 2 and below in England (education.gov.uk)

gynaliadwy ar lefel 2 neu'n darparu Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL). O blith yr wyth grŵp, bydd chwe grŵp ar gael i bobl ifanc ac oedolion, a dau grŵp ar gyfer oedolion yn unig.  Ar lefel 1 ac is, bydd pum grŵp o gymwysterau lefel 1 a phedwar grŵp o gymwysterau ar lefel mynediad yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid cyhoeddus yn y dyfodol, gyda phob grŵp ar gael i bobl ifanc ac oedolion. Bydd y cymwysterau diwygiedig cyntaf ar gael o fis Medi 2025 ymlaen.

### 1.10 ...Yn yr Alban?

Awdurdod Cymwysterau'r Alban sy'n rheoleiddio Cymwysterau yn yr Alban ar hyn o bryd, ac mae'n cynnwys corff dyfarnu a swyddogaeth reoleiddio.  Mae rhaglen ddiwygio sylweddol yn mynd rhagddi yn yr Alban ar hyn o bryd, sy'n cynnwys diddymu Awdurdod Cymwysterau'r Alban, a chreu tri chorff newydd – sefydliad cymwysterau, asiantaeth genedlaethol ar gyfer addysg yn yr Alban, ac arolygiaeth annibynnol.

Fel rhan o'r rhaglen ddiwygio, comisiynwyd Adolygiad o Gymwysterau ac Asesu. Roedd ei gylch gwaith yn cynnwys cynghori ar y pwrpas a'r egwyddorion sy'n sail i ddiwygio cymwysterau ac asesiadau cenedlaethol yn y 'cyfnod uwch' – sy'n cyfateb yn fras i ddysgu 14-19 oed.  Roedd pob cymhwyster o fewn y cwmpas – gan gynnwys rhai galwedigaethol ac academaidd.  Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ddiwedd mis Mehefin 2023, ac roedd ei argymhellion yn cynnwys diwygio'r cyfnod uwch a mabwysiadu Diploma Cyflawniad yr Alban fel y dystysgrif raddio ar gyfer y cyfnod uwch.[33]

### 1.11 ...ac yng Ngogledd Iwerddon?

Yng Ngogledd Iwerddon, Adran yr Economi sy'n gyfrifol am ddatblygiad strategol addysg bellach statudol, sy'n cynnwys addysg alwedigaethol.  Mae'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu yn gorff dyfarnu, ac yn rheoleiddio cymwysterau.

Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Gogledd Iwerddon ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r uchelgeisiau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yng Ngogledd Iwerddon.[34]  Mae'n ceisio ymgynghori ar set o chwe egwyddor a allai fod yn sail i gymwysterau galwedigaethol, sef:

- dylai pob cymhwyster galwedigaethol gynnig cyfleoedd i ddatblygu ac arddangos sgiliau trawsbynciol perthnasol
- rhaid i bob cymhwyster galwedigaethol adlewyrchu anghenion economaidd a chefnogi twf cynhwysol

[33] https://www.gov.scot/news/hayward-review-published/

[34] https://www.economy-ni.gov.uk/sites/default/files/consultations/economy/Principles-Vocational-Qualifications-Northern-Ireland-Consultation.pdf

- rhaid asesu pob cymhwyster galwedigaethol yn briodol
- rhaid i bob cymhwyster galwedigaethol fod yn seiliedig ar safonau cydnabyddedig a chaniatáu cludadwyedd a chynnydd
- dylai pob cymhwyster galwedigaethol groesawu arloesi
- rhaid i bob cymhwyster galwedigaethol gefnogi darpariaeth hyblyg a mynediad i bawb

**1.12 Beth am gymwysterau galwedigaethol mewn gwledydd eraill?**


Fel sail i'n hadolygiad, fe wnaethom gomisiynu gwaith gan yr OECD[35] ar y dirwedd ryngwladol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol mewn gwledydd eraill. Edrychodd yr OECD yn fanwl ar bum gwlad 'astudiaeth achos'. Roedd hefyd yn fraint inni gael cyflwyniadau uniongyrchol gan sawl gwlad arall, yn ystod cyfarfodydd y grŵp llywio.

Nid yw bob amser yn hawdd cymharu cymwysterau galwedigaethol o un wlad i'r llall, oherwydd y ffordd y mae systemau addysg yn gweithio yn y gwledydd hynny. Mewn rhai gwledydd, mae rhaglenni galwedigaethol helaeth ar y lefel uwchradd uchaf (sy'n cyfateb yn fras i 14-18 oed), tra bo tueddiad mewn gwledydd eraill, fel yr Unol Daleithiau, Canada ac Iwerddon, i beidio â chychwyn rhaglenni o'r fath tan y lefel ôl-uwchradd. Yn yr Unol Daleithiau, er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn digwydd ar ôl cwblhau addysg uwchradd uwch. Yn Awstralia, mae addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn gwasanaethu pobl ifanc ac oedolion, ond mewn llawer o wledydd, mae'r system – yn enwedig ar y lefel uwchradd uchaf – yn gwasanaethu pobl ifanc yn bennaf sy'n dilyn eu haddysg a'u hyfforddiant cychwynnol (er enghraifft, yn Nenmarc, Estonia, Sweden a'r Swistir).

Mae'r graff isod yn dangos crynodiad rhaglenni galwedigaethol ar draws grwpiau oedran.

[35] Vocational Qualifications in an International Perspective, OECD, Mehefin 2023

Graff 2:  Dosbarthiad rhaglenni galwedigaethol yn ôl cyfnod dysgu




Ffynhonnell:  OECD, Mehefin 2023

Mae nifer y cymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu cynnig ym mhob gwlad yn amrywio'n sylweddol:  Mae Awstralia'n cynnig tua 1400 o Gymwysterau galwedigaethol, ac, mae 60 o gymwysterau galwedigaethol yn Sweden, sy'n deillio o 12 prif lwybr.  Byddwn yn edrych ar hyn ymhellach ym mhennod 4 yr adroddiad hwn.

## 1.13 Crynodeb

Mae'r bennod hon wedi darparu gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer ein hadroddiad. Rydym wedi edrych ar sut y darperir addysg a hyfforddiant galwedigaethol, sut y caiff ei ariannu, a sut y caiff ei reoleiddio.  Rydym wedi cydnabod y sefyllfaoedd yng ngwledydd eraill y DU, ac rydym wedi sylwi ar ostyngiad sylweddol yn nifer y cymwysterau galwedigaethol cymeradwy a dynodedig yng Nghymru dros y 5 mlynedd diwethaf.

Mae ein pennod nesaf yn canolbwyntio ar yr unigolion hynny sydd bwysicaf i ni – ein dysgwyr a bydd yn helpu i fireinio ymhellach y meysydd y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt.

# Pennod 2:  Cymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru – pwy yw ein dysgwyr, a pha gymwysterau galwedigaethol y maent yn eu dilyn?

## 2.1 Cyflwyniad

*Ein dysgwyr.  Materion allweddol i'r dyfodol.  Ein dyheadau ni, a'u dyheadau nhw, sy'n ysgogi ein hymrwymiad i addysg, hyfforddiant a chymwysterau galwedigaethol.*

Mae'r bennod hon yn ymwneud â'n dysgwyr cymwysterau galwedigaethol.  Drwy ddadansoddi data, mae'n rhoi darlun o bwy sy'n dilyn cymwysterau galwedigaethol, a pha gymwysterau galwedigaethol y maent yn eu dilyn.  Er mwyn cynnig dadansoddiad cynhwysfawr, darperir gwybodaeth am ddysgwyr sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol o lefel mynediad hyd at ac yn cynnwys lefel 5.

Mae'n bwysig nodi o'r cychwyn cyntaf bod y dadansoddiad hydredol yn cynnwys cyfnodau sy'n cwmpasu pandemig Covid-19.  Yn ystod y cyfnod hwn, effeithiwyd ar bob math o addysg, gan darfu ar ddysgu, addysgu a'r gwaith o asesu cymwysterau. Mae angen inni fod yn ofalus wrth ddehongli'r data hwn, archwilio tueddiadau, ac allosod y data i ffurfio damcaniaethau am y dyfodol.

Yn bwysicaf oll, wrth gwrs, y tu ôl i bob 'ystadegyn' mae stori am unigolyn, a bydd eu dyheadau'n dibynnu i raddau ar y cymhwyster galwedigaethol y maent yn ei ddilyn, ac ar y canlyniad y byddant yn ei gyflawni.

## 2.2 Pwy yw ein dysgwyr cymwysterau galwedigaethol?

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn sôn am ddysgwyr – hynny yw, yr unigolion sy'n dilyn cymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus yng Nghymru. Dim ond unwaith y caiff dysgwyr eu cyfrif[36] hyd yn oed os ydynt wedi cofrestru ar fwy nag un cymhwyster galwedigaethol yn yr un flwyddyn academaidd.


Yn ystod 2021/22, roedd 81,995 o ddysgwyr unigryw yn astudio o leiaf un cymhwyster galwedigaethol yng Nghymru.[37]  Bu gostyngiad yn nifer y dysgwyr o'i gymharu â'r cyfartaledd dros y pum mlynedd diwethaf ac mae'n is na nifer y dysgwyr sy'n dechrau cymwysterau galwedigaethol yn 2017/18.  Roedd tystiolaeth lafar a gafwyd gan randdeiliaid yn ystod yr adolygiad yn awgrymu y gallai effeithiau pandemig Covid-19, a gafodd effaith ar y ffordd y cafodd cymwysterau galwedigaethol eu dangos, eu hymarfer a'u hasesu, fod wedi cael effaith ar recriwtio.

[36] Pan gyflwynir dadansoddiad yn ôl llwybr a maes pwnc sector, caiff dysgwyr eu cyfrif unwaith fesul categori
[37] Y disgrifydd cyson a ddefnyddir ar gyfer dysgwyr a chofrestriadau, yw fod y dysgwyr wedi dechrau ar gyrsiau ac wedi cofrestru o hyd ar ôl 8 wythnos

Mae cwestiwn hefyd ynghylch y posibilrwydd fod graddau TGAU uwch na'r cyffredin wedi annog mwy o ddysgwyr i ddilyn cymwysterau Safon Uwch – cymwysterau y gallent fod yn fwy cyfarwydd â nhw – ac rydym yn edrych ar hyn ymhellach ym mhennod 5.

O blith y dysgwyr hyn, roedd 41,755 yn astudio o leiaf un 'prif' gymhwyster galwedigaethol yn 2021/22[38] (sylwch nad yw prif gymwysterau'n cael eu nodi ar gyfer dysgu seiliedig ar waith). Bu gostyngiad hefyd yn nifer y dysgwyr sy'n dilyn o leiaf un prif gymhwyster dros y pum mlynedd diwethaf.

Graff 3: Dysgwyr unigryw sy'n dechrau o leiaf un cymhwyster galwedigaethol





Ffynhonnell: Ystadegau Llywodraeth Cymru 14 Mehefin 2023

[38] Y fframwaith cyllido a chynllunio ôl-16: cyfeiriadur rhaglenni 2022 i 2023 | LLYW.CYMRU

Os edrychwn ar ble mae dysgwyr galwedigaethol yn astudio, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dechrau cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru mewn Addysg Bellach – 61% yn 2021/22. Roedd dysgu seiliedig ar waith yn cyfrif am ychydig dros 27%, gyda 9% mewn ysgolion yn yr un flwyddyn.[39]

Graff 4: Dysgwyr sy'n dechrau cymwysterau galwedigaethol yn ôl llwybr astudio




Ffynhonnell: Ystadegau Llywodraeth Cymru 14 Mehefin 2023

Mae cyfran y dysgwyr benywaidd unigryw sy'n dechrau o leiaf un cymhwyster galwedigaethol wedi amrywio ychydig rhwng 54% a 52% dros y pum mlynedd diwethaf, gyda 52% o'r holl ddysgwyr galwedigaethol yn fenywod yn 2021/22.


Mae'r graff isod yn dangos dysgwyr unigryw a ddechreuodd o leiaf un cymhwyster galwedigaethol dros y 5 mlynedd diwethaf yn ôl grŵp oedran. Ers 2017/18, bu cynnydd yng nghyfran y dysgwyr 16-19 oed a ddechreuodd o leiaf un cymhwyster galwedigaethol o'i gymharu â dysgwyr o bob grŵp oedran. Fodd bynnag, mae nifer gwirioneddol y dysgwyr 16-19 oed yn is yn 2021/22 (42,940 o ddysgwyr) nag mewn unrhyw flwyddyn arall ers 2017/18. Dysgwyr 16-19 oed yw 52% o'r holl ddysgwyr ar gymwysterau galwedigaethol.

O ganlyniad, bu gostyngiad yng nghyfran y dysgwyr mewn grwpiau oedran dros 20 oed. Yn 2017/18, roedd 51% o'r holl ddysgwyr yn y grŵp oedran dros 19 - 48,910 o ddysgwyr. Er y bu gostyngiad o tua 3,000 o ddysgwyr yn y grŵp oedran 16-19, bu

[39] Yn cyfeirio at droednodyn 35, lle'r cyflwynir dadansoddiad yn ôl llwybr a maes pwnc sector, caiff dysgwyr eu cyfrif unwaith fesul categori – bydd y ffigurau ychydig yn wahanol i'r rheiny a ddangosir yn Graff 3.

gostyngiad llawer mwy mewn pobl dros 19 oed, sef ychydig o dan 10,000 o ddysgwyr.

Graff 5: Ystod oedran dysgwyr unigryw sy'n dechrau o leiaf un cymhwyster galwedigaethol




Ffynhonnell: Ystadegau Llywodraeth Cymru 14 Mehefin 2023

Dechreuodd 84% o ddysgwyr o leiaf un prif gymhwyster galwedigaethol yn yr ystod oedran 16-19 oed yn 2021/22.


Yn 2021/22, roedd 88% o'r dysgwyr unigryw a ddechreuodd o leiaf un cymhwyster galwedigaethol yn dweud eu bod yn wyn, o'i gymharu â 91% yn 2017/18. Hyd yn oed ar ôl ystyried y cynnydd yn nifer y dysgwyr nad yw gwybodaeth amdanynt yn hysbys, mae hyn yn dangos gostyngiad yn nifer y dysgwyr gwyn, a chynnydd yn nifer y dysgwyr nad ydynt yn wyn. Yn ôl Cyfrifiad 2021[40], dywedodd 90.6% o boblogaeth Cymru eu bod yn wyn.

Roedd 14% o'r dysgwyr unigryw a ddechreuodd o leiaf un cymhwyster galwedigaethol yn 2021/22 yn ystyried bod ganddynt anhawster/anabledd dysgu, o'i gymharu â 12% yn 2017/18. Mae canran y dysgwyr ag anhawster/anabledd dysgu sy'n astudio o leiaf un prif gymhwyster yn uwch ar 18% yn 2021/22, ac er bod y cyfrannau wedi amrywio ychydig ers 2017/18, nid oes newid sylweddol yn y duedd.

---

[40] Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU


Graff 6: Nifer y dysgwyr unigryw sy'n dechrau o leiaf un cymhwyster galwedigaethol yn ôl statws anabledd/anhawster dysgu




Ffynhonnell: Ystadegau Llywodraeth Cymru 14 Mehefin 2023

Canran y dysgwyr unigryw ar gymwysterau galwedigaethol sy'n ystyried eu hunain yn rhugl, neu'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg, oedd 26% yn 2021/22. Nid yw'r gyfran wedi newid rhyw lawer ers 2017/18.

Graff 7: Nifer y dysgwyr unigryw sy'n dechrau o leiaf un cymhwyster galwedigaethol yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg



Ffynhonnell:  Ystadegau Llywodraeth Cymru 14 Mehefin 2023

Os ystyrir prif gymwysterau yn unig, mae cyfran y dysgwyr sy'n gallu siarad Cymraeg, naill ai'n rhugl neu'n rhannol, yn uwch, sef 31% yn 2021/22, ond mae wedi aros yr un fath dros y 5 mlynedd diwethaf.

O ran cyfran y dysgwyr o wahanol gwintelau amddifadedd, ychydig o newid sydd wedi bod dros y pum mlynedd diwethaf.  Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth yn y tueddiadau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol, gyda nifer y dysgwyr yn aros yn sefydlog neu'n cynyddu ychydig mewn ychydig yn llai na hanner yr holl awdurdodau lleol.


### 2.3 Pa gymwysterau galwedigaethol y mae dysgwyr yn eu hastudio yng Nghymru?

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried y cymwysterau galwedigaethol y mae dysgwyr yn eu dilyn.  Mae'n defnyddio 'cofrestriadau' fel sail iddo:[41]  Gall dysgwr gofrestru ar un neu nifer o gymwysterau galwedigaethol, a gall nifer o gymwysterau fod yn rhan o'r rhaglen ddysgu, fel Diploma mewn Peirianneg, Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, a chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.

Yn 2021/22, roedd 144,675 o gofrestriadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru.  Fel y nodwyd yn gynharach, bu gostyngiad yn nifer y dysgwyr ar gymwysterau galwedigaethol ers 2017/18, ac yn yr un modd, bu gostyngiad yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.  O'r cofrestriadau hyn, roedd 34% ar y prif gymwysterau, a 23% ar gymwysterau Sgiliau Hanfodol.

[41] Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau unigol, lle mae'r dysgwyr yn dal wedi cofrestru ar ôl 8 wythnos ar y cymhwyster

Graff 8:  Nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol





Ffynhonnell:   Ystadegau Llywodraeth Cymru 14 Mehefin 2023

Os cymharwn nifer y cofrestriadau galwedigaethol â'r cofrestriadau ar gyfer Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol, gallwn weld, er bod gostyngiad sylweddol mewn cofrestriadau galwedigaethol – o 17% – bod y newid mewn cofrestriadau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn dangos darlun gwahanol.  Bu gostyngiad o 6% yn y nifer sy'n cofrestru ar gyfer pynciau Safon Uwch Gyfrannol, a chynnydd o 10% yn y nifer sy'n cofrestru ar gyfer Safon Uwch.

Dangosir graddfa'r gwahaniaeth yn Graff 9.  Gallai fod llawer o resymau dros hyn, gan gynnwys cynnydd yn y gyfradd gyflogaeth dros y pum mlynedd diwethaf, ond mae maint y gwahaniaeth yn sylweddol.


Graff 9: Nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, UG a Safon Uwch




Ffynhonnell: Ystadegau Llywodraeth Cymru 28 Mehefin 2023

Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol lefel 2 yw'r gyfran fwyaf o gofrestriadau yn gyffredinol. Bu cynnydd yng nghyfran y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ar lefel 2 dros y 5 mlynedd diwethaf, o 39% yn 2017/18 i 41% yn 2021/22. Gwelir cynnydd tebyg mewn cymwysterau galwedigaethol lefel 3, sydd bellach yn cyfrif am 32% o'r holl gofrestriadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Bu gostyngiad mewn cymwysterau lefel mynediad a lefel 1 fel cyfran o gyfanswm y cofrestriadau, ac mae cymwysterau lefelau 4 a 5 wedi aros yr un fath.

Graff 10: Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn ôl lefel




Ffynhonnell: Ystadegau Llywodraeth Cymru 14 Mehefin 2023

Mae Tabl 1 isod yn dangos nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ar lefel Maes Pwnc Sector. Yn 2021/22, y Maes Pwnc Sector mwyaf yw Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith, sy'n cynnwys nifer sylweddol o gymwysterau Sgiliau Hanfodol. Ar ôl hyn, y sector mwyaf o bell ffordd yw Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, sydd â mwy na dwywaith cymaint o gofrestriadau ag unrhyw sector arall heb gynnwys Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith. Fel y dangosir yn graff 8 uchod, bu gostyngiad yn y nifer sy'n cofrestru ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ers 2017/18. Gellir priodoli cyfran fawr o'r gostyngiad hwn i Baratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith, lle bu gostyngiad o dros 24,000 o gofrestriadau ers 2017/18. Fodd bynnag, bu cynnydd mewn chwe Maes Pwnc Sector yn ystod yr un cyfnod:

- Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal
- Gwyddoniaeth a mathemateg
- Adeiladu, cynllunio ac amgylchedd adeiledig
- Hanes, athroniaeth a diwinyddiaeth
- Gwyddorau cymdeithasol
- Ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliant

Mae'r tri maes olaf yn cyfrif am nifer a chyfran fach iawn o'r cofrestriadau yn gyffredinol – 2% o'r holl gofrestriadau yn 2021/22. Bu gostyngiad yn nifer y cofrestriadau i bob un o'r Meysydd Pwnc Sector sy'n weddill.

Tabl 1: Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn ôl Maes Pwnc Sector

| Maes Pwnc Sector | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal | 26,150 | 27,710 | 21,525 | 34,360 | 28,725 |
| 2. Gwyddoniaeth a mathemateg | 2,210 | 2,445 | 2,805 | 2,920 | 2,985 |
| 3. Amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid | 3,145 | 2,845 | 2,500 | 2,585 | 2,500 |
| 4. Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu | 13,815 | 12,590 | 11,240 | 12,030 | 11,390 |
| 5. Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig | 10,610 | 12,165 | 10,825 | 11,250 | 11,665 |
| 6. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 5,340 | 4,680 | 4,130 | 3,840 | 3,550 |
| 7. Manwerthu a mentrau masnachol | 15,480 | 14,505 | 10,290 | 11,450 | 12,750 |
| 8. Hamdden, teithio a thwristiaeth | 6,950 | 6,775 | 6,120 | 5,660 | 6,120 |
| 9. Y celfyddydau, cyfryngau a chyhoeddi | 5,410 | 5,140 | 5,015 | 4,960 | 4,905 |
| 10. Hanes, athroniaeth a diwinyddiaeth | 15 | 80 | 40 | 35 | 30 |
| 11. Gwyddorau cymdeithasol | 335 | 1,105 | 1,975 | 2,665 | 3,485 |
| 12. Ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliant | 255 | 760 | 855 | 550 | 520 |
| 13. Addysg a hyfforddiant | 2,425 | 2,225 | 1,815 | 2,425 | 1,975 |
| 14. Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | 67,315 | 61,025 | 50,305 | 49,625 | 42,895 |
| 15. Busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith | 15,755 | 14,035 | 10,860 | 14,045 | 11,175 |
| **Cyfanswm** | **175,220** | **168,090** | **140,305** | **158,415** | **144,675** |

Ffynhonnell: Ystadegau Llywodraeth Cymru 14 Mehefin 2023


Er ei fod yn parhau i fod yn gyfran fach o'r holl gofrestriadau, gellir gweld bod twf wedi bod mewn gwyddoniaeth, mathemateg a gwyddorau cymdeithasol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae bellach yn cyfrif am 4.5% o'r holl gofrestriadau, o'i gymharu ag 1.4% bum mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, nid oes llawer o newid yng nghyfran y cofrestriadau peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu, a bu gostyngiad sylweddol yn y nifer sy'n cofrestru ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r ddau faes hyn yn bwysig ar gyfer strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru.

Os byddwn yn dadansoddi cofrestriadau ymhellach yn ôl nodweddion gwahanol, fe welwn fod nifer y cofrestriadau benywaidd ar gymwysterau gwyddoniaeth a mathemateg bron a dyblu yn ystod y pum mlynedd diwethaf, o'i gymharu â chofrestriadau gwrywaidd sydd wedi aros yn sefydlog i raddau helaeth. O'r 28,725 o gofrestriadau ar gyfer iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal, bu gostyngiad bychan yn nifer y cofrestriadau gwrywaidd, tra bod cynyddu o tua 2,500 yn nifer y menywod sydd wedi cofrestru.

Bu cynnydd graddol dros 5 mlynedd yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'n ddwyieithog. Yn 2021/22, mae nifer y cofrestriadau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ddwyieithog, neu gyda rhywfaint o ddwyieithrwydd bellach yn cyfrif am 18% o'r holl gofrestriadau galwedigaethol o'i gymharu ag 11% bum mlynedd yn ôl.

Mae cofrestriadau galwedigaethol a gymerir drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn parhau'n isel ar 1%.  Bu gostyngiad yn nifer y dysgwyr sy'n cofrestru ar gymwysterau galwedigaethol gyda chyfran uwch o gynnwys dwyieithog, ond cynnydd sylweddol mewn cofrestriadau gyda rhywfaint o ddwyieithrwydd, a symudodd o 7% o'r holl gofrestriadau galwedigaethol yn 2017/18 i 15% yn 2021/22.

Graff 11:  Cyfran y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn ôl gallu i siarad Cymraeg




Ffynhonnell:  Ystadegau Llywodraeth Cymru 14 Mehefin 2023

## 2.4 Crynodeb

Beth rydym wedi'i ddysgu am ein dysgwyr yn y bennod hon?  Beth yw'r negeseuon allweddol?

Yn gyntaf oll, bu gostyngiad sylweddol dros y 5 mlynedd diwethaf yn nifer y dysgwyr a ddechreuodd gymwysterau galwedigaethol.  Nid yw'n syndod bod nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol wedi gostwng hefyd.  Mae'r darlun yn wahanol ar gyfer cofrestriadau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol, ac nid yw'r gostyngiad mewn cofrestriadau lefel Uwch Gyfrannol mor llym.

Bu cynnydd mewn cofrestriadau ar gyfer rhai Meysydd Pwnc Sector ond maent wedi aros yr un fath neu wedi gostwng mewn rhai meysydd sy'n bwysig i economi Cymru – gostwng o ran nifer, ac fel cyfran o nifer cyffredinol y cofrestriadau.  Ar ben hynny, er bod twf yng nghyfran y cofrestriadau ar lefel 3, ni fu newid ar lefelau 4 a 5.

Rydym wedi gweld cynnydd yng nghyfran y bobl ifanc 16-19 oed sy'n dilyn cymwysterau galwedigaethol, ond gostyngiad yn y rhai dros 19 oed.  Bach iawn fu'r

newid ers 2017/18 yng nghyfran y dysgwyr sy'n ystyried eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, neu sydd â pheth dealltwriaeth o Gymraeg.  Fodd bynnag, bu cynnydd sylweddol yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu cymryd yn ddwyieithog, neu gyda rhywfaint o ddwyieithrwydd, i 18% yn 2021/22 o 11% yn 2017/18.

Felly, er bod rhai elfennau cadarnhaol clir, mae'r neges gyffredinol yn un o ostyngiad yn nifer y dysgwyr sy'n dechrau cymwysterau galwedigaethol.  Mae hyn yn destun rhwystredigaeth a phryder o ystyried rôl ganolog addysg a hyfforddiant galwedigaethol wrth ddatblygu ein heconomi a'n cymdeithas.  Mae angen inni fod yn benderfynol ac yn glir ynghylch sut y gallwn godi statws cymwysterau galwedigaethol, gyda'r addysg a'r hyfforddiant sy'n eu cefnogi.

## Pennod 3:  Perthnasedd ac effeithiolrwydd cymwysterau yng Nghymru

### 3.1 Cyflwyniad

'Cenhadaeth ein cenedl:  safonau a dyheadau uchel i bawb' gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2023.  Mae ei gweledigaeth yn llifo drwy sawl agwedd drawsnewidiol ar addysg yng Nghymru, ac mae dyheadau'n cael eu nodi mewn strategaethau amrywiol, fel y Cwricwlwm i Gymru,[42] y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Apêl[43] a Chynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg[44] i enwi dim ond rhai.

> 'Yng Nghymru, addysg yw cenhadaeth ein cenedl. Gyda'n gilydd, byddwn yn cyflawni safonau a dyheadau uchel
>
> i bawb, gan fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad ac uchelgais. Cefnogir pob dysgwr, beth bynnag fo'i gefndir, i fod yn ddinesydd iach, sy'n ymgysylltu, sy'n fentrus ac sy'n foesegol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith'.[45]

Nod Cenhadaeth ein Cenedl yw atgyfnerthu egwyddorion dysgu gydol oes er mwyn annog pawb yng Nghymru i barhau i ddysgu, gan ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy gydol eu hoes.  Yn y bennod hon, rydym yn ceisio deall y rhan sydd gan gymwysterau galwedigaethol wrth wireddu gweledigaeth Cenhadaeth ein Cenedl, ac yn gwneud argymhellion a fydd yn cefnogi dysgwyr, yr economi a'n cymdeithas yn gyffredinol.

### 3.2 Addysg i'r rheini o oedran ysgol gorfodol

Ar ôl cyhoeddi 'Dyfodol Llwyddiannus'[46] ym mis Chwefror 2015, dechreuodd Llywodraeth Cymru gynllunio'r Cwricwlwm newydd i Gymru – newid paradeim yn y ffordd y caiff dysgu 3-16 ei gynllunio, ei ddatblygu a'i ddarparu.  Yng Nghymru, mae addysg orfodol yn gorffen yn 16 oed, yn wahanol i Loegr, lle mae addysg yn orfodol tan 18 oed.

Mae pedwar diben yn sail i'r Cwricwlwm i Gymru, a gyda'i gilydd maent yn mynegi'r dyhead cyffredin ar gyfer pob person ifanc yng Nghymru:

---

[42] https://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru
[43] https://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/contents/enacted
[44] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/cynllun-y-gweithlu-cymraeg-mewn-addysg.pdf
[45] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-03/cenhadaeth-ein-cenedl-safonau-a-dyheadau-uchel-i-bawb.pdf
[46] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes

- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith

- dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd

- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Dechreuodd y gwaith o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith ym mis Medi 2022 ar gyfer ysgolion cynradd a meithrin nas cynhelir a ariennir, gydag oddeutu hanner yr ysgolion uwchradd yn ei gyflwyno ym Mlwyddyn 7. Bydd yr ysgolion sy'n weddill yn cyflwyno'r Cwricwlwm i flynyddoedd 7 ac 8 ym mis Medi 2023 ac yna'n olynol fesul blwyddyn.[47]

Mae canllawiau ac adnoddau i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, a lywiwyd gan ar ymgynghori helaeth. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm, cynllunio a datblygu ac asesu, dulliau addysgeg, ac arweiniad i'w roi ar waith. Un o egwyddorion allweddol y Cwricwlwm yw mai ymarferwyr ac ysgolion sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau am anghenion eu disgyblion, ac i ddefnyddio'r addysgeg sy'n cefnogi eu disgyblion orau.

Mae Cymwysterau Cymru'n diwygio cymwysterau TGAU i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd y cymwysterau hyn yn cael eu haddysgu am y tro cyntaf yn 2025. Mae ymgynghoriad wedi dod i ben yn ddiweddar ar y 'Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16'.[48] Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ystod gydlynol o gymwysterau i gyd-fynd â'r cymwysterau TGAU newydd sydd *wedi'u gwneud i Gymru* o lefel mynediad i lefel 2, gan gynnwys cyfres o sgiliau, cymwysterau cyn-alwedigaethol a chymwysterau sylfaen.

### 3.3 Addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

Mae cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg 3-16 yn glir. Mae'r Cwricwlwm i Gymru a'i fecanweithiau darparu ar gyfer dysgwyr cyn-16 yn unigryw, ac ar ben hynny, mae dull gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn un uchelgeisiol.

Mae llawer llai o eglurder ar gyfer dysgwyr ôl-16, a chan gyfeirio'n benodol at yr adolygiad hwn, ar gyfer addysg, hyfforddiant a chymwysterau galwedigaethol. Nid oes gweledigaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol, mae diffyg eglurder

[47] https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyflwynor-cwricwlwm-i-gymru-mewn-ysgolion-uwchradd-o-fis-medi-2022-ymlaen
[48] https://cymwysterau.cymru/rheoleiddio-a-diwygio/diwygio/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol/y-cynnig-llawn-14-16/

o ran deall sut beth y dylai addysg a hyfforddiant galwedigaethol fod a sut y dylid ei ddarparu, ac mae dryswch ynghylch sut y gall dysgwyr symud ymlaen i'r cwricwlwm galwedigaethol a thrwyddo.

Ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed, darperir canllawiau statudol[49] sy'n cael eu llywio gan y Mesur Dysgu a Sgiliau (2009). Mae'r canllawiau hyn, a gyhoeddwyd yn 2014, bron yn 10 oed, ac nid ydynt yn adlewyrchu'r newidiadau yn y cwricwlwm cyn-16.

Mae adroddiad Estyn ar Bartneriaethau ôl-16 ym mis Ionawr 2021 yn dod i'r casgliad nad yw darparwyr ôl-16 ac awdurdodau lleol 'yn defnyddio Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn ddigon da wrth gynllunio cynnig y cwricwlwm lleol sy'n cynnwys ystod eang o gyfleoedd dysgu perthnasol.[50] Roedd yn cyfeirio at amryw o rwystrau posibl a allai atal gweithio ar y cyd a chynllunio strategol effeithiol ar gyfer y cwricwlwm lleol, ond nodwyd hefyd rai enghreifftiau o gydweithio cryf.

Ar gyfer dysgwyr ôl-16 o bob oed, mae 'Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau'[51] yn nodi gweledigaeth i greu 'Cymru lle gall unigolion o bob oedran gael addysg o safon uchel, gyda swyddi i bawb, lle gall busnesau ffynnu mewn economi sero net sy'n hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb... sgiliau a chymwysterau yw'r dylanwad unigol mwyaf ar debygolrwydd person o gael cyflogaeth, ac ar y tebygolrwydd y bydd yn ennill incwm da, gan gynnig llwybr allan o dlodi a diogelwch yn ei erbyn.'

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys cerrig milltir pwysig, neu fesurau llwyddiant, gan gynnwys:

- 75% o oedolion oed gweithio yng Nghymru yn gymwys i Lefel 3 neu uwch erbyn 2050

- canran yr oedolion oedran gweithio sydd heb gymwysterau yn 5% neu'n is ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050

Yn ogystal, ceir nifer o strategaethau, polisïau ac adroddiadau sy'n cefnogi datblygiad economaidd a chymdeithasol, a phontio teg, ac mae llawer ohonynt yn cyfeirio at y rôl allweddol addysg, hyfforddiant a chymwysterau. Mae'r enghreifftiau isod yn dangos yr ystod o'r rhain, a nifer ac amrywiaeth y camau gweithredu sy'n effeithio ar addysg a hyfforddiant galwedigaethol.

---

[49] Canllawiau Statudol ôl-16 (llyw.cymru)
[50] https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-08/Post-16%20partnerships%20cy.pdf
[51] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau0.pdf

Mae ***'Ffyniant i Bawb – y cynllun gweithredu ar yr economi'***[52] yn datgan bod Llywodraeth Cymru, wrth fynd ar drywydd ffyniant i bawb, yn bwriadu 'creu economi ac iddi sylfeini cadarn, ac rydym yn bwriadu atgyfnerthu diwydiannau'r dyfodol a grymuso'n holl ranbarthau i fod yn fwy cynhyrchiol...ac rydym am weld twf ac iddo bwrpas − twf cynhwysol − er mwyn inni fedru sicrhau, wrth i'n cyfoeth a'n llesiant wella, bod y bwlch anghydraddoldeb ar draws ein cenedl yn cael ei leihau'.

Mae'n nodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer gweithio ar draws y llywodraeth sydd â'r cyfraniad posibl mwyaf i'w wneud tuag at ffyniant a llesiant hirdymor. Un o'r rhain yw sgiliau a chyflogadwyedd, thema a allai gefnogi pob amcan. Mae'r cynlluniau gweithredu yn annog meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes. 'Gwyddom mai gwella lefel sgiliau pobl o bob cefndir a lle yng Nghymru ac annog y sgiliau hyn i gyd-fynd yn well ag anghenion cyflogwyr yw'r ffordd orau o greu swyddi gwell, cyflogau uwch a chanlyniadau iechyd gwell. Mae'r newidiadau hyn yn helpu i leihau'r bwlch cyflog rhwng dynion a menywod, rhwng pobl anabl a'u cyd-weithwyr a rhwng pobl o wahanol gefndiroedd ethnig a diwylliannol.'

'Yn 2021, cyhoeddodd comisiwn Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ***'Uwchsgilio ac (ail)Hyfforddi ar gyfer Adferiad Gwyrdd yng Nghymru'***[53]. Canfu'r adroddiad hwn nad yw'r llif sgiliau presennol yn barod ar gyfer y galw posibl ar gyfer swyddi newydd, gyda dadansoddiad yn awgrymu bod niferoedd isel o brentisiaethau a hyfforddiant mewn sectorau allweddol o'i gymharu â thwf posibl mewn swyddi.

Mae'r gwaith o hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg ledled Cymru wedi bod yn bolisi trawsbynciol allweddol i Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Mae '***Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'***[54] yn 2017 wedi gosod targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn o bobl erbyn 2050. Ei weledigaeth ar gyfer addysg ôl-orfodol yw datblygu darpariaeth sy'n 'cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle'. Mae ***'Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg'***[55] 2022 yn cefnogi'r weledigaeth hon wrth benderfynu sut gall addysg a hyfforddiant fynd ati'n weithredol i gyflawni hyn.

Roedd ***'Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru'***[56] a gyhoeddwyd yn 2017 yn cydnabod y ffordd roedd prentisiaethau'n newid ac yn nodi'r gofynion polisi a oedd yn sail i ddarparu prentisiaethau yng Nghymru.

---

[52] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf
[53] V2 Clawr Adroddiad Sgiliau NEF (cenedlaethaurdyfodol.cymru)
[54] Cymraeg 2050:Miliwn o siaradwyr Cymraeg (llyw.cymru)
[55] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/cynllun-y-gweithlu-cymraeg-mewn-addysg.pdf
[56] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cysoni%E2%80%99r-model-prentisiaethau-ag-anghenion-economi-cymru.pdf

Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ***'Cymru 4.0 Cyflawni Trawsnewidiad Economaidd ar gyfer Gwell Dyfodol Gwaith – adolygiad o arloesi digidol ar gyfer yr economi a dyfodol gwaith'***.[57] Un o'i argymhellion oedd 'cynnal ystod o ddiwygiadau gyda'r nod o feithrin gallu mewn addysg ôl-orfodol fel ei bod yn gallu cyflawni'r newid sylweddol sydd ei angen wrth baratoi ar gyfer dyfodol gwaith mewn oes o ddysgu gydol oes. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi nifer o ddiwygiadau i'r cwricwlwm a all ddarparu'r addysg eang sydd ei hangen ar unigolion ar gyfer gwaith a bywyd, wedi'i wella gyda fersiwn ddigidol benodol o'r Fagloriaeth Ryngwladol, a bydd yn cael ei lywio drwy ddatblygu Fframwaith Sgiliau newydd i Gymru. Dylid hefyd cefnogi cyfres o brosiectau meithrin gallu a'u hanelu at greu sefydliadau amlrywiaethol yr unfed ganrif ar hugain'.

Mae ***'Cymru'n Arloesi: creu Cymru gryfach, decach a gwyrddach'***,[58] a gyhoeddwyd yn 2023, yn arwain y ffordd at ddull gwahanol o arloesi, a datblygu diwylliant o arloesi. O safbwynt addysg, ei nod yw datblygu 'system addysg sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth arloesi drwy gydol bywydau pobl yng Nghymru. Ysgolion, colegau, prifysgolion a sefydliadau ymchwil sy'n creu gwybodaeth drwy ymchwil'.

Nid yw'n syndod bod ***'Cynllun Sgiliau Sero Net'***[59] 2023 yn seiliedig bron yn llwyr ar sgiliau, gan gydnabod bod sgiliau'n alluogwyr i symud o'r sefyllfa bresennol i economi sero net. Gyda 7 maes gweithredu allweddol, mae ei uchelgais yn un sy'n ysgogi, a cheir diffiniad da ohonynt yn y gofynion ar gyfer pob cam o addysg a hyfforddiant.

Dim ond rhai o'r strategaethau a fydd yn helpu Cymru i fod yn economaidd gryf a chadarn yw'r rhain, a fydd yn creu cymdeithas gynhwysol ac wedi'i hymgysylltu, ac sy'n ymfalchïo mewn arwain y ffordd tuag at ddyfodol sero net. Ond mae angen inni gydnabod bod amrywiaeth eang o strategaethau a pholisïau, ac mae pob un ohonynt yn canmol pwysigrwydd addysg a hyfforddiant. Er mwyn gwireddu canlyniadau addysg a hyfforddiant galwedigaethol llwyddiannus a chymwysterau galwedigaethol sy'n cefnogi'r strategaethau hyn, rhaid dwyn elfennau o bob un o'r strategaethau hyn ynghyd mewn cynllun strategol cyffredinol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol.

Hyfrydwch addysg a hyfforddiant yw'r rôl ganolog sydd ganddynt wrth wireddu'r weledigaeth ar gyfer dyfodol Cymru. Yr her i addysg a hyfforddiant yw sut mae dwyn ynghyd y llu o gamau gweithredu yn y cynlluniau hyn er mwyn gallu eu cyflawni.

---

[57] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/cyflawni-trawsnewidiad-economaidd-ar-gyfer-gwell-dyfodol-gwaith.pdf
[58] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-04/cymrun-arloesi-creu-cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach.pdf
[59] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-02/cynllun-gweithredu-sgiliau-sero-net.pdf

Gall diffyg cynllun strategol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol arwain at wrthdaro rhwng blaenoriaethau, y posibilrwydd o gamddehongli perthnasedd blaenoriaethau, tensiynau diangen rhwng sefydliadau, anghyfartaledd i ddysgwyr, gwasgaru adnoddau'n denau ar draws darparwyr dysgu, ac yn y pen draw methiant i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen arnom ar gyfer dyfodol Cymru.

Datblygu gweledigaeth strategol ar gyfer addysg, hyfforddiant a chymwysterau galwedigaethol ôl-16 oedd un o'r agweddau ar dystiolaeth y cyfeiriodd rhanddeiliaid ato amlaf, gyda mwyafrif clir o randdeiliaid yn dweud ei bod yn angenrheidiol datblygu strategaeth o'r fath. Mae angen fframwaith ar ddarparwyr dysgu pob math o addysg a hyfforddiant galwedigaethol ôl-16 er mwyn cynllunio eu cwricwlwm yn ôl y fframwaith hwnnw. Mae angen i ddarparwyr dysgu fod yn glir ynghylch y weledigaeth gyffredinol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol, beth yw'r blaenoriaethau, yr hyn a ddisgwylir ganddynt, a sut y dylent gydweithio. Mae angen cyfeiriad clir ar gyfer datblygu a diffinio'r cwricwlwm, gan ganiatáu ymatebion rhanbarthol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr dysgu gydweithio i gyflwyno'r cwricwlwm, ac sy'n hyrwyddo arloesi yn yr addysgeg a'r methodolegau asesu sydd fwyaf addas ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

Dylai'r strategaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol fod naill ai'n rhan o strategaeth addysg a hyfforddiant ôl-16, neu'n cyd-fynd â hi. Dylai fod yn gyson â'r Cwricwlwm i Gymru, a dysgu cyn-16. Dylai gynnwys y canlynol o leiaf:

- y weledigaeth ar gyfer dyfodol addysg a hyfforddiant galwedigaethol ôl-16
- eglurhad ar y gwahanol fathau o lwybrau galwedigaethol sydd ar gael sy'n arwain at gymwysterau galwedigaethol ac uchelgeisiau o ran y cydbwysedd cymharol rhwng llwybrau cyflawni
- disgwyliadau ar ddarparwyr dysgu cymwysterau galwedigaethol, perthnasedd cylchoedd gwaith darparwyr, a'r cydweithio sydd ei angen rhwng darparwyr
- y paramedrau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm galwedigaethol ôl-16, gan ystyried strategaethau cenedlaethol a blaenoriaethau rhanbarthol
- mapiau llwybrau cynnydd drwy gymwysterau galwedigaethol, gan ddechrau gyda chymwysterau galwedigaethol cyn-16, a gorffen drwy gysylltu â ddarpariaeth lefel 6
- y strwythurau cymorth sydd ar gael i staff sy'n addysgu ac yn asesu cymwysterau galwedigaethol

Bydd sefydlu'r strategaeth hon yn darparu'r cyd-destun ar gyfer datblygu cymwysterau galwedigaethol.

Gallai ffurfio'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a alluogir gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf ADY)[60], arwain at wireddu'r strategaeth hon, fel rhan o'i gweledigaeth gyffredinol ar gyfer system addysg a hyfforddiant ôl-

[60] https://www.legislation.gov.uk/asc/2022/1/contents/enacted

orfodol i Gymru, sy'n seiliedig ar gysylltiadau cryf rhwng polisi addysg, darparwyr a darpariaeth a'r nodau cymdeithasol ac economaidd.

**Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol, a fyddai yn ei thro yn llywio'r cyfeiriad strategol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Dylai'r strategaeth hon fod yn rhan o strategaeth ehangach ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.**

### 3.4 Beth yw pwrpas addysg a hyfforddiant galwedigaethol?

Mae 'Ein Cenhadaeth Genedlaethol' yn arwain uchelgeisiau ar gyfer dysgu gydol oes, gyda dysgwyr o bob oed yn hyderus i gyfrannu at yr economi a'r gymdeithas yng Nghymru a thu hwnt. Mae'n bwysig mynegi'n glir beth yw pwrpas addysg a hyfforddiant galwedigaethol, a'r egwyddorion sy'n sail iddynt. Pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru sy'n darparu'r llinell sylfaen berffaith ar gyfer mynegi dibenion dysgu a chymwysterau galwedigaethol ôl-16 a gellir eu haddasu fel bod y ffocws ar fod mewn gwaith a chwarae rhan mewn cymdeithas. Datblygodd y grŵp llywio'r dibenion a'r egwyddorion a ddiffinnir isod, sydd wedi cael eu derbyn yn eang gan randdeiliaid, ac roedd yr holl ymatebwyr mewn digwyddiad diweddar gyda rhanddeiliaid yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r disgrifyddion.

#### Pwrpas cymwysterau galwedigaethol

Mae cymwysterau galwedigaethol yn asesu gwybodaeth, dealltwriaeth, cymwyseddau, galluoedd /neu sgiliau sy'n berthnasol i fyd gwaith. Maent wedi cael eu cynllunio i asesu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a fydd yn cefnogi dysgwyr i fod yn:

- ✓ unigolion uchelgeisiol, llawn dyhead, annibynnol a llawn cymhelliant, yn wydn ac yn gallu ymateb i'r newid yn natur y byd gwaith a chymdeithas drwy gydol eu bywydau
- ✓ dinasyddion moesegol, ymrwymedig a hyderus sy'n gyfarwydd ag egwyddorion gwaith teg, lles a phontio cyfiawn gan eu gwneud yn bartneriaid cymdeithasol effeithiol
- ✓ aelodau gweithgar o weithlu gwybodus a medrus a fydd yn diwallu anghenion economïau Cymru a rhai byd-eang, ac yn gallu cyfrannu at y gweithlu hwnnw
- ✓ gallu symud ymlaen i ddysgu pellach a/neu gyflogaeth sy'n hyblyg, yn hygyrch ac yn gynhwysol

**Egwyddorion sy'n sail i gymwysterau galwedigaethol**

Dylai cymwysterau galwedigaethol wneud y canlynol:

- ✓ Bod yn ysbrydoliaeth i ddysgwyr
- ✓ Adlewyrchu ac ymateb i anghenion economi a chymdeithas sy'n newid yn gyflym ac sy'n gwerthfawrogi gwaith teg a phartneriaeth gymdeithasol
- ✓ Cynnwys cyfleoedd i gronni gwybodaeth, cymwyseddau, galluoedd ac arferion meddwl a datblygu sgiliau – gan gynnwys sgiliau ymarferol a hanfodol
- ✓ Paratoi dysgwyr i ymuno â gweithlu dwyieithog drwy hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu a chael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg
- ✓ Cael eu cynllunio fel eu bod yn cael eu darparu mewn ffordd hyblyg er mwyn annog dysgu gydol oes
- ✓ Cael eu hasesu mewn ffordd sy'n briodol i'r cymhwyster
- ✓ Bod yn ystyriol o'r gwerthoedd a fynegir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a natur cymdeithas, economi a diwylliant cyfoes Cymru
- ✓ Bod yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn gludadwy
- ✓ Yn hyrwyddo cynnydd mewn fframwaith cynnydd clir a syml

**Argymhelliad 2: Fel rhan o'i strategaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol, dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r pwrpas a'r egwyddorion fel y'u diffinnir.**

**3.5 Pa addysg, hyfforddiant a chymwysterau galwedigaethol y dylem fod yn eu darparu ar gyfer y dyfodol?**

Ar ôl sefydlu strategaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol ôl-16, y cwestiwn nesaf y mae angen inni ei ofyn yw 'pa addysg, hyfforddiant a chymwysterau galwedigaethol sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol yng Nghymru?'

Wrth ystyried 'perthnasedd ac effeithiolrwydd cymwysterau galwedigaethol', oni bai fod dealltwriaeth glir o'r gofynion ar gyfer galwedigaethau a sgiliau yn y dyfodol, mae'n anodd darparu ymateb sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Beth yw anghenion galwedigaethol tybiedig y dyfodol? Beth yw'r gofynion sgiliau ar gyfer y dyfodol? Mae angen y ddau arnom – ac i'r ddau weithio gyda'i gilydd. Nid yw'r gofynion hyn wedi'u mynegi'n glir yng Nghymru, a heb y rhain, mae'n anodd asesu pa mor berthnasol neu effeithiol yw cymwysterau galwedigaethol.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed yn datgan mai galw'r dysgwyr ddylai lywio'r cwricwlwm ac y dylai hefyd gael ei lywio gan wybodaeth am y farchnad lafur a blaenoriaethau lleol a rhanbarthol. Cesglir gwybodaeth am y farchnad lafur yng Nghymru gan bedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, sy'n dadansoddi heriau economaidd rhanbarthol a meysydd twf tebygol. Maent yn

cynhyrchu Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol, ar gylch tair blynedd, i ddadansoddi a dylanwadu ar ddarpariaeth sgiliau ar sail angen economaidd rhanbarthol, i gefnogi prosiectau twf a seilwaith allweddol ym mhob rhanbarth. Mae'r Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol yn cefnogi ac yn manteisio ar y blaenoriaethau a nodwyd gan Ardaloedd Menter, Bargeinion Dinesig, Dinas-ranbarthau a chydweithio ar draws ffiniau.[61]

Yn allweddol, y cyflogwyr, a'u dealltwriaeth nhw o'r blaenoriaethau sy'n llywio'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Maent yn cefnogi cyfleoedd i gyflogwyr a darparwyr dysgu gydweithio, ac i ddarparwyr dysgu ddatblygu eu darpariaeth cwricwlwm gan ymateb i flaenoriaethau rhanbarthol.

Mae pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn gweithio ychydig yn wahanol, ac er bod rhai pethau'n gyffredin rhyngddynt, mae'r cynlluniau a'r cynlluniau sgiliau'n wahanol ym mhob rhanbarth. Mae'r dull hwn yn gweithio'n dda mewn rhanbarthau, ond mae'n creu heriau wrth ystyried y darlun cenedlaethol. Nid oes gwerthusiad o ba mor dda y bodlonir blaenoriaethau rhanbarthol, na pha mor dda y bodlonir gofynion cyflogwyr.

Felly beth ydyn ni'n ei wybod am y darlun cenedlaethol? Ar lefel genedlaethol, nid oes darlun cyffredinol o'r galwedigaethau blaenoriaethol ar gyfer y dyfodol yng Nghymru, y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y galwedigaethau hynny ac ar gyfer ymgysylltu cymdeithasol, a'r nifer cysylltiedig o bobl sydd eu hangen i fodloni'r galw mewn meysydd penodol. Nid ydym chwaith yn gwybod a ydym yn darparu digon o bobl i ateb y galw.

Mater o gydbwyso yw cynllunio cwricwlwm galwedigaethol. Mae'n bwysig ein bod yn gwireddu anghenion galwedigaethol a sgiliau'r dyfodol, ond mae'n hanfodol mai dewis y dysgwr sy'n cael uchafiaeth, ac efallai na fydd hynny o reidrwydd yn cyd-fynd â gofynion y farchnad lafur.

Mae angen inni fod yn glir nad unig rôl cymwysterau galwedigaethol yw bodloni galw'r farchnad lafur, a rhaid inni gael cydbwysedd yn y cwricwlwm i groesawu gwerth cymdeithasol dysgu galwedigaethol. Gall dysgu galwedigaethol, wedi'i gefnogi gan gymwysterau galwedigaethol, ailennyn diddordeb dysgwyr a allai fod wedi colli diddordeb mewn dysgu. Gallant roi hyder i rywun sy'n bwriadu dychwelyd i weithio, a gallant effeithio'n gadarnhaol ar les mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd.


Serch hynny, rhaid inni allu rhoi cyngor i ddysgwyr am lwybrau cyflogaeth posibl – y galw am y llwybrau hynny, a'r cyfleoedd i gamu ymlaen drwy'r llwybrau hynny. Mae angen inni ddatblygu gweithlu deinamig a hyblyg, gweithlu sy'n gallu rhagweld ac ymateb i newid, gyda sgiliau trosglwyddadwy, ac sy'n awyddus i ddefnyddio

[61] https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/datblygu-sgiliau/partneriaethau-sgiliau-rhanbarthol

gwybodaeth a sgiliau i ddatblygu eu sefydliadau.  Mae angen inni hyrwyddo dysgu drwy gydol oes, ac annog cyflogwyr i annog eu gweithwyr i gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant parhaus, er mwyn cefnogi twf, cynhyrchiant a chynnydd yn eu busnes.

O ran y dirwedd bresennol yng Nghymru, mae'r graff isod yn dangos dosbarthiad y gweithlu presennol ar draws pob sector.

Graff 12:  Swyddi'r gweithlu yng Nghymru yn ôl sector, wedi'u haddasu'n dymhorol, Mawrth 2023





Ffynhonnell:  [ONS Workforce Jobs - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)]

Fel y gwelir, iechyd dynol, a gweithgareddau gwaith cymdeithasol oedd y sector mwyaf yng Nghymru ym mis Mehefin 2022 ac yna masnach gyfanwerthu ac manwerthu/atgyweirio cerbydau.  Fodd bynnag, mae'r dirwedd economaidd yn newid yn gyflym yng Nghymru ac yn fyd-eang, ac rydym yn dal yn ansicr ynghylch beth fydd yr effaith ar dueddiadau diwydiannol wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig.  Mae angen inni ddod o hyd i ffordd o fesur hylifedd newid, er mwyn cynllunio ein cwricwlwm a chapasiti'r gweithlu.  Felly, gallai'r ffordd y mae'r diwydiannau hyn wedi newid roi syniad o'r posibilrwydd y bydd rhai diwydiannau'n ehangu ac yn cywasgu yn y dyfodol.  Ar ben hynny, gall y technolegau newydd, deallusrwydd artiffisial, y symudiad tuag at sero net a thueddiadau eraill sy'n dod i'r amlwg, olygu y bydd anghenion rhai galwedigaethau'n newid yn gyflymach fyth yn y dyfodol.  Mae'r graff

isod yn dangos y newidiadau mewn swyddi yn y gweithlu dros y pedair blynedd diwethaf.

Graff 13: Newid yn swyddi’r gweithlu yng Nghymru yn ôl sector, wedi’i addasu’n dymhorol, Mawrth 2019 i fis Mawrth 2023




Ffynhonnell: [ONS Workforce Jobs - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)]()

Mae’r cynnydd cyson mwyaf mewn gwasanaethau gweinyddol a chymorth, ac yna technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Os cyfeiriwn yn ôl at bennod 2, fe gofiwn fod gostyngiad wedi bod dros y pum mlynedd diwethaf mewn cofrestriadau galwedigaethol cyffredinol mewn technoleg gwybodaeth, a bod cyfran y cofrestriadau gwybodaeth a thechnoleg wedi gostwng o’i gymharu â’r cyfanswm. Mae deall trywydd gwahanol sectorau diwydiannol yn y dyfodol yn hanfodol wrth benderfynu a yw’r ystod o gymwysterau galwedigaethol yn briodol ar gyfer y dyfodol.

Wrth gynnal eu hadolygiadau sector, mae Cymwysterau Cymru wedi ymgysylltu â chyflogwyr, cyrff cynrychioli cyflogwyr, darparwyr dysgu a dysgwyr. Cymwysterau Cymru sy’n gyfrifol am roi sylw dyledus i ystod o gymwysterau a natur y cymwysterau hynny, a gofynion cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a phroffesiynau. Rhoddwyd ystyriaeth i gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus ym mhob adolygiad sector, a chymerwyd camau lle bo angen i ddiweddaru cynnwys, adolygu asesiad, ac mewn rhai achosion cyflwynwyd cymwysterau newydd, gan felly sicrhau eu bod yn berthnasol.

Gofynnom i randdeiliaid pa mor glir roedden nhw’n ystyried oedd y cysylltiad rhwng cymwysterau galwedigaethol ac anghenion yr economi, a chafwyd ymateb niwtral ar y cyfan.  Roedd rhanddeiliaid am sicrhau bod cyflogwyr yn cael eu cynrychioli’n briodol mewn trafodaethau, ac yn enwedig barn cyflogwyr bach a chanolig eu maint.

Gall Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019, y cyfeirir ato yn y graff isod, gynnig rhagor o ddealltwriaeth.  Mae hyn yn dangos y diwydiannau hynny lle mae anghenion sgiliau – naill ai swydd wag, neu fwlch sgiliau.  Gweithgynhyrchu yw’r prif ddiwydiant sy’n dioddef yn sgil swyddi gwag a bylchau sgiliau, ac yna Iechyd a Gwaith Cymdeithasol, a Gwestai a Bwytai.  Fodd bynnag, mae’r ddogfen hon wedi dyddio rhywfaint erbyn hyn, a chafodd ei llunio cyn y pandemig – byddai’n ddefnyddiol cael yr wybodaeth hon i gynllunio beth fydd dyfodol cymwysterau galwedigaethol.

Tabl 2:  Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019:  Anghenion sgiliau fesul sector


| | Gyda swydd wag lle mae prinder sgiliau | Gyda bwlch sgiliau | Gyda’r ddau angen o ran sgiliau | Gydag un o’r anghenion sgiliau | Heb unrhyw anghenion sgiliau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | **5%** | **13%** | **1%** | **17%** | **83%** |
| Sector Cynradd a Chyfleustodau | 4% | 6% | 1% | 9% | 91% |
| Gweithgynhyrchu | 8% | 18% | 2% | 24% | 76% |
| Adeiladu | 7% | 11% | 1% | 18% | 82% |
| Cyfanwerthu a Manwerthu | 4% | 15% | 1% | 18% | 82% |
| Gwestai a Bwytai | 6% | 17% | 3% | 20% | 80% |
| Cludiant a Storio | 5% | 15% | 1% | 18% | 82% |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 6% | 9% | 1% | 14% | 86% |
| Gwasanaethau Ariannol | 4% | 13% | <1% | 16% | 84% |
| Gwasanaethau Busnes | 4% | 11% | 1% | 14% | 86% |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus | 5% | 16% | 2% | 19% | 81% |
| Addysg | 6% | 13% | 2% | 17% | 83% |
| Iechyd a Gwaith Cymdeithasol | 8% | 16% | 3% | 20% | 80% |
| Celfyddydau a Gwas. Eraill | 6% | 12% | 1% | 17% | 83% |

*Y sylfaen: Yr holl sefydliadau (2019 Cymru: 6,773; mae meintiau sylfaen y sectorau’n amrywio o 109 mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a Gwasanaethau Ariannol i 1,442 mewn Cyfanwerthu a Manwerthu)*

Ffynhonnell:  [Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019 Canlyniadau craidd:Pecyn sleidiau Cymru (llyw.cymru)]

Mae Graffiau 14 a 15 yn dangos y mathau o sgiliau sydd eu hangen.  Mae rhai o’r rhain yn sgiliau arbenigol, ac nid oes hyfforddiant ar gael ar eu cyfer bob amser, yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys y math o ddiwydiant a lleoliad daearyddol. Mae eraill yn ymwneud â sgiliau mwy generig, a ddylai fod ar gael yn eang, gan gynnwys sgiliau Cymraeg, sgiliau TG sylfaenol, a sgiliau cysylltiedig â ‘phobl’, fel rheoli eich tasgau eich hunain a gweithio mewn tîm.


Graff 14:  Diffyg sgiliau technegol ac ymarferol ymhlith ymgeiswyr




Ffynhonnell:  :  [Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019 Canlyniadau craidd:Pecyn sleidiau Cymru (llyw.cymru)]

Buom yn trafod ymgorffori sgiliau hanfodol Cymru, gan gynnwys cymhwyso sgiliau rhif, cyfathrebu, digidol a chyflogadwyedd, mewn rhaglenni dysgu, ond roeddem yn ymwybodol bod Cymwysterau Cymru eisoes yn cynnal adolygiad o gymwysterau Sgiliau Hanfodol felly ni wnaethom fwy o waith i’r perwyl hwn.

Graff 15:  Diffyg sgiliau pobl a phersonol ymhlith ymgeiswyr




Ffynhonnell:  [Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019 Canlyniadau craidd:Pecyn sleidiau Cymru (llyw.cymru)]

Cawsom drafodaeth fanwl am sgiliau pobl a phersonol yn y grŵp llywio, a'r ffordd orau o ddatblygu ac asesu'r sgiliau hyn, mewn ffordd wrthrychol a chyson. Canolbwynt y ddadl oedd trafod a ddylai gwaith o'r fath i ddatblygu ac asesu sgiliau fod yn rhan o'r cymhwyster galwedigaethol neu'r rhaglen ddysgu alwedigaethol. Mae rhai cymwysterau galwedigaethol eisoes yn cynnwys datblygu'r sgiliau hyn, a gallai'r rhaglenni dysgu gefnogi sgiliau ehangach – gwaith tîm, rheoli amser, a dylanwadu er enghraifft.  Cadarnhaodd gweithdy i randdeiliaid a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2023 mai'r peth gorau fyddai gosod sgiliau neu ymddygiadau o'r fath o fewn y rhaglen ddysgu – yn enwedig mewn lleoliadau gwaith – a byddwn yn edrych ar hyn ymhellach ym mhennod 4.

Gyda'r eglurder a ddaw o ddiffinio strategaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol, a nodi anghenion galwedigaethol a sgiliau ar gyfer y dyfodol, gall Cymwysterau Cymru gynllunio ei sylfaen gymwysterau, a mynd ati gyda darparwr dysgu i gynllunio cwricwlwm, adnoddau a llwybrau cynnydd ar gyfer dysgwyr yn seiliedig ar wybodaeth glir ar gyfer y dyfodol.

**Argymhelliad 3:  Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith i ddiffinio beth fydd y galw yn genedlaethol am anghenion galwedigaethol a sgiliau yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm, ochr yn ochr ag anghenion rhanbarthol a lleol sydd wedi'u mynegi'n glir ac sy'n cael eu fframio gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, ac yn cefnogi Cymwysterau Cymru wrth iddynt asesu'r blaenoriaethau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.**

### 3.6 Sut ydyn ni'n gwybod a fydd ein capasiti yn diwallu ein galw o ran gofynion galwedigaethol a sgiliau yn y dyfodol

Ar ôl i ni ddweud 'ble rydyn ni eisiau mynd', mae angen i ni fesur a ydyn ni'n llwyddo i gyrraedd. Nid oes dadansoddiad cyfredol o dueddiadau cofrestru yn erbyn meysydd lle mae galw cenedlaethol – na chwaith i weld a yw gofynion rhanbarthol yn cael eu bodloni. Yn ogystal, nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd a yw'r dysgwyr hynny sy'n ennill cymwysterau galwedigaethol yn mynd ymlaen i swyddi sy'n berthnasol i'r cymwysterau hynny. Caiff data cyrchfannau a gyhoeddir ar hyn o bryd ei gategoreiddio mewn dosbarthiadau bras, fel cyflogaeth barhaus neu ddysgu parhaus. Rydym yn cydnabod y byddai heriau ynghlwm ag ymarferiad o'r fath, yn enwedig oherwydd y gwahanol ffyrdd y caiff sectorau eu categoreiddio mewn gwahanol sefydliadau.

Mae Mesurau Perfformiad Cyson ar gyfer dysgu ôl-16 – cyrchfannau dysgwyr 2019/20 (ystadegau arbrofol)[62] a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022, yn datgan y bydd data sydd ar gael gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi ar hyn o bryd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddadansoddi enillion dysgwyr ar ôl iddynt gwblhau eu rhaglenni a chynnwys gwybodaeth ychwanegol am sectorau'r cyflogwyr. Bydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth asesu i ba raddau y mae dysgwyr galwedigaethol yn symud ymlaen i swyddi mewn meysydd sy'n berthnasol i'w hastudiaethau.

Fodd bynnag, mae angen inni gyflwyno nodyn o rybudd yma – fel rydym wedi'i ddweud eisoes, mae'n her i gydbwyso'r cwricwlwm, gan ei bod yn hanfodol i ni fodloni anghenion dysgwyr. Mae angen inni gofio am y dysgwyr hynny y mae dychwelyd at unrhyw fath o ddysgu wedi bod yn her iddynt, a gwneud yn siŵr y gallwn annog dysgwyr i symud ymlaen ar hyd llwybrau sy'n magu eu hyder a'u hunan-barch, yn ogystal â hyrwyddo llwybrau galwedigaethol. Gallwn wneud hyn os wnawn ni fesur dwy gyrchfan ein holl ddysgwyr.

**Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu'r gwaith o nodi tueddiadau cofrestru dysgwyr, a hefyd beth fydd cyrchfannau dysgwyr, er mwyn deall a yw dysgwyr yn symud ymlaen i ddiwydiant sy'n gysylltiedig â'u cymhwyster galwedigaethol. Dylid mapio'r tueddiadau hyn yn erbyn gofynion y farchnad lafur a nodir yn argymhelliad 3 uchod, er mwyn penderfynu a yw Cymru'n llwyddo i lenwi ei bylchau o ran galwedigaethau a sgiliau er mwyn bodloni dyheadau yn y dyfodol.**

[62] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2022-10/mesurau-perfformiad-cyson-ar-gyfer-dysgu-ol-16-cyrchfannau-dysgwyr-awst-2019-i-orffennaf-2020-316.pdf

### 3.7 Crynodeb

Yng Nghymru, rydym yn glir ynghylch safle addysg a hyfforddiant – addysg yw ein cenhadaeth genedlaethol.  Mae gennym gwricwlwm newydd ar gyfer dysgwyr 3-16 oed.  Ond ar ôl 16 nid oes gennym strategaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol, nac ychwaith strategaeth gydlynol ar gyfer darparu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.  Rydym wrthi'n ffurfio'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i fynd i'r afael â'r bwlch hwn.

Mae angen inni gael strategaeth sy'n glir ynghylch ein dyheadau, sy'n mynegi cyfrifoldebau cymharol, ac sy'n darparu'r cydbwysedd cywir rhwng gwahanol fathau o ddysgu.  Mae angen inni gefnogi hyn drwy gael dealltwriaeth o sectorau a fydd yn bwysig i economi Cymru yn y dyfodol, eu gofynion o ran y gweithlu, a gydag eglurder ynghylch y sgiliau a fydd yn ein helpu i ffurfio cymunedau cydlynol a chynhwysol.  Yn erbyn hyn, mae angen inni fonitro a ydym yn cyflawni'r hyn y mae angen inni ei wneud, a chymryd camau mewn meysydd lle nad ydym yn cyflawni.

Bydd darparu eglurder o'r fath yn ein galluogi ni i ddatblygu dull blaengar o ymdrin â chymwysterau galwedigaethol, gan sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn effeithiol ar gyfer dyfodol Cymru.

# Pennod 4: Dylunio, datblygu ac asesu cymwysterau galwedigaethol

## 4.1 Cyflwyniad

Wrth ystyried cymwysterau galwedigaethol, mae'n anochel ein bod hefyd yn ystyried addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Felly, mae'r bennod yn ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant galwedigaethol, a chynllunio a datblygu cymwysterau galwedigaethol yng nghyd-destun ymchwil rhyngwladol. Roedd ymchwil a gomisiynwyd gan yr OECD[63] yn ystod yr adolygiad hwn yn cymharu'r rhain, ac agweddau eraill ar gymwysterau galwedigaethol ar draws pum gwlad – Awstralia, Denmarc, Estonia, Sweden a'r Swistir. Dewiswyd y gwledydd hyn i ddarparu amrywiaeth o ddulliau gwahanol, gan ddarparu ystod o gymaryddion i'w hystyried.

Yn y bennod hon, rydym yn archwilio dulliau cymharol y gwledydd hyn i ganfod a allai eu harferion lywio ein ffordd o fwrw ymlaen o ran cymwysterau galwedigaethol.

## 4.2 Pwy sy'n darparu addysg a hyfforddiant galwedigaethol mewn gwledydd eraill?

Mae gwledydd yn mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau o ddarparu addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Er enghraifft, mae cymwysterau galwedigaethol mewn addysg uwchradd uwch[64] yn Awstralia yn cael eu darparu gan Sefydliadau Hyfforddi Cofrestredig. Mae chwe math o'r rhain – Colegau Technegol ac Addysg Bellach, darparwyr preifat, ysgolion, addysg gymunedol, a darparwyr menter, sef darparwyr sy'n darparu'n bennaf i'w gweithwyr eu hunain. Ar ben arall y sbectrwm mae Denmarc, gyda cholegau galwedigaethol 'nid-er-elw' wedi'u hariannu gan y wladwriaeth, yn annibynnol o ran addasu addysg a hyfforddiant galwedigaethol i anghenion lleol, ac Estonia, sy'n darparu drwy 32 o ysgolion uwchradd uwch. O blith y rhain, mae 26 yn eiddo i'r Weinyddiaeth Addysg ac Ymchwil ac yn cael eu rhedeg ganddi. Mae ystod cyflawni debyg yn bodoli ar gyfer darpariaeth hyfforddiant galwedigaethol ôl-uwchradd[65].

[63] Vocational Qualifications in an International Perspective, OECD, Mehefin 2023
[64] Fel arfer, mae'r rhai sy'n ymuno ag ysgol uwchradd uwch yn 15 neu'n 16 oed
[65] Fel arfer, mae'r rhai sy'n ymuno â hyfforddiant ôl-uwchradd uwch dros 18 oed

## 4.3 Sut mae cymwysterau galwedigaethol yn cael eu cynllunio a'u datblygu?

Mae'r gwaith o ddylunio a datblygu cymwysterau galwedigaethol yn amrywio'n sylweddol rhwng gwledydd. I raddau, dylanwadir ar hyn gan y system addysg drwyddi draw ym mhob gwlad, a sut caiff darpariaeth cymwysterau galwedigaethol ei rheoli.

Yn fras, mae gwledydd naill ai'n tueddu i weithredu model lle mae diffinio a dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yn un o swyddogaethau'r wladwriaeth, neu fodel marchnad agored – fel sydd gennym yng Nghymru. Ychydig iawn o debygrwydd rhyngwladol sydd rhwng cyrff dyfarnu, fel y maent yn bodoli yn y DU, lle mae llawer o gymwysterau'n 'berchen' i gyrff sector preifat ac annibynnol. Ym maes addysg uwchradd uwch Sweden, mae bwrdd cenedlaethol addysg wrth wraidd creu, cymeradwyo a dyfarnu cymwysterau. Yn Nenmarc a'r Swistir, mae creu cymwysterau yn nwylo cyflogwyr, ond asiantaethau cenedlaethol sy'n gyfrifol am eu cymeradwyo a dyfarnu'r cymhwyster. Yn Estonia, mae nifer o gyrff dyfarnu, a phob un yn gweithio yn eu sectorau dynodedig.

Yn Awstralia, mae Cynghorau Sgiliau Diwydiant wedi bod yn gyfrifol, tan yn ddiweddar, am ddatblygu 'pecynnau hyfforddi'. Mae pecynnau hyfforddi yn nodi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar unigolion i berfformio'n effeithiol yn y gweithle, wedi'u mynegi fel unedau cymhwysedd, ac yn disgrifio sut y gellir pecynnu cymwyseddau i gymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol ac sy'n cydymffurfio â Fframwaith Cymwysterau Awstralia. Mae 11 o Gynghorau yn darparu arweiniad ar gyfer y pecynnau hyfforddi, ac mae'r gwaith datblygu ymarferol yn cael ei wneud gan 60 o gyrff sectoraidd – Pwyllgorau Cyfeirio Diwydiannol. Cefnogir y Pwyllgorau hyn yn eu tro gan Sefydliadau Gwasanaethau Sgiliau annibynnol sy'n helpu'r Pwyllgorau i ddatblygu ac adolygu pecynnau hyfforddi. Mae newid diweddar yn golygu y bydd pecynnau hyfforddi'n cael eu datblygu'n uniongyrchol gan Sefydliadau Gwasanaethau Sgiliau yn y dyfodol. Mae tua 1,400 o gymwysterau galwedigaethol yn gysylltiedig â 70 o becynnau hyfforddi.

Mae Llywodraeth Awstralia yn cefnogi darpariaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol gyda gwybodaeth am y farchnad lafur. Mae 'Jobs and Skills Australia' yn asiantaeth sy'n cynghori Llywodraeth Awstralia ar anghenion y gweithlu nawr ac yn y dyfodol, ac ar ddatblygu'r system addysg a hyfforddiant galwedigaethol.

Yn Nenmarc, y Weinyddiaeth Plant ac Addysg sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros hyfforddiant galwedigaethol. Mae Cyngor Cynghori Cenedlaethol yn rhoi cyngor ar gymwysterau newydd a newidiadau i gymwysterau presennol, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r partneriaid cymdeithasol, llywodraethau lleol a sefydliadau rhanbarthol, a chymdeithasau ysgolion, athrawon a myfyrwyr. Mae tua hanner cant o bwyllgorau masnach sectoraidd wedi'u cyfansoddi a'u hariannu gan gyflogwyr a

sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr yn diweddaru cyrsiau presennol ac yn cynnig rhai newydd.  Mae gan y pwyllgorau masnach eu hysgrifenyddiaethau a'u cyllidebau eu hunain, wedi'u hariannu gan y partneriaid cymdeithasol. Ystyrir bod cynnwys rhanddeiliaid yn rôl allweddol wrth gynghori'r weinyddiaeth addysg ar bolisi cyffredinol ac wrth bennu'r strwythur a'r fframwaith cyffredinol ar gyfer rhaglenni hyfforddi.[66]

Mae gan *Kutsekoda* – awdurdod cymwysterau galwedigaethol cenedlaethol – awdurdod dirprwyedig gan y Weinyddiaeth Addysg ac Ymchwil ar gyfer y rhan fwyaf o'r system gymwysterau yn Estonia. Mae'n disgrifio ei hun fel 'llwyfan diduedd ar gyfer cydweithredu'[67] sy'n nodi'r sgiliau a'r proffesiynau sydd eu hangen yn y dyfodol. Caiff yr awdurdod ei reoli gan gydweithrediad rhwng sefydliadau cyflogwyr a chyflogeion, gan gynnwys undebau llafur ac adrannau'r llywodraeth.  Mae ei gylch gwaith yn cydlynu gweithgareddau 14 o Gynghorau Cymwysterau Galwedigaethol sectoraidd a gweithgorau cynorthwyol sy'n datblygu safonau proffesiynol/galwedigaethol.  Mae'n darparu cwnsela a chymorth i gyrff dyfarnu.

Yn Sweden, mae'r Asiantaeth Genedlaethol dros Addysg, o dan awdurdod y Weinyddiaeth Addysg, yn gyfrifol am y cwricwlwm galwedigaethol uwchradd uwch, gan benderfynu ar y meysydd llafur pwnc ar gyfer y gwahanol raglenni galwedigaethol.  Yn 2010, cafodd cynghorau rhaglenni cenedlaethol statudol eu creu ar gyfer pob rhaglen alwedigaethol uwchradd uwch genedlaethol, gan gynnwys cynrychiolaeth ehangach. Nid yw'r cynghorau'n gyrff sy'n gwneud penderfyniadau, ond maent yn cynghori'r Asiantaeth Genedlaethol dros Addysg ar ansawdd, cynnwys a threfn rhaglenni galwedigaethol. Mae'r cynghorau'n darparu cyngor ar gynigion ar gyfer pynciau neu gyrsiau newydd sy'n cael eu cyflwyno gan yr Asiantaeth Genedlaethol.

Yn y Swistir, mae'r holl gymwysterau galwedigaethol yn cael eu rheoli gan y Cydffederasiwn (y llywodraeth ffederal), y cantonau a sefydliadau proffesiynol.  Mae gan y llywodraeth, drwy ei hasiantaeth, Ysgrifenyddiaeth y Wladwriaeth dros Addysg, Ymchwil ac Arloesi, gyfrifoldeb cyffredinol dros gymwysterau galwedigaethol o ran cynnwys cymwysterau, gan gynnwys cwricwla a meini prawf asesu, ac mae'n gyfrifol am reoleiddio a chyd-ariannu'r sector addysg a hyfforddiant galwedigaethol, a'r sector addysg broffesiynol.

Mae ordinhadau addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn diffinio'r proffil galwedigaethol, cynnwys yr hyfforddiant, y meini prawf y mae'n rhaid i weithwyr cymwysedig yn yr alwedigaeth eu bodloni, uchafswm nifer y myfyrwyr, a gweithdrefnau cymwysterau. Maent yn cael eu paratoi drwy ymdrechion ar y cyd gan y Cydffederasiwn, y cantonau a'r sefydliadau proffesiynol cyfatebol.

---

[66] https://www.cedefop.europa.eu/en/tools/vet-in-europe/systems/denmark-u2
[67] https://www.kutsekoda.ee/en/

Roedd cyfyngiadau amser yn golygu nad oedd yr OECD yn gallu cwblhau gwerthusiad cymharol o arferion yn y gwledydd a ddewiswyd.  Fodd bynnag, mae dwy thema sydd â rhywfaint o gyffredinrwydd yn y gwledydd a archwiliwyd:

- mabwysiadu strwythurau ffurfiol i roi cyngor ar alwedigaethau ac anghenion sgiliau ar gyfer y dyfodol mewn rhai gwledydd
- lefelau uchel cyson o ymgysylltu â rhanddeiliaid

Yng Nghymru, Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r cyfeiriad strategol a'r gofynion polisi dilynol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol, a Cymwysterau Cymru, fel corff annibynnol, sy'n gyfrifol am gymwysterau.  Ei brif swyddogaethau yw sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru a magu hyder mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru ymysg y cyhoedd.  Fel y disgrifir ym mhennod 1, mae Cymwysterau Cymru'n rheoleiddio cymwysterau, weithiau ar y cyd â rheoleiddwyr cymwysterau eraill yn y DU.

Ar hyn o bryd mae 90 o gyrff dyfarnu yn cynnig cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru.  Mae'r nifer hwn yn amrywio yn ôl galw'r farchnad.  Mae cyrff dyfarnu yn datblygu cymwysterau newydd, neu'n diweddaru cynnwys pan fydd y farchnad yn pennu bod angen gwneud hynny, neu pan fydd Cymwysterau Cymru wedi comisiynu cymwysterau newydd.  Mewn rhai achosion, mae darparwyr dysgu'n gweithio'n uniongyrchol gyda chyrff dyfarnu i ddatblygu cymwysterau newydd.  Mae'r ymgysylltu hwn i'w groesawu a gall ganiatáu ymateb cyflym mewn llawer o achosion i anghenion dysgwyr a chyflogwyr.

Mewn llawer o achosion, mae cymwysterau galwedigaethol yn seiliedig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, sy'n cyd-fynd ag anghenion y diwydiant.  Mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn diffinio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar unigolyn i gyflawni tasg yn gymwys.  Ynghyd â safonau proffesiynol mewn rhai sectorau, pan fyddant yn cael eu hintegreiddio â chymwysterau galwedigaethol maent yn sicrhau bod modd cludo a chydnabod dysgu a chyflawniad ar draws y DU, ac yn rhyngwladol.  Mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn cael eu hariannu a'u rheoli gan lywodraethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn ogystal â chymeradwyo cymwysterau, mae gan Cymwysterau Cymru rôl ehangach o ran ei fod yn gallu comisiynu cymwysterau newydd drwy broses gystadleuol agored lle mae angen yn y farchnad, yn gallu cyfyngu ar yr amrywiaeth o gymwysterau sy'n cael eu cynnig, ac yn gallu darparu grantiau i gefnogi'r system gymwysterau, gan gynnwys cymorth ar gyfer cymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg.

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod cyhoeddi ar gyfer fframweithiau prentisiaeth, gan ddirprwyo'r gwaith o gyhoeddi Tystysgrifau i'r Ffederasiwn Sgiliau a Safonau'r Sector Diwydiant.

Un gwahaniaeth sylfaenol rhwng Cymwysterau Cymru a'r rheoleiddiwr yn Lloegr – Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual) – yw mai Cymwysterau Cymru sy'n gyfrifol am nodi a yw *ystod a natur* y cymwysterau'n briodol. Yn Lloegr, mae *ystod* y cymwysterau'n gyfrifoldeb i IfATE a'r Adran Addysg.

Felly, er mwyn cyflawni ei ddyletswydd, mae Cymwysterau Cymru ers ei sefydlu yn 2015 wedi cynnal rhaglen o adolygiadau sector ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Yng Nghymru, mae 15 Maes Pwnc Sector diffiniedig ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, fel y dangosir ym mhennod 1, tabl 1. Mae'r Meysydd Pwnc Sector wedi/yn cael eu hadolygu i bennu a yw'r cymwysterau galwedigaethol sy'n rhan ohonynt yn dal yn addas i'r diben. Mae adolygiadau sector yn cynnwys ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid – dysgwyr, cyflogwyr, cyrff cynrychioladol, darparwyr dysgu, undebau llafur, sefydliadau dyfarnu a chyrff eraill. Ar ôl cwblhau adolygiad o'r sector, gall Cymwysterau Cymru ystyried bod y cymwysterau galwedigaethol mewn sector yn dal yn addas i'r diben, fod angen iddynt ddiweddaru eu trefniadau asesu neu eu cynnwys, neu gall hynny arwain at y cymwysterau galwedigaethol newydd sbon *wedi'u gwneud i Gymru*.

Mae adolygiadau sector, yng nghyd-destun addysg a hyfforddiant galwedigaethol, yn arloesol, ac mewn sawl ffordd yn arwain y ffordd o ran yr agwedd at gymwysterau galwedigaethol. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym Mhennod 3, nid oes cyfeiriad strategol clir ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol na dadansoddiad o'r farchnad lafur genedlaethol sy'n nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol y gellir cynnal adolygiadau sector yn eu herbyn. Er ein bod yn cydnabod bod adolygu cymwysterau galwedigaethol yn dasg sylweddol, mae angen ailedrych ar adolygiadau sector. Dylid adolygu'r dull a fabwysiadwyd yn y cylch adolygu presennol – gan edrych ar egwyddorion cymwysterau galwedigaethol a ddisgrifir ym mhennod 3, themâu penodol ym mhob sector, llwybrau cynnydd ac is-sectorau – er enghraifft, yr adborth gan rai rhanddeiliaid yw bod diffyg cymwysterau 'sero net' yn gyffredinol mewn cymwysterau, ac mewn rhai achosion, diffyg integreiddio o ran sgiliau digidol. Mae'r rhain yn feysydd a allai elwa ar adolygiadau thematig.

Dylai adolygiadau sector hefyd gael eu llywio gan adolygiadau thematig Estyn, a chyd-fynd â nhw lle bo hynny'n briodol. Mae Estyn yn cynnal adolygiadau thematig ar sail cynlluniedig a dylid defnyddio'r adborth o'r adolygiadau hyn fel sail adolygiadau sector.

**Argymhelliad 5: Bod Cymwysterau Cymru yn adnewyddu ei ddull o adolygu'r sector, gan ailedrych lle bo angen ar sectorau sydd eisoes wedi cael eu hystyried. Dylai'r gwaith hwn gyd-fynd â'r strategaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol y cyfeirir ati yn argymhelliad 1, ac â'r dadansoddiad o'r**

**gofynion o ran galwedigaethau a sgiliau yn y dyfodol y cyfeirir atynt yn argymhelliad 3.**

Yn ddiweddar, mae Cymwysterau Cymru wedi sefydlu grwpiau cymwysterau sector[68] yn y rhan fwyaf o'r meysydd pwnc sector. Pwrpas y grwpiau cymwysterau sector yw:

- cael adborth yn ymwneud â chymwysterau ôl-16 a reoleiddir gan ddarparwyr dysgu a rhanddeiliaid perthnasol ym mhob sector
- nodi a, lle bo'n briodol, ymchwilio i broblemau sy'n ymwneud â chymwysterau ôl-16 a reoleiddir ym mhob sector gyda'r nod o ddatrys y problemau
- rhannu enghreifftiau o arferion da a'r hyn sy'n gweithio'n dda ym mhob sector
- rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am gymwysterau ôl-16 a reoleiddir gyda darparwyr dysgu a rhanddeiliaid perthnasol ym mhob sector
- meithrin a chynnal cysylltiadau cryf gyda darparwyr dysgu a rhanddeiliaid perthnasol eraill ym mhob sector

Mae'r grwpiau hyn yn ymwneud yn bennaf â rhannu gwybodaeth am gymwysterau galwedigaethol cyfredol, ac maent yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Nodir aelodaeth yn y cylch gorchwyl a gellir gwahodd sefydliadau ar wahân i'r aelodaeth graidd i gyfarfodydd i gael diweddariadau perthnasol.

### 4.4 Ond beth am ddiogelu cymwysterau galwedigaethol at y dyfodol?

Gan ystyried arferion mewn gwledydd eraill, ac adborth gan randdeiliaid, y cam rhesymegol nesaf yw datblygu cylch gwaith y grwpiau cymwysterau sector wrth iddynt aeddfedu er mwyn llywio adolygiadau sector arfaethedig yn y dyfodol. Byddai angen ehangu aelodaeth grwpiau o'r fath o reidrwydd wrth gynnal adolygiad sector, i gynnwys partneriaid eraill gan gynnwys cyflogwyr, neu sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr, ac undebau llafur, er enghraifft.

Er ein bod yn gwerthfawrogi bod Cymwysterau Cymru wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn ystod adolygiadau sector drwy grwpiau cynghori, ac wedi ymgynghori'n helaeth, byddai ehangu'r cylch gwaith, a sefydlu 'grwpiau sefydlog' yn sicrhau adolygiad systematig a chyson o gymwysterau galwedigaethol, gan ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i ddatblygiadau galwedigaethol sy'n dod i'r amlwg.

**Argymhelliad 6: Dylai Cymwysterau Cymru ehangu cylch gwaith grwpiau cymwysterau'r sector i roi cyngor ar ofynion yn y dyfodol, gan gynnwys rhanddeiliaid eraill i ategu'r grwpiau hyn lle bo hynny'n briodol.**

[68] Cymwysterau Cymru: Grwpiau Cymwysterau'r Sector ôl-16 – Cylch Gorchwyl, Ionawr 2023

Ym Mhennod 1, gwelsom fod gan Cymwysterau Cymru gylch gwaith ehangach o'i gymharu â rheoleiddwyr eraill. Mae ganddo bwerau ychwanegol i gomisiynu cymwysterau newydd drwy broses gystadleuol agored lle mae angen yn y farchnad, yn gallu cyfyngu ar yr amrywiaeth o gymwysterau sy'n cael eu cynnig, ac yn gallu darparu grantiau i gefnogi'r system gymwysterau, gan gynnwys cymorth ar gyfer y Gymraeg.

Mae comisiynu cymwysterau newydd, a chyfyngu ar yr ystod o gymwysterau wedi cael eu mabwysiadu ar gyfer dau adolygiad sector hyd yma – iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant, ac adeiladu, gwasanaethau adeiladu a'r amgylchedd adeiledig – a Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru hefyd.

Yn yr achosion hyn, mae cymwysterau newydd wedi cael eu comisiynu gan gyrff dyfarnu, a ddatblygwyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Maent yn gymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru*. Mae Cymwysterau Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ynghylch a ddylid comisiynu cymwysterau newydd ym maes lletygarwch ac arlwyo.

Nid yw cyflwyno cymwysterau o'r fath wedi bod heb ddadl – yn enwedig o safbwynt darparwr dysgu, a byddwn yn ystyried hyn yn fanylach ym mhennod 6. O safbwynt llywodraethu, mae adolygiadau sector sy'n golygu newid sylweddol i'r dirwedd cymwysterau ac y mae angen ymgynghori arnynt yn cael eu cyflwyno i fwrdd Cymwysterau Cymru i wneud penderfyniadau. Lle nad oes newid sylweddol, neu lle nad oes angen ymgynghori, cyflwynir diweddariadau ar adolygiadau sector. Mae hyn yn golygu, ar gyfer llawer o'r adolygiadau sector a gynhaliwyd hyd yma, nad yw bwrdd Cymwysterau Cymru wedi cael adroddiad ar yr adolygiad sector cyn ei gyhoeddi ac nad yw wedi bod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau derfynol. O ystyried arwyddocâd goblygiadau'r adolygiadau sector ar y dirwedd cymwysterau galwedigaethol, argymhellir yn gryf bod y bwrdd yn cael pob adolygiad sector ar gyfer gwneud penderfyniadau fel rhan safonol o'r broses lywodraethu er mwyn gallu craffu a herio.

**Argymhelliad 7: Dylai Cymwysterau Cymru gyflwyno canfyddiadau a chynigion pob adolygiad sector i'w Fwrdd, er mwyn rhoi cyfle i graffu a herio cynigion a wnaed cyn eu cyhoeddi.**

Llywodraeth Cymru sy'n comisiynu adolygiadau o fframweithiau prentisiaeth. Ar hyn o bryd, nid oes perthynas uniongyrchol rhwng adolygiadau sector Cymwysterau Cymru ac adolygiadau o fframweithiau prentisiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod hyn oherwydd bod adolygiadau sector yn ehangach o lawer o ran cwmpas, gan gynnwys cymwysterau ar draws addysg bellach a phrentisiaethau, ac y gall amser a graddfa adolygiad sector gymryd mwy o amser na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer adolygiadau prentisiaethau. Er mwyn sicrhau bod fframweithiau/llwybrau'n parhau i ymateb i'r galw gan gyflogwyr, efallai y bydd Llywodraeth Cymru'n dymuno chwilio am ragor o hyblygrwydd mewn fframweithiau er mwyn gallu ymateb yn gyflym i'r galw gan gyflogwyr.

Gall canlyniad prosesau ar wahân arwain at ddyblygu ymdrechion – i bawb dan sylw, gan gynnwys cyflogwyr a darparwyr dysgu.  Mae'r egwyddor o gyflymder yn bwysig i bob cymhwyster. Er bod elfen o gydweithio, mae cyfle i wella'r broses o gydlynu adolygiadau sector gydag adolygiadau o fframweithiau.  Felly, drwy weithredu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, mae'n werth sicrhau trefniadau gweithio llawer agosach rhwng adolygiadau o fframweithiau prentisiaeth ac adolygiadau sector.  Eto, dylai adolygiadau thematig Estyn fod yn sail i'r adolygiadau.

Mae cyfle hefyd i ehangu pwrpas y grwpiau cynghori a nodir uchod i'r fframwaith prentisiaeth, gan leihau'r risg o ddyblygu ymdrechion, a mabwysiadu dull gweithredu cyson.

**Argymhelliad 8:  Dylai Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a Chymwysterau Cymru sicrhau bod adolygiadau sector ac adolygiadau fframwaith prentisiaethau yn cael eu cydlynu'n well, ac yn ystyried defnyddio grwpiau cymwysterau sector Cymwysterau Cymru a thystiolaeth o adolygiadau thematig Estyn i lywio'r broses.**

### 4.5 Beth sydd wedi'i gynnwys mewn cymwysterau galwedigaethol?

Mae arferion gwahanol yn cael eu mabwysiadu wrth ddiffinio cynnwys y cwricwlwm a'r methodolegau asesu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.  Mae'r Swistir a Denmarc yn diffinio nid yn unig y canlyniadau disgwyliedig – yr hyn y dylai myfyrwyr ei wybod – ond hefyd sut y dylid cyrraedd y nodau hyn drwy raglenni dysgu.  Mae gwledydd eraill yn caniatáu rhagor o hyblygrwydd.  Yn Estonia, rhaid i'r llywodraeth gytuno ar gwricwla arfaethedig darparwyr addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Mae Sweden yn darparu rheolau cymharol fanwl ar gynnwys academaidd addysg a hyfforddiant galwedigaethol uwchradd uwch, ond mae'r cynnwys galwedigaethol wedi'i ddiffinio'n fras.  Mae rhagor o fanylion isod ac yn benodol, rydym yn ystyried a yw'r cymwysterau galwedigaethol yn cynnwys cymwyseddau galwedigaethol, sgiliau trawsbynciol ac ymddygiad.

Mae'r Swistir yn rheoleiddio addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn eithaf tynn.  Mae cymwysterau galwedigaethol yn cael eu trefnu ar sail Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a phroffesiynol.  Ar gyfer y ddarpariaeth uwchradd uwch, mae dewis o 245 o alwedigaethau ac ar gyfer y ddarpariaeth ôl-uwchradd, mae 420 o arholiadau ffederal.  Mae amcanion dysgu a chynnwys rhaglenni yn cael eu gosod drwy ordinhadau ar gyfer pob proffesiwn, a chynlluniau addysg a hyfforddiant.  Mae'r cynlluniau'n diffinio'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n cael eu datblygu mewn ysgolion galwedigaethol a gyda chyflogwyr, nifer y gwersi yn ôl blwyddyn a chwrs, a'r cynllun gwerthuso ac asesu.  Yn ogystal â hynny, mae dysgwyr yn mynychu cyrsiau wedi'u trefnu gan y diwydiant a hyfforddiant seiliedig ar waith.  Mae'r cymhwyster galwedigaethol yn amlinellu'r cymwyseddau angenrheidiol

ar gyfer pob galwedigaeth.  Mae sgiliau trawsbynciol yn cael eu pwysleisio hefyd er mwyn ‘dangos cydnerthedd corfforol a meddyliol, ac i integreiddio i’r tîm.[69]

Mae Denmarc yn diffinio ei ‘rheolau ar gyfer addysg alwedigaethol drwy orchmynion gweithredol.  Mae’r gorchmynion hyn yn nodi pwrpas y rhaglen, rôl y rhanddeiliaid sy’n rhan o’r gwaith cyflawni, disgrifiad manwl o strwythur y rhaglen, hyd gwahanol rannau o’r rhaglen, a’r cydbwysedd amser rhwng elfennau yn yr ystafell ddosbarth ac yn y gweithle.  Mae’r gorchmynion gweithredol yn rhestru’r sgiliau a’r cymwyseddau y dylai myfyrwyr eu datblygu ar wahanol gamau yn y rhaglen alwedigaethol, y tasgau y dylent fod yn gallu eu cyflawni ar ôl ei chwblhau, a sut y dylid asesu’r sgiliau hyn.

Tasgau penodol i’r swydd yw’r tasgau a’r cymwyseddau a ddiffinnir mewn cymwysterau galwedigaethol.  Nodir cymwyseddau cymdeithasol a sgiliau trawsbynciol hefyd.  Mae rheoliadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn pwysleisio pwysigrwydd sgiliau sylfaenol a meddal, ‘meithrin cymeriad, balchder proffesiynol a’r gallu i fabwysiadu safbwyntiau annibynnol, i gydweithredu ac i gyfathrebu’.[70]  Yn Nenmarc, mewn addysg a hyfforddiant galwedigaethol uwchradd uwch, mae dros 100 o wahanol raglenni astudio a gall pob rhaglen dargedu mwy nag un swydd.  Mae addysg a hyfforddiant galwedigaethol ôl-uwchradd yn darparu chwe rhaglen a 27 o arbenigeddau.

Yn Awstralia, mae tair rhan i becynnau hyfforddi:  set o gymwysterau; unedau cymhwysedd; a chanllawiau asesu sy’n gysylltiedig â phob cymhwysedd.  Mae tua 70 o becynnau hyfforddi a 1,400 o gymwysterau galwedigaethol yn cael eu cynnig.  Darperir rhywfaint o fanylion ar gyfer yr unedau cymhwysedd ac asesu, ond mae gan ddarparwyr ryddid i ddatblygu’r cwricwlwm.  Mae’r pecynnau hyfforddi yn cynnwys sgiliau sylfaenol, fel darllen, ysgrifennu, datrys problemau a blaengaredd.  Rhaid i gyrsiau achrededig nodi sgiliau sylfaenol sy’n berthnasol i ganlyniadau a chymwyseddau’r cwrs.

Yn Estonia, mae cymwysterau/safonau galwedigaethol yn sail i addysg a hyfforddiant galwedigaethol.  Maent yn cynnwys y sgiliau, y wybodaeth a’r agweddau sy’n ofynnol ar gyfer perfformiad llwyddiannus yn y swydd, yn seiliedig ar ddadansoddiad o swydd.  Mae’r cymwysterau/safonau galwedigaethol yn cynnwys disgrifiad o’r alwedigaeth a rhestr o gymwyseddau, ac yn nodi ffyrdd o asesu.  Maent hefyd yn diffinio’r sgiliau sydd eu hangen, fel iaith a chymhwysedd digidol.  Nid ydynt yn nodi sut y bydd cymwyseddau’n cael eu caffael – y darparwr dysgu sy’n ymgymryd â’r elfennau hyn.  Mae dysgwyr galwedigaethol mewn cymwysterau galwedigaethol uwchradd uwch yn gweithio tuag at dystysgrif gadael ysgol gyffredinol a galwedigaethol.  Mae’r cymhwyster galwedigaethol hefyd yn rhagnodi

[69] Vocational Qualifications in an International Perspective, OECD, Mehefin 2023
[70] ibid

rhai cymwyseddau academaidd, fel hyfedredd yn y Saesneg a sgiliau digidol. Yn Estonia, mae 500-600 o gymwysterau galwedigaethol ar bob lefel.

Yn Sweden, dim ond 12 cymhwyster galwedigaethol posibl y mae addysg alwedigaethol uwchradd uwch yn eu cynnig ac mae tua 4-5 arbenigedd ar gyfer pob cymhwyster. Mae’r Cyngor Cenedlaethol yn nodi’r amcanion a’r tasgau cyffredinol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol uwchradd uwch, gan gynnwys y gwerthoedd sy’n sail i addysgu. Y Senedd sy’n penderfynu ar y rhaglenni uwchradd uwch a’r meysydd astudio craidd sy’n gyffredin ar draws pob sefydliad. Mae'r Asiantaeth Genedlaethol dros Addysg yn penderfynu ar bynciau i'w cynnwys mewn rhaglenni uwchradd uwch ac yn gosod nodau addysgu. Mae Cynghorau Cenedlaethol yn darparu cyngor ar gynnwys, ac oherwydd mai dim ond 40 o arbenigeddau sydd, caiff cymwyseddau galwedigaethol eu diffinio’n fras. Ar gyfer addysg alwedigaethol ôl-uwchradd, mae gan ddarparwyr ryddid wrth ddatblygu rhaglenni cyhyd â’u bod yn glynu wrth fframwaith yr Ordinhadau Addysg Alwedigaethol Uwch. Diffinnir sgiliau trawsbynciol fel amcanion lefel uchel, gyda darparwyr yn gyfrifol am eu gweithredu.

Mae rhai gwledydd yn caniatáu i ddarparwyr dysgu addasu rhaglenni mewn ymateb i anghenion lleol. Mae ymreolaeth leol yn cynyddu perthnasedd y cymhwyster i’r farchnad lafur leol, ond nid i’r farchnad lafur genedlaethol o reidrwydd. Mae addasu cynnwys rhaglenni i anghenion lleol fel arfer yn gofyn am gydweithio rhwng darparwyr dysgu a chyflogwyr lleol.

Mae gan Gymru ddewis eang o gymwysterau galwedigaethol, a gall gwahanol gyrff dyfarnu gynnig cymwysterau galwedigaethol tebyg. O safbwynt rhanddeiliaid, ystyrir bod hyn yn gadarnhaol, gan ganiatáu dewis o gymwysterau galwedigaethol yn unol â gofynion cenedlaethol a rhanbarthol, ffocws ar arbenigeddau penodol, a’r gallu i ddewis cymhwyster sy’n gweddu orau i garfannau dysgwyr.

Mae’r rhan fwyaf o gyrff dyfarnu yn y DU yn pennu cymwysterau galwedigaethol yn eithaf manwl, gan gynnwys nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad yn gyffredinol ac, ar gyfer unedau penodol, y cynnwys a’r trefniadau asesu. Mewn llawer o achosion, darperir adnoddau ychwanegol, gan gynnwys dogfennau ategol, cynlluniau aseiniadau, a chynlluniau marcio.

Mae’n ofynnol i gymwysterau galwedigaethol a ddefnyddir ar fframweithiau prentisiaeth Cymru fod yn seiliedig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, yn ogystal â chymwysterau galwedigaethol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn cael eu datblygu gan Sefydliadau Gosod Safonau sy’n ymgynghori â chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill ar draws pob un o wledydd y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon). Maent yn cael eu datblygu fel mesurau cymhwysedd unigol ac yn cael eu grwpio mewn Cyfresi sy’n nodi i ba sector y maent yn berthnasol. Mae tua 900 o gyfresi ar hyn o bryd, a bron i 23,000 o safonau ar wahân, sy’n cwmpasu ystod eang o sectorau. Mae adborth gan

gyflogwyr a darparwyr yn ystod yr adolygiad hwn yn dangos bod defnyddio Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn bwysig o ran cysondeb canlyniadau. Mae cyrff dyfarnu yn defnyddio Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol wrth gynllunio a datblygu eu cymwysterau.

Mae Lloegr wedi mabwysiadu 'safonau galwedigaethol' newydd. Mae nifer o wahaniaethau rhwng Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a Safonau Galwedigaethol, gan gynnwys:

- Mae Safonau Galwedigaethol yn ymwneud â rolau cyfan; mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn ymwneud â swyddogaethau penodol, a defnyddir grwpiau i ddiffinio galwedigaethau cyfan
- Caiff Safonau Galwedigaethol eu harwain gan gyflogwyr; caiff Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol eu datblygu gydag arbenigedd galwedigaethol cyrff cynrychioliadol
- Caiff Safonau Galwedigaethol eu datblygu ochr yn ochr â chynlluniau asesu
- Mae Safonau Galwedigaethol yn ystyried bod ymddygiadau'n hanfodol i fod yn gymwys mewn safonau galwedigaethol; mae Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn ystyried sgiliau a gwybodaeth

Nid yw'n glir i ba raddau y mae gwahaniaeth rhwng Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a'r Safonau yn Lloegr. Hyd yma, nid oes unrhyw waith sylweddol wedi'i wneud i gymharu a chyferbynnu. Mae barn y bydd cydnawsedd yn y rhan fwyaf o achosion, gan fod y ddau'n cynrychioli anghenion sgiliau cyflogwyr. Fodd bynnag, mae Cymwysterau Cymru wedi nodi risg, os bydd gwahaniaethau sylweddol yn dod i'r amlwg, y bydd hyn yn cynyddu'r gost o ddatblygu, addasu a darparu cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru.

Roedd digwyddiad i randdeiliaid wedi ystyried a ddylai safonau galwedigaethol gynnwys ymddygiad, fel y cyfeirir ato ym mhennod 3. Roedd y safbwyntiau'n amrywio, gyda mwyafrif bach yn meddwl ei fod yn 'bwysig neu'n bwysig iawn'. Datgelodd archwiliad pellach fod nifer isel o ymatebwyr yn teimlo y dylid integreiddio ymddygiadau i gymwysterau galwedigaethol, gyda'r mwyafrif yn credu y gellid eu hintegreiddio orau i'r rhaglenni dysgu ehangach ac yn benodol, i elfennau gweithle'r rhaglen ddysgu. Mae hyn yn golygu y gellir addasu a theilwra elfen dysgu cymunedol a ffocws ar y diwydiant y rhaglen ddysgu i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol, ac nad oes unrhyw gyfarwyddyd ynghylch darparu ac asesu sgiliau neu ymddygiadau o'r fath.

**Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau o ran cysondeb rhwng Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a Safonau Galwedigaethol yn Lloegr.**

I grynhoi rhai o'r canfyddiadau allweddol o'r uchod, gallwn felly weld:

- Bod cynnwys cymwysterau galwedigaethol yn amrywio, o ran gwybodaeth a sgiliau, sut mae'r rhain yn cael eu darparu, a threfniadau asesu

- Bod nifer y cymwysterau galwedigaethol ym mhob gwlad yn amrywio’n sylweddol

**4.6 A yw dysgu yn y gwaith/yn y gweithle yn nodwedd o’r holl gymwysterau galwedigaethol neu raglenni dysgu?**

Mewn rhai gwledydd, mae dysgu yn y gweithle yn rhan hanfodol o addysg a hyfforddiant galwedigaethol, a/neu gymwysterau. Yn Nenmarc a’r Swistir, darperir bron pob rhaglen addysg a hyfforddiant galwedigaethol uwchradd uwch fel prentisiaethau. Mae rhaglenni a ddarperir yn bennaf mewn ysgolion yn cynnwys cyfnodau llawer byrrach o ddysgu yn y gweithle ac yn yr achosion hyn, y nod yw ymgyfarwyddo myfyrwyr â'r amgylchedd gwaith a darparu'r sgiliau penodol sydd eu hangen mewn galwedigaeth sy'n anodd eu haddysgu mewn ystafell ddosbarth neu mewn gweithdy ysgol.

Ar gyfer addysg alwedigaethol uwchradd uwch, mae lleoliad gwaith yn orfodol yn Sweden (13% o amser rhaglen cyffredinol o 15 wythnos), y Ffindir (20% o amser rhaglen neu 6 mis) a'r Iseldiroedd (20% o amser rhaglen). Yn Estonia, rhaid i 35% o’r rhaglen fod yn seiliedig ar waith, ond diffinnir hyn fel cymysgedd o hyfforddiant ymarferol mewn ysgolion a lleoliad gwaith gyda chyflogwr. Yn Awstralia a Korea, mae’n ddewisol. Ar gyfer addysg alwedigaethol ôl-uwchradd, mae’r trefniadau’n amrywio yn dibynnu ar y math o raglenni sy’n cael eu dilyn a’u hyd.

Yng Nghymru, mae dulliau gwahanol o ddysgu seiliedig ar waith neu ddysgu yn y gweithle. Caiff prentisiaid eu cyflogi ac felly maent yn treulio’r rhan fwyaf o’u hamser yn eu gweithle. Nid yw’r cydbwysedd rhwng hyfforddiant ‘yn y gwaith’ a’r ‘tu allan i’r gwaith’ (hynny yw, ‘ystafell ddosbarth neu weithdy’) yn cael ei bennu ar lefel genedlaethol, ac mae’r hyfforddiant a ddarperir ‘mewn ystafell ddosbarth/gweithdy’ yn amrywio yn ôl darparwr dysgu a’r cymhwyster galwedigaethol sy’n cael ei ddilyn.

I ddysgwyr ar rai cymwysterau galwedigaethol penodol, mae profiad sy’n gysylltiedig â gwaith yn rhan hanfodol o’r cymhwyster – er enghraifft, ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ffyrdd eraill o integreiddio lleoliadau gwaith i raglenni dysgu, sy’n denu cyllid cyhoeddus:

‘Rhagor o ddysgu yn y gweithle’: mae hyn ar gyfer nifer cyfyngedig o raglenni, lle dylid cyflawni’r elfen gweithle yn y sector galwedigaethol sy’n berthnasol i’r cymhwyster galwedigaethol. Mae 320 o ddysgwyr ar y rhaglenni hyn yn 2022/23.

‘Rhaglenni uwch’: dim ond ym meysydd peirianneg a thechnoleg gwybodaeth y mae’r rhaglenni hyn ar gael. Maent yn rhaglenni mwy na’r rhan fwyaf o ran Oriau Dysgu dan Arweiniad, gydag elfen sylweddol yn y gwaith, ac mae 815 o ddysgwyr wedi cofrestru ar y rhaglenni hyn yn 2022/23.

Rhaglenni’r 'Gronfa Arloesi': mae rhan o gronfa arloesi Llywodraeth Cymru yn targedu rhaglen sy'n ei gwneud hi’n bosib cysylltu gweithgaredd lleoliad gwaith â rhaglenni academaidd neu alwedigaethol nad oes ganddynt brofiad gwaith gorfodol ar hyn o bryd. Rhaid i’r lleoliad gwaith fod yn berthnasol i’r cwrs y mae’r dysgwr yn ei ddilyn.

Mae Lloegr wedi cyflwyno lleoliad gwaith gorfodol i gymwysterau Lefel T. Mae disgwyl i ddysgwyr gyflawni tua 315 awr neu 45 diwrnod o leoliad gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae adborth cynnar wedi datgelu rhai anawsterau o ran cael lleoliadau gwaith i bob dysgwr ac mae buddsoddiad sylweddol wedi’i wneud i helpu cyflogwyr i gymryd dysgwyr.

Canfu adroddiad Beaufort[71] fod dysgwyr nad oeddent yn gwneud prentisiaethau yn awyddus i gael rhagor o gyfleoedd ar gyfer profiad gwaith. Prif fantais profiad gwaith, meddai rhai, oedd paratoi dysgwyr yn well ar gyfer y gweithle ac y byddai hynny yn ei dro yn cynyddu eu hyder. Roedd disgwyl y byddai hefyd yn helpu i’w hwyluso i fyd gwaith oherwydd byddai rhai agweddau’n gyfarwydd ar ôl y profiad gwaith, ac yn eu helpu i benderfynu ai dyma’r proffesiwn iawn iddyn nhw.

[71] Vocational qualifications: learners' experiences and perceptions - Qualitative research findings, Beaufort Research, Ebrill 2023

*'Byddai'n ein paratoi'n well pan fyddwn ni'n mynd ymlaen mewn bywyd ac yn cael swydd go iawn. Byddai'n llawer haws a byddai'n cymryd llawer mwy o bwysau oddi arnom ni, a byddai gennym ni'r profiad felly bydden ni'n fwy hyderus hefyd'.*

*(Dysgwr chweched dosbarth)*

Mae lleoliad gwaith yn rhan werthfawr o ddysgu, a gall ddatblygu sgiliau ac ymddygiadau a all fod o fudd i ddysgwyr. Mae cyflogwyr, yn eu hadborth, wedi dweud mai un fantais ychwanegol yw 'gweld talent' ac mewn rhai achosion, maent wedi cyflogi dysgwyr fel prentisiaid yn dilyn lleoliad gwaith llwyddiannus.

Yn ôl yr adborth, mae'n well gan y rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu gynnwys lleoliad gwaith mewn cymwysterau galwedigaethol. Fodd bynnag, mae darparwyr dysgu hefyd yn deall yr heriau o ddarparu hyn yn gyson. Maent yn cydnabod yr angen i sicrhau bod lleoliadau gwaith yn ddigonol ac o ansawdd digonol i bob dysgwr os caiff lleoliad gwaith ei wneud yn rhan orfodol o gymwysterau galwedigaethol. Ar hyn o bryd, nid ydym o'r farn bod digon o gyflogwyr yn y sectorau iawn yn yr ardaloedd daearyddol iawn i hwyluso lleoliadau gwaith gorfodol i bob dysgwr yn yr alwedigaeth o'i ddewis, ac rydym yn cydnabod bod hyn yn un o'r heriau ym model Lloegr ar hyn o bryd.

Bydd thema drawsbynciol Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn y Cwricwlwm i Gymru yn adnodd paratoadol defnyddiol ar gyfer lleoliadau gwaith ôl-16. O ystyried y gwahanol ffyrdd y gellir darparu lleoliad gwaith mewn rhaglenni dysgu, mae darparwyr yn ystyried bod pob model neu leoliad gwaith sydd ar gael ar hyn o bryd o werth. Mae darparwyr dysgu hefyd yn credu y dylid cydnabod dysgwyr am gyflawni lleoliadau gwaith yn llwyddiannus, a byddent yn croesawu datblygiad cymhwyster sy'n ardystio eu 'parodrwydd am waith' a ddangosir drwy eu lleoliad gwaith. Byddai hyn yn cynnwys ardystio sgiliau 'parod am waith' cyffredinol fel prydlondeb, presenoldeb, agwedd, a blaengaredd beth bynnag fo'r llwybr galwedigaethol.

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn cyfleoedd lleoliadau gwaith i bob dysgwr lefel 3 lle nad yw leoliad gwaith yn rhan orfodol o'u cymhwyster.**

**Argymhelliad 11: Dylai Cymwysterau Cymru edrych ar y cyd â rhanddeiliaid ar y ffordd orau o gydnabod dysgu generig yn y gweithle.**

### 4.7 Sut mae trefniadau asesu yn gweithio mewn gwahanol wledydd?

Yn yr un modd â manyleb cynnwys y cwricwlwm, mae manyleb y trefniadau asesu yn gweithio'n wahanol mewn gwahanol wledydd. Yn Awstralia, mae canllawiau

asesu manwl wedi'u cynnwys gyda'r cymhwyster, mae asesiadau'n cael eu cynnal ar gyfer pob uned gymhwysedd ar wahân, ac maent yn cael eu gweithredu'n lleol gan ddarparwyr hyfforddiant. Yn Nenmarc a'r Swistir (uwchradd uwch), mae canllawiau neu reolau asesu manwl yn cael eu sefydlu gyda'r cymhwyster. Yn Nenmarc, caiff asesiadau eu trefnu gan ddarparwyr a phwyllgorau hyfforddi lleol, Yn y Swistir, caiff asesiadau eu cynnal gan gyrff annibynnol.

Yn Sweden, caiff meini prawf asesu eang, gan gynnwys meini prawf graddio, eu diffinio, gyda'r asesiad terfynol yn cael ei gynnal yn lleol, ond yn Estonia, mae ysgolion yn ymgymryd â'r asesiad sy'n arwain at y dystysgrif gadael ysgol a'r cyrff dyfarnu sy'n rheoli (drwy bwyllgorau asesu) yr asesiad sy'n arwain at y cymhwyster galwedigaethol. Mae rhai ysgolion wedi cyfuno'r ddau asesiad hyn ac mae ganddynt hawl i gyflwyno'r dystysgrif cymhwyster galwedigaethol. Gall rhai sefydliadau addysg uwch a galwedigaethol fod yn gyrff dyfarnu ar gyfer cymwysterau sy'n deillio o'u rhaglenni astudio eu hunain. Yn y Ffindir, caiff sgiliau galwedigaethol eu hasesu'n bennaf yn y gweithle, ar gyfer pob modiwl sy'n cael ei gwblhau, a hynny gan addysgwr a chynrychiolydd gweithle.

Fel rhan o waith a gomisiynwyd i ymchwilio i 'lais y dysgwr', holodd Beaufort Research y dysgwyr am eu hagweddau at wahanol ddulliau asesu. Roedd dysgwyr yn ffafrio amrywiaeth o fathau o asesiadau oherwydd byddai rhai asesiadau'n fwy addas i rai dysgwyr nag eraill.

> *'Mae'n fwy teg hefyd, dydy? Mae gan bawb eu cryfderau a'u gwendidau, mae rhai pobl yn perfformio'n dda mewn asesiadau fel hynny ac mae rhai pobl yn perfformio'n dda mewn arholiadau. Felly rydych chi'n darparu ar gyfer pawb mewn ffordd, mae ganddyn nhw gyfle i ddangos beth maen nhw'n gallu ei wneud go iawn'.*
>
> *(Dysgwr AB)*

Roedd hi'n well gan y rhan fwyaf o ddysgwyr waith cwrs neu aseiniadau ysgrifenedig yn hytrach nag arholiadau, ac roedd rhai wedi dewis gwneud cymhwyster galwedigaethol am y rheswm hwn. Prif fanteision canfyddedig y math hwn o asesiad oedd bod ganddynt gyfnod estynedig i gwblhau aseiniad ac nad oedd eu llwyddiant yn dibynnu ar eu cof. Fodd bynnag, gall y mathau hyn o asesiadau beri heriau o ran dilysrwydd cynhyrchu. Ystyrir bod arferion lle mae dysgwyr yn defnyddio offer artiffisial i gynhyrchu gwaith yn fwy cyffredin nag o'r blaen, ac yn yr achosion hyn nid ydynt yn cynrychioli cyflawniad dysgwyr.

Yn gyffredinol, roedd y dysgwyr yn fwyaf negyddol ynghylch arholiadau ysgrifenedig traddodiadol ac nid oeddent yn cael eu hystyried yn gynrychiolaeth dda o'r hyn y gallai dysgwr ei wneud. Ystyriwyd mai'r math hwn o asesiad oedd y lleiaf defnyddiol i'r gweithle neu i 'fywyd go iawn'. Fodd bynnag, roedd hi'n well gan nifer fach o ddysgwyr arholiadau oherwydd y teimlad o gyflawniad os oeddent yn gwneud yn

dda.  Roedd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwerthfawrogi cael cymorth pellach gydag arholiadau naill ai drwy gael cynorthwywyr addysgu i helpu gyda darllen y cwestiynau neu amser ychwanegol.  Mynegodd darparwyr dysgu bryder ynghylch y cynnydd yng nghyfran yr arholiadau ac elfennau ysgrifenedig hir yn y cymwysterau galwedigaethol newydd *wedi'u gwneud i Gymru*.

Roedd rhai dysgwyr yn credu mai asesiadau ymarferol neu asesiadau seiliedig ar waith oedd yr adlewyrchiad tecaf a mwyaf cywir o'r hyn roeddent wedi'i ddysgu, ac a oeddent wir yn deall y pwnc.  Gallu cymhwyso'r hyn a ddysgwyd oedd y sgil fwyaf gwerthfawr yn eu barn nhw, felly roedd rhai dysgwyr am gael asesiadau mwy ymarferol neu seiliedig ar waith yn eu cyrsiau.

> *'Gyda'r gweithle'n cael ei asesu, mae'n dangos nad yw'r wybodaeth rydych chi'n ei dysgu ar bapur yn cael ei chofio yn eich pen yn unig, fe allech chi ei defnyddio mewn bywyd go iawn a'ch bod yn gwybod sut i wneud hynny. Oherwydd byddai llawer o bobl yn astudio rhywbeth, ond o ran ei ddefnyddio mewn bywyd go iawn, maen nhw'n tagu ac nid ydyn nhw'n gwybod beth i'w wneud. Felly, dwi'n meddwl ei bod hi'n dda cael eich asesu ar ddefnyddio eich gwybodaeth eich hun'.*
>
> *(Dysgwr chweched dosbarth)*

I'r rhai sy'n gwneud asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, roedd hyblygrwydd yn allweddol.  Roeddent yn credu ei bod yn deg iddynt beidio â chael eu cosbi pe bai'n rhaid iddynt ddefnyddio ychydig o dermau Saesneg os nad oeddent yn gallu meddwl am y gair Cymraeg yn yr asesiadau – gallai hyn fod yn ganfyddiad o'r hyn a allai ddigwydd yn hytrach na realiti yn ymarferol. Mewn rhai achosion, roeddent am allu cwblhau rhai asesiadau yn Gymraeg a rhai yn Saesneg, yn dibynnu ar y pwnc.

Tynnodd y cyfranogwyr sylw at y ffaith bod yr amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer asesu dan reolaeth yn cyfyngu ar yr amser sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu, ac roeddent yn cwestiynu a fyddai modd cwblhau'r tasgau rheoledig yn amser y dysgwyr, heb amodau rheoledig. Nodwyd y byddai hyn hefyd yn cefnogi dysgwyr sy'n cael trafferth gyda'r pwysau o weithio o dan yr amodau rheoledig, sydd eto'n ofyniad mewn asesiad sy'n llawer mwy tebyg i gymwysterau Safon Uwch na chymwysterau galwedigaethol.

Fodd bynnag, mae amodau rheoledig yn lliniaru yn erbyn rhai o'r risgiau a nodwyd yn yr asesiad o waith cwrs.  O safbwynt darparwr dysgu, y mater allweddol yw na ddylai asesu dan reolaeth amharu'n ormodol ar amser addysgu a dysgu.

Elfen ganolog o asesu cadarn yw deall pwrpas y cymhwyster a sicrhau bod y fethodoleg asesu yn gwerthuso cymwyseddau, sgiliau a gwybodaeth yn ddigonol

mewn perthynas â'r diben.  Mae Cymwysterau Cymru eisoes yn ystyried meini prawf ar gyfer cymeradwyo cymwysterau galwedigaethol.  Mewn rhai achosion, maent yn gosod y drefn asesu, ac mewn eraill, mae prosesau asesu'n cael eu hadolygu fel rhan o adolygiadau sector.

Cytunir yn gyffredinol y dylid asesu mewn gwahanol ffyrdd, yn ôl pwrpas y cymwysterau galwedigaethol.  Roedd teimlad cyffredinol y byddai'n well symud oddi wrth arholiadau neu elfennau a asesir yn allanol, ond roedd cydnabyddiaeth bod angen arholiadau mewn rhai achosion.  Y prif bryder oedd y dylai trefniadau asesu gyd-fynd â phwrpas y cymhwyster, dylent fod yn deg i bob dysgwr, a'u bod yn dangos i gyflogwyr bod gan ddysgwyr y cymwyseddau a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt.

**Argymhelliad 12: Wrth ystyried cymeradwyo cymwysterau a'r cyfundrefnau asesu yn y cymwysterau hynny, dylai Cymwysterau Cymru roi mwy o ystyriaeth i ba mor hawdd yw rheoli asesiadau, o safbwynt dysgwr a darparwr dysgu.**

### 4.8 Crynodeb

Yn y bennod hon, rydym wedi edrych ar gymwysterau galwedigaethol mewn nifer o wledydd eraill.  Ceir amrywiaeth eang o ddulliau o ymdrin ag addysg, hyfforddiant a chymwysterau galwedigaethol, ond mae rhai nodweddion sy'n fwy cyffredin, gan gynnwys:

- Ymgysylltiad cryf â rhanddeiliaid ynghylch dylunio a datblygu cymwysterau galwedigaethol, yn aml drwy strwythurau pwyllgorau sefydledig
- Strwythurau llywodraethu sy'n nodi tueddiadau galwedigaethol yn y dyfodol i lywio gofynion galwedigaethol
- Elfennau yn y gweithle sy'n cefnogi cymwysterau galwedigaethol
- Pa mor hawdd yw rheoli asesiadau

O safbwynt Cymru, rhoddodd Deddf Cymwysterau Cymru 2015 gyfleoedd inni fod yn wahanol.  Mae adolygiadau sector yn arloesol a gyda rhywfaint o waith datblygu, mae gan y grwpiau cymwysterau sector y potensial i fod yn elfen bwysig ar gyfer diogelu cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn y dyfodol.

# Pennod 5: Taith y dysgwr tuag at gymwysterau galwedigaethol ac wrth eu cyflawni

## 5.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn ystyried sut mae dysgwyr yn penderfynu pa fathau o gymwysterau i'w dilyn ar ôl iddynt droi'n 16, sut gallant gamu ymlaen i gymwysterau galwedigaethol a drwy gymwysterau galwedigaethol, a pha gyfleoedd sydd ganddynt drwy gydol eu hoes i barhau i gael gafael ar gymwysterau galwedigaethol.

Yn ystod yr adolygiad, cynhaliwyd ymchwil gyda dysgwyr – 'Vocational qualifications: learners' experiences and perceptions: *Qualitative research findings by Beaufort Research'.*[72] O fewn cyfyngiadau amser, cyfwelodd Beaufort Research 46 o ddysgwyr o wahanol leoliadau, gan gynnwys addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith (gan gynnwys prentisiaid gradd), chweched dosbarth, a dysgu oedolion a'r gymuned. Daw'r holl ddyfyniadau na chyfeirir atynt fel arall yn y bennod hon yn uniongyrchol o ymchwil Beaufort.

## 5.2 A yw dysgwyr yn deall beth yw cymwysterau galwedigaethol?

Roedd dealltwriaeth gymysg o gymwysterau galwedigaethol ymysg y dysgwyr. Nid oedd y term 'galwedigaethol' yn cael ei ddefnyddio'n eang gan ddysgwyr, ac roedd rhai'n cyfaddef eu bod wedi chwilio am y term i weld beth oedd ei ystyr. Pan ofynnwyd iddynt ar gyfer pwy mae cymwysterau galwedigaethol yn eu barn nhw, dywedodd dysgwyr yn bennaf eu bod yn fwyaf addas ar gyfer pobl a oedd naill ai'n dysgu drwy wneud neu'r rhai y mae'n well ganddynt wneud gwaith cwrs na sefyll arholiadau ysgrifenedig.

> *'Pobl sy'n well am waith cwrs nag ydyn nhw mewn profion go iawn, felly maen nhw'n well am wneud tasg ffisegol nag arholiadau ac ati'.*
>
> *(Dysgwr chweched dosbarth)*

> *'Dwi'n meddwl eu bod nhw ar gyfer pobl sydd am ddysgu mewn ffordd wahanol i'r hyn sy'n cael ei ddysgu drwy addysg brif ffrwd'.*
>
> *(Dysgwr AB)*

[72] Vocational qualifications: learners' experiences and perceptions - Qualitative research findings, Beaufort Research, Ebrill 2023

Roedd rhai dysgwyr yn credu bod canfyddiad bod cymwysterau galwedigaethol yn fwy addas ar gyfer dysgwyr â llai o allu academaidd. Roedd y dysgwyr a gyfwelwyd yn credu y byddai athrawon yn aml yn annog dysgwyr i aros yn y chweched dosbarth i astudio Safon Uwch cyn mynd i'r brifysgol, ac yn credu mai dim ond dysgwyr anacademaidd oedd yn cael eu hannog i ddilyn cymwysterau galwedigaethol.

> *'Cymhwyster galwedigaethol,' mae'n fwy i'w wneud â'r elfen ymarferol felly efallai bydd pobl o gefndiroedd llai academaidd yn cael eu denu'.*
>
> *(Dysgu seiliedig ar waith / dysgwr prentisiaethau)*

> *'Rwy'n teimlo bod BTECs yn llai gwerthfawr na Safon Uwch yn llygaid rhai pobl, felly rwy'n teimlo bod llawer o bobl yn yr ysgol uwchradd yn mynd ymlaen i wneud Safon Uwch oherwydd eu bod yn ofni y bydd BTEC yn cael ei ystyried yn llai gwerthfawr pan fyddant yn gwneud cais i brifysgolion ac ati. Rwy'n teimlo y byddai tynnu'r stigma hynny mewn rhyw ffordd yn help mawr i ddisgyblion Blwyddyn 11'.*
>
> *(Dysgwr AB)*

Roedd dysgwyr o bob sector yn cyfeirio at eu cymhwyster yn ôl math neu lefel, er enghraifft BTEC, prentisiaeth neu lefel 3, 4 neu 5 – nid oedd yr un ohonynt yn dweud y byddent yn cyfeirio at eu cymhwyster fel cymhwyster galwedigaethol.

Roedd y rhaniad academaidd/galwedigaethol canfyddedig a nodwyd gan ddysgwyr yn thema sy'n codi dro ar ôl tro mewn cyfweliadau ehangach â rhanddeiliaid. Roedd adborth gan ddarparwyr dysgu yn aml yn cyfeirio at y 'tensiynau cystadleuol' rhwng gwahanol ddarparwyr dysgu – a chred aflonyddol gan rai bod rhai grwpiau o ddysgwyr 'ddim yn addas' ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, ac felly nad oedd angen iddynt gael gwybodaeth am ddewisiadau cymwysterau galwedigaethol. Mae llawer o ddarparwyr dysgu wedi dweud yn gryf bod angen inni ddod o hyd i ffordd o hyrwyddo addysg a hyfforddiant galwedigaethol fel llwybr deniadol a gwerthfawr i bob dysgwr. Ni ddylem reoli mynediad at addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn seiliedig ar gofnod academaidd.

Mae anghysondeb o hyd o ran agwedd a dulliau ymarferol o hyrwyddo addysg a hyfforddiant galwedigaethol ôl-16, er bod llawer o enghreifftiau o arferion da a chydweithio rhagorol rhwng darparwyr dysgu mewn sawl maes.

**Ysgol Uwchradd Fitzalan: gwybodaeth i ddisgyblion a staff**

Mae Ysgol Uwchradd Fitzalan yn cynhyrchu Llawlyfr Galwedigaethol sy'n cael ei gyhoeddi ar ei gwefan. Mae'n cwmpasu Cyfnodau Allweddol 3, 4 a 5. Cafodd ei gwricwlwm ei ganmol gan Estyn yn 2016 am ei 'ystod eang o opsiynau pwnc yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, gan gynnwys amrywiaeth eang o gymwysterau galwedigaethol'. Mae'r Llawlyfr yn darparu gwybodaeth am y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael ar wahanol lefelau, sut maent yn cael eu graddio, a sut mae pynciau lefel 3 yn cyfrannu at bwyntiau UCAS.

Yn ei phrosbectws chweched dosbarth, mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth i'w disgyblion am yr holl bynciau sydd ar gael – Safon Uwch a galwedigaethol. Mae'r disgrifyddion galwedigaethol yn cynnwys cyfwerthedd i Safon Uwch, dewis unedau a chyfleoedd gyrfa.

Fodd bynnag, wrth ddychwelyd at ddysgwyr ar raglenni galwedigaethol, roedd y rhan fwyaf yn credu bod y canfyddiad bod cymwysterau galwedigaethol ar gyfer pobl llai academaidd yn anghywir ac yn gamarweiniol ar ôl iddynt ddechrau ar eu cymwysterau galwedigaethol. Er eu bod yn credu bod barn allanol nad oedd gan gymwysterau galwedigaethol yr un parch cydradd â chymwysterau Safon Uwch, roedden nhw eu hunain yn meddwl yn uchel iawn o'u cymwysterau.

Mae'r term 'cyflawni parch cydradd rhwng cymwysterau academaidd a galwedigaethol' yn un cyfarwydd, ac yn un sydd wedi bod yn bos ers blynyddoedd lawer. Un o'r sylwadau mwyaf trawiadol a wnaed yn ystod yr adolygiad hwn oedd 'nid yw parch cydradd yn gysyniad athronyddol – mae'n brofiad bywyd', ac mewn cymdeithas sy'n ceisio bod yn gynhwysol ac yn gyfartal, mae hynny'n bryder allweddol, yn enwedig o ystyried y sylwadau gan ddysgwyr. Ni ddylem fod yn creu brwydr 'cymwysterau academaidd yn erbyn cymwysterau galwedigaethol' mewn bywyd a gwaith heddiw – mae angen y cydbwysedd cywir o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau arnom.

Felly, mae hyn yn arwain at y cwestiwn – pam *ydyn* ni'n gwahaniaethu rhwng cymwysterau academaidd a galwedigaethol? Mewn rhai gwledydd, ceir gwahaniaethu pellach: technegol, cymhwysol, proffesiynol – terminoleg sy'n categoreiddio cymwysterau ymhellach. Efallai fod y derminoleg ddeuaidd hon rydym yn ei defnyddio yn fwy defnyddiol i'r rhai sy'n ymwneud â threfnu a darparu addysg na'r rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant. Dylem fod yn falch o addysg, hyfforddiant a chymwysterau galwedigaethol, a'r cyfleoedd y maent yn arwain atynt. Dylem fod yn

falch o gyflawni'r holl gymwysterau, a gwerthfawrogi'r gwahanol broffesiynau y mae cymwysterau'n eu caniatáu. Felly pam ydyn ni'n gwahaniaethu o gwbl? Beth am ddefnyddio terminoleg sy'n cyfeirio at bynciau, sgiliau neu lwybrau galwedigaethol? Beth am ystyried sut rydym yn diffinio lefelau cymwysterau, er mwyn adnabod llwybrau cynnydd gwahanol? Byddai hyn yn sicr yn gliriach o safbwynt dysgwr a chyflogwr.

Os nad ydym yn gwneud hynny, mae angen neges unedig, gyson ac uchel arnom sy'n hyrwyddo addysg, hyfforddiant a chymwysterau galwedigaethol, a ffocws pendant ar gyflenwi dysgwyr, rhieni a chymdeithas ehangach a neges sy'n *gwerthfawrogi* cymwysterau galwedigaethol, ac yn wir yn hybu gwerth cymwysterau galwedigaethol.

**Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a Chymwysterau Cymru ystyried y derminoleg a ddefnyddir mewn cysylltiad â chymwysterau, a sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i nodi ffyrdd o gryfhau'r gwaith hyrwyddo, a chodi ymwybyddiaeth o werth addysg, hyfforddiant a chymwysterau galwedigaethol, i ddysgwyr a chyflogwyr.**

**Argymhelliad 14: O ystyried y gostyngiad a welwyd dros y pum mlynedd diwethaf yn nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol, mae Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ystyried a yw'r duedd hon yn cyd-fynd â gofynion y farchnad lafur a sgiliau ar gyfer y dyfodol ac yn nodi camau gweithredu pe bai angen hynny.**

### 5.3 I ba raddau mae dysgwyr yn mwynhau cymwysterau galwedigaethol?

Roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr a gyfwelwyd yn fodlon ar y cymwysterau galwedigaethol yr oeddent yn eu dilyn. Roedd y dysgwyr yn mwynhau'r agweddau ymarferol ar ddysgu yn benodol. Roedd prentisiaid yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn gallu cymhwyso'r theori a'r modelau roeddent wedi'u hastudio yn eu gwaith cyflogedig. Roedd hyn yn helpu i atgyfnerthu gwerth y cymhwyster ac yn eu galluogi i rag-weld sut gallent gamu ymlaen yn broffesiynol oherwydd eu bod yn dilyn y cwrs.

> *'Rydw i'n mwynhau dysgu elfennau cyfreithiol y diwydiant, ac mae hynny'n rhoi llawer iawn o hyder i fi a dwi'n mwynhau hynny, a theorïau a modelau a bob math o bethau, a'u defnyddio yn eich tasgau bob dydd'.*
>
> *(Prentis)*

Roedd y dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a gawsant gan eu hathrawon, eu tiwtoriaid, eu cyfoedion ac, yn ôl prentisiaid, eu cyd-weithwyr. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth ac y byddai help ar gael yn

gymharol gyflym.  Roedd tiwtoriaid cefnogol yn arbennig o bwysig i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

> *'Rydw i hefyd yn ddyslecsig ac roedd y cymorth rydw i wedi'i gael yn well na ches i erioed yn y coleg neu'r ysgol... rydw i wedi cael cymorth diddiwedd, negeseuon e-bost, neu alwadau ffôn neu negeseuon testun os oedd angen i mi egluro rhywbeth nad oeddwn i'n gallu ei ddarllen neu ei ddeall yn iawn'.*
>
> *(Dysgwr sy'n oedolyn)*

Roedd dysgwyr hefyd yn teimlo eu bod yn elwa ar y canlynol:

- hyder uwch
- gwell dealltwriaeth o'r diwydiant a'r sectorau cysylltiedig
- sgiliau trosglwyddadwy
- cyfleoedd i fynd yn syth i broffesiwn ac ennill incwm yn gynt, yn enwedig yr opsiwn i 'ennill wrth ddysgu' a gynigir gan lwybrau prentisiaeth

### 5.4 Sut mae dysgwyr yn dewis dilyn cymhwyster galwedigaethol yn 16 oed?

Yn ystod eu blynyddoedd ysgol – yn enwedig yn ystod blynyddoedd 9-11 – mae dysgwyr yn cael amrywiaeth o gyngor ac arweiniad ar yrfaoedd.  Gall hyn fod ar sawl ffurf ac mae'n cynnwys cyngor unigol gan Gyrfa Cymru, sgyrsiau gan gyflogwyr, a sesiynau blasu gan ddarparwyr ôl-16 i alluogi disgyblion i gael profiad o ddysgu mewn meysydd a allai fod yn newydd iddynt.

Mae'r Mesur Dysgu a Sgiliau (2009) yn cydnabod y dylai'r cyngor a roddir i ddysgwyr fod yn ddiduedd ac y dylai fod er lles gorau'r unigolyn.  Mae 'Cenhadaeth ein Cenedl' yn datgan y bydd Llywodraeth Cymru 'yn mynd i'r afael â'r 'bwlch dyheadau', gan weithio gydag ysgolion, colegau, prifysgolion, Gyrfa Cymru a busnesau i godi ymwybyddiaeth o'r byd gwaith a'r dewisiadau gyrfa amrywiol sydd ar gael'.[73]

Canfu adroddiad Estyn ar 'Gwricwlwm 16-19'[74] ym mis Hydref 2022 fod dewis dysgwyr yn 16 oed 'yn cael ei ddylanwadu gan ansawdd y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad a gânt am yr opsiynau yn eu hardal leol, a'r llwybrau mae'r rhain yn eu darparu ar gyfer addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn y dyfodol. …...mae gormod o amrywiad o hyd yn ansawdd addysg gyrfaoedd ac addysg yn

gysylltiedig â gwaith, a chyngor ac arweiniad diduedd i gynorthwyo'r holl ddysgwyr

---

[73] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/3/2/1679399733/cenhadaeth-ein-cenedl-safonau-dyheadau-uchel-i-bawb.pdf

[74] https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-10/Adolygiad%20o%E2%80%99r%20cwricwlwm%2016-19%20presennol%20yng%20Nghymru_0.pdf

mewn ysgolion yn llawn wrth wneud dewisiadau am eu hopsiynau addysg a

hyfforddiant yn y sector ôl-16’.

Canfu Estyn fod y rhan fwyaf o ysgolion sydd â’u chweched dosbarth eu hunain yn rhoi gwybodaeth fanwl i ddysgwyr am y cyrsiau sydd ar gael yn y chweched dosbarth, gan gynnwys y dewisiadau sydd ar gael fel rhan o drefniadau partneriaeth lleol.  Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth, os o gwbl, am ddewisiadau eraill ar bob lefel neu’r cyfleoedd prentisiaeth sydd ar gael drwy ddarparwyr dysgu lleol eraill a oedd yn cael ei ddarparu fel mater o drefn. Canfuwyd nad oes digon o sylw’n cael ei roi i lwybrau dysgu amgen ar wahân i aros ymlaen yn y chweched dosbarth, yn enwedig os disgwylir i ddysgwyr gyflawni’n dda yn academaidd yn eu TGAU.  Mae dysgwyr yn teimlo y dylent gael cyfle i gwrdd â chynrychiolwyr o ddarparwyr eraill i’w galluogi i werthuso’r holl ddewisiadau sydd ar gael, p’un a bod gan yr ysgol ei chweched dosbarth ei hun ai peidio. Lle mae ysgolion sydd â’u chweched dosbarth eu hunain yn caniatáu i gynrychiolwyr ddod i’r ysgol i gwrdd â grwpiau o ddysgwyr sy’n astudio ym Mlwyddyn 11, canfu Estyn fod hyn weithiau wedi’i gyfyngu i gwrdd â grwpiau penodol o ddysgwyr sy’n annhebygol o symud ymlaen i’w chweched dosbarth yr ysgol ei hun.

Ategir y safbwyntiau hyn gan yr ymchwil a wnaed gan Beaufort.  Rydym eisoes wedi cydnabod bod dealltwriaeth gymysg o gymwysterau galwedigaethol, bod gan ddysgwyr ganfyddiadau gwahanol o werth addysg alwedigaethol, a bod dysgwyr yn credu bod dysgwyr mwy ‘anacademaidd’ yn cael eu hannog i ddilyn addysg alwedigaethol. Roedd rhai o’r farn bod cymwysterau galwedigaethol hefyd yn ddewis da i ddysgwyr nad oeddent yn siŵr beth yn union yr oeddent am ei wneud yn y dyfodol.

> *‘Dwi’n credu eu bod yn bynciau da i’w gwneud os nad ydych chi’n gwybod yn union at beth rydych chi’n anelu, y rhan fwyaf o yrfaoedd, felly mae’n bwnc da i’w astudio oherwydd mae’n rhoi gwybodaeth gefndir i chi a allai eich helpu gyda nyrsio neu addysgu neu unrhyw yrfa yn y bôn’.*
>
> *(Dysgwr chweched dosbarth)*

Mae anghysondeb yn y dull gweithredu rhwng darparwyr dysgu o ran cyngor ac arweiniad, ac yn wir, gwahaniaeth yn y dull o roi cyngor ac arweiniad o fewn darparwyr dysgu.  Mae dysgwyr sydd eisoes ar lwybr ‘pwnc’ yn llai tebygol o gael y cyngor eang sy’n bodoli ac mae canfyddiad Estyn y gellir cyfyngu ar fynediad at ddewisiadau eraill heblaw’r chweched dosbarth yn bryder gwirioneddol.

Gofynnwyd i ddysgwyr sut byddent yn annog dysgwyr yn y dyfodol i ystyried dilyn cymwysterau galwedigaethol.  Roedd y ffactorau allweddol yr oedd dysgwyr yn credu eu bod yn bwysig yn ymwneud â negeseuon am ddefnyddioldeb cymwysterau galwedigaethol

o ran cael swydd yn y dyfodol, a dysgu sgiliau ac ennill rhagor o brofiad a fydd yn helpu yn y 'byd go iawn'. Roedd dysgwyr yn credu bod cyfryngau cymdeithasol yn ffordd gyflym a hawdd o gyrraedd pobl, a gallai negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol gael eu targedu at rieni yn ogystal â'r dysgwyr eu hunain. Byddai diwrnodau agored a sesiynau rhagflas yn helpu dysgwyr i ddeall pa gyrsiau fyddai orau iddynt, ac yn dangos yr ystod o sgiliau y gallent eu hennill drwy gofrestru i ddilyn cwrs galwedigaethol.

Mae angen inni allu rhoi gwybodaeth lawn a chywir i'r *holl* ddysgwr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau. Fel y dywedodd un rhanddeiliad, 'mae dewis cwrs neu gymhwyster yn gallu effeithio ar gyfleoedd bywyd ac oni bai ein bod yn cyflwyno'r holl ddewisiadau i bob dysgwr, rydyn ni'n methu yn ein dyletswydd fel ymarferwyr ac yn pennu dyfodol pobl eraill ymlaen llaw'.

**Dewisiadau Gyrfa ar gyfer dysgwyr blwyddyn 9**

Mae Coleg Sir Benfro a Gyrfa Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu 'diwrnodau rhagflas' drwy brofiad i ddysgwyr blwyddyn 9 yn ysgolion uwchradd Sir Benfro. Bob blwyddyn, gwahoddir pob dysgwr blwyddyn 9 o ysgolion uwchradd yn Sir Benfro i'r coleg i 'roi cynnig' ar wahanol alwedigaethau drwy gyfrwng sesiynau gweithdy, a ddarperir gan gyflogwyr lleol neu staff arbenigol.

Mae'r sesiynau hyn yn amrywio o ddadansoddi safle trosedd ar gyfer gwyddor fforensig i ofalu am anifeiliaid wrth baratoi ar gyfer nyrsio milfeddygol, o adeiladu wal frics yn y diwydiant adeiladu i wneud perfformiad byr ar gyfer drama, ac o ymarfer celf ewinedd i goginio a gweini pryd. Yn y gorffennol, mae hyd at 90 o sesiynau gwahanol wedi bod ar gael, gan roi cyfle gwych i ddysgwyr brofi gwahanol alwedigaethau.

Yn ogystal â darparu mynediad at bob cyfle, mae dysgwyr wedi dweud bod rhai materion eraill y byddent wedi hoffi eu deall yn well cyn cofrestru ar gwrs. Mae'r rhain yn cynnwys dulliau asesu a'r cydbwysedd rhwng theori ac elfennau ymarferol.

Roedd nifer isel o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a gymerodd ran yng nghyfweliadau Beaufort Research yn teimlo y byddent wedi gwerthfawrogi rhagor o gymorth ac arweiniad cyn cofrestru ar y cyrsiau. Dywedodd un dysgwr ag awtistiaeth fod y cwrs yn anodd iawn, yn enwedig y lleoliad, felly byddai wedi gwerthfawrogi cael y cyfle i siarad â rhywun ag awtistiaeth a oedd eisoes wedi cwblhau'r cwrs i gael ei

safbwyntiau a'i gyngor. Nid oedd dysgwr arall â dyslecsia difrifol wedi sylweddoli pa mor feichus fyddai'r gwaith gan ei fod yn cymryd mwy o amser iddi ddarllen holl ddeunydd y cwrs.

*'Gyda fy awtistiaeth, hoffwn fod wedi gallu siarad â rhywun sydd ag awtistiaeth ac sydd wedi gwneud y cwrs gan ei fod mor anodd, mae mor llethol. Rydw i'n ddrwg iawn gyda chyswllt llygad ac yn y bôn, rydw i'n mynd i leoliad mewn dosbarth prif ffrwd i helpu gyda phlant sydd ag anghenion ychwanegol fel fi ac mae'n anodd iawn'.*

*(Dysgwr sy'n llysgennad)*

*'Mae gen i ddyslecsia difrifol ac mae'n wych cael y cyrsiau, ond doeddwn i ddim yn sylweddoli faint o amser mae'n ei gymryd oherwydd mae llawer mwy o waith na'r hyn roeddwn i wedi ei ddisgwyl. Fyddai hynny ddim wedi gwneud i fi beidio â dilyn y cwrs, ond rwy'n meddwl y byddwn i efallai wedi rheoli fy amser ychydig yn well a byddwn i wedi paratoi fy hun i wybod faint o amser roedd yn mynd i gymryd'.*

*(Dysgwr sy'n llysgennad)*

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cydnabod bod addysg gyrfaoedd effeithiol yn bwysig. Mae Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith ar gyfer plant 3 i 16 oed yn thema drawsbynciol yn y Cwricwlwm i Gymru sy'n cael ei rhoi ar waith fel rhan o'r broses o'i gyflwyno.  Bydd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i baratoi ar gyfer heriau a chyfleoedd dysgu pellach a byd gwaith, a bydd yn sicrhau eu bod yn dod yn fwy a mwy ymwybodol o'r holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt.  Bydd hyn yn cefnogi'r uchelgais i ddarparu cyngor ac arweiniad teg a diduedd i bob dysgwr.

Ar ben hynny, mae'r ymgynghoriad diweddar gan Cymwysterau Cymru, 'Y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16' yn cynnig darpariaeth cyn-alwedigaethol a sgiliau ar gyfer gwaith, a allai ehangu'r cwricwlwm a gynigir i ddysgwyr cyn-16 a gwneud dysgwyr yn fwy ymwybodol o gyfleoedd ôl-16.  Gallai bwriad Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau i gydnabod set ehangach o brofiadau, sgiliau a gwybodaeth drwy ddysgu 14-16 helpu i gefnogi pobl ifanc i symud yn hyderus i gyflogaeth, hyfforddiant, ac addysg bellach ac uwch.

Mae'r ddau argymhelliad isod yn ategu canfyddiadau arolygiad Estyn ym mis Hydref 2022 o'r cwricwlwm 16-19, ac o'r cyhoeddiad diweddar 'Pontio i Fyd Gwaith'[75] gan Dr Hefin David AS.

**Argymhelliad 15:  Wrth wreiddio'r Cwricwlwm i Gymru, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyngor teg a diduedd ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt mewn addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, ac yn ystyried y ffordd orau o gefnogi'r nod hwn yn benodol ar gyfer dysgwyr ag anableddau ac anawsterau dysgu.**

**Argymhelliad 16:  Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 yn cael mynediad priodol at ddysgwyr cyn-16 er mwyn darparu gwybodaeth am ddilyniant i ddysgwyr.**

[75] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-06/230622-pontio-i-fyd-gwaith.pdf

### 5.5 Beth yw gofynion mynediad cymwysterau galwedigaethol?

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu yn gosod gofynion mynediad ar gyfer dysgwyr sy'n mynd i raglenni dysgu ôl-16. Lle bo'n briodol, defnyddir disgresiwn wrth ystyried a yw dysgwyr wedi bodloni'r gofynion mynediad, yn dibynnu ar amgylchiadau personol y dysgwr yn aml. Mae'r disgresiwn hwn yn bwysig a rhaid ei gynnal, gan ei fod yn caniatáu i ddarparwyr dysgu unigol wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am amgylchiadau unigol a allai fod wedi cael effaith andwyol ar ganlyniadau cymwysterau blaenorol.

Gall y gofynion mynediad ar gyfer rhaglenni dysgu galwedigaethol amrywio rhwng darparwyr dysgu unigol. Roedd detholiad o ofynion mynediad chweched dosbarth ysgolion yn dangos ei bod yn ymddangos mai pum TGAU gradd C ac uwch yw'r gofynion mynediad safonol ar gyfer chweched dosbarth, gyda'r gofynion penodol yn amrywio: roedd rhai ysgolion yn gofyn am radd B mewn pynciau a ddewiswyd ar gyfer Safon Uwch Gyfrannol, ac eraill yn gofyn am radd B mewn pynciau penodol yn unig. Mewn colegau addysg bellach, mae'n ymddangos mai'r gofynion cyffredinol ar gyfer darpariaeth lefel 3 mewn pwnc penodol yw pum TGAU gradd C ac uwch, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg iaith gyntaf a mathemateg weithiau. Fodd bynnag, ar gyfer yr un cymhwyster galwedigaethol ar lefel 2, roedd y gofynion mynediad yn amrywio o bedwar TGAU gradd D, gan gynnwys TGAU mathemateg neu Saesneg gradd C, i bum TGAU gradd C.

Er na fydd dysgwyr yn ystyried mwy nag un darparwr dysgu yn y rhan fwyaf o achosion, gall y gwahaniaeth mewn gofynion mynediad arwain at ddryswch ac at anghydraddoldeb o ran cyfleoedd. Mae hefyd yn ddryslyd i'r rheini sy'n darparu cyngor ac arweiniad cychwynnol.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Academi Prentisiaeth**

Mae Academi Prentisiaeth Hywel Dda yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr sy'n dymuno ymuno â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae dysgwyr yn cael eu cofrestru ar raglenni prentisiaeth sy'n gallu cymryd hyd at bedair blynedd i'w cwblhau, o lefel 2 i lefel 5.

Nid yw recriwtio prentisiaid ar lefel 2 iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei bennu gan gymwysterau, ond gan werthoedd ac ymddygiadau. Mae diwrnod asesu, dan arweiniad gweithwyr proffesiynol, yn penderfynu a oes gan y dysgwyr y gwerthoedd priodol i gael eu derbyn ar y rhaglen. Os ydynt yn llwyddiannus, mae dysgwyr yn cael cyfle i symud drwy wahanol lefelau o fframweithiau prentisiaeth, gan gamu ymlaen i radd nyrsio yn y pen draw.

**Argymhelliad 17: Dylai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil gynnull grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried gofynion mynediad i raglenni dysgu galwedigaethol i ddeall y gwahaniaethau presennol mewn gofynion, ac i benderfynu ar yr opsiynau gorau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Bydd rhaid i hyn ystyried tegwch ar draws y gofynion mynediad ar gyfer pob cymhwyster.**

### 5.6 Pa brofiadau sydd gan ddysgwyr o gymwysterau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg?

Canfu ymchwil Beaufort fod profiadau dysgwyr sy'n dilyn eu cymhwyster galwedigaethol cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd rhai cyfranogwyr addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, a oedd yn dilyn cymwysterau galwedigaethol yn ddwyieithog neu'n rhannol yn Gymraeg, yn croesawu'r cyfle i wneud hyn ac yn gwerthfawrogi gallu penderfynu ym mha iaith yr oeddent am weithio. Mewn un enghraifft, roedd dysgwr yn amrywio'r iaith ar gyfer asesu yn ôl y modiwl a oedd yn cael ei astudio yn y cymhwyster galwedigaethol. Credai fod hyblygrwydd y coleg o ran cwblhau gwaith yn ddwyieithog yn helpu i annog dysgwyr i ystyried gwneud rhagor o'u cwrs yn Gymraeg.

*'Ers i fi ddechrau, rydyn ni bob amser wedi cael dewis ei wneud yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Felly dwi wedi cael yr opsiwn drwy gydol fy nghwrs Iechyd a Gofal Cymdeithasol.'*

*(Dysgwr AB)*

**Hyfforddiant Cambrian: darpariaeth hyblyg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog**

Mae Hyfforddiant Cambrian yn hyrwyddo hyfforddiant prentisiaeth dwyieithog i'w ddysgwyr. Mae dau o'u dysgwyr sy'n dilyn prentisiaeth mewn Gweithgareddau Ailgylchu Cynaliadwy wedi dangos hyblygrwydd darparu cymwysterau – a fframwaith prentisiaeth yn y pen draw – naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae un dysgwr, sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, yn recordio'r rhan fwyaf o'i drafodaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ail ddysgwr, sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf, yn cael arsylwadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cyflawni gwaith ysgrifenedig yn Saesneg yn bennaf.

Roedd rhai dysgwyr addysg bellach yn ymwybodol bod y cyrsiau mwyaf poblogaidd, fel iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys dysgwyr yn cwblhau eu cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Daethant i'r casgliad fod y cyrsiau hynny'n fwy hyfyw oherwydd y nifer uwch o siaradwyr Cymraeg. Dywedodd rhai dysgwyr addysg bellach fod eu

tiwtoriaid wedi eu hannog i 'wthio eu hunain' drwy gwblhau rhai elfennau o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd eu bod wedi mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg o'r blaen.

Fodd bynnag, nododd rhai dysgwyr heriau o ran cwblhau eu cwrs yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg.  Fel arfer, roedd yn anoddach pan oedd dysgwyr yn gwneud eu hymchwil eu hunain gan ei bod yn llawer anoddach dod o hyd i wybodaeth yn Gymraeg ar-lein, yn ôl rhai dysgwyr chweched dosbarth ac addysg bellach.  Byddai'n rhaid iddynt gymryd y cam ychwanegol o gyfieithu'r wybodaeth, a allai fod yn anodd a chymryd peth amser.  Ar ben hynny, gallai terminoleg dechnegol fod yn heriol yn Gymraeg weithiau. Roedd ychydig o ddysgwyr yn teimlo eu bod yn fwy cyfarwydd â'r derminoleg Saesneg weithiau.

Nid oedd yr holl ddysgwyr Cymraeg a oedd yn dymuno cwblhau eu cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn gallu gwneud hynny.   Anogwyd un cyfranogwr mewn coleg addysg bellach i beidio â dilyn y cymhwyster yn Gymraeg oherwydd bod y deunydd i gyd yn Saesneg, ac i ddysgwyr addysg bellach eraill, nid oedd yn bosibl iddynt gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gan na fyddai'r tiwtoriaid yn gallu cyflwyno'r cwrs yn yr iaith honno.

> *'Does dim un o'r tiwtoriaid busnes yn siarad Cymraeg.  Dwi'n gwybod am gyrsiau eraill a chyrsiau mwy yn y coleg lle maen nhw'n gallu eu gwneud yn Gymraeg, mae'n werth ei wneud oherwydd y niferoedd.  Ond fi yw'r unig un ar fy nghwrs sy'n gallu siarad Cymraeg.  Dwi'n meddwl, os oes ganddyn nhw'r niferoedd maen nhw'n ei wneud, ond does dim rheswm i wneud hynny oherwydd dim ond fi sydd yno'.*
>
> *(Dysgwr AB)*

Dywedodd eraill, a oedd yn gallu siarad Cymraeg, nad oedd wedi croesi eu meddwl i ddilyn eu cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn rhai achosion, nid oedd dysgwyr, rhai ohonynt yn siaradwyr iaith gyntaf, yn credu bod eu Cymraeg yn ddigon da i ddilyn y cymhwyster yn Gymraeg.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag adroddiad cwricwlwm 16-19 Estyn[76], a ganfu fod 'cyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyrsiau galwedigaethol a dysgu yn y gwaith yn fwy cyfyngedig o lawer [na Safon Uwch].  Mae tua chwech o bob deg dysgwr sy'n siarad Cymraeg yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau cwrs neu weithgareddau asesu trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser, neu'r rhan fwyaf o'r amser.'

[76] https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-10/Adolygiad%20o%E2%80%99r%20cwricwlwm%2016-19%20presennol%20yng%20Nghymru_0.pdf

Mae'n amlwg o'r adborth gan randdeiliaid bod angen cyfeiriad clir ar gyfer darparu ac asesu cymwysterau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, strategaeth ar gyfer paratoi adnoddau perthnasol, a mynediad at diwtoriaid Cymraeg perthnasol.

Mae adborth gan randdeiliaid eraill yn cyd-fynd â'r adborth gan ddysgwyr. Yn benodol, mae'r adborth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a CYDAG wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth lywio'r elfen hon o'r adroddiad. Mae anghysondeb o ran argaeledd staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ar draws ardaloedd daearyddol a phynciau. Yn ogystal â hynny, nid yw cymwysterau galwedigaethol a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ar yr un pryd ag y mae'r cymwysterau'n cael eu cynhyrchu a'u gweithredu yn Saesneg. Yn olaf, nid yw'r gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru yn ddigon penodol ynghylch pa elfennau o gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Mae Cymwysterau Cymru wedi sefydlu partneriaeth strategol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac wedi cynhyrchu 'Dewis i Bawb',[77] strategaeth ar gyfer cynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg o 2020 i 2025. Un o'i feysydd ffocws yw 'cryfhau ein disgwyliadau mewn perthynas â chymwysterau ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn meysydd sydd wedi eu clustnodi yn flaenoriaeth'. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall hyfywedd cymwysterau fod yn her i gyrff dyfarnu, gan fod nifer y dysgwyr sy'n gwneud cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu bod yn isel yn aml ac yn gallu amrywio dros amser.

**Argymhelliad 18: Dylai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu ffordd y gall staff sy'n gallu siarad Cymraeg gefnogi amrywiaeth o ddarparwyr dysgu, os ydynt yn fodlon gwneud hynny.**

**Argymhelliad 19: Dylai Cymwysterau Cymru, gan weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gyhoeddi ei gynllun i gynyddu nifer y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, gan gydnabod y gall hyn ganolbwyntio ar y cymwysterau gyda'r niferoedd mwyaf wedi cofrestru arnynt a lle mae'r galw mwyaf am y Gymraeg.**

**Argymhelliad 20: Dylai Cymwysterau Cymru ddatblygu ei gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru ymhellach i roi mwy o fanylion am y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.**

---

[77] https://cymwysterau.cymru/media/0fwph3er/dewis-i-bawb-ein-strategaeth-ar-gyfer-cynyddu-argaeledd-cymwysterau-cyfrwng-cymraeg-2020-25.pdf

### 5.7 Pa gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael i ddysgwyr 16 oed?

Mae dros 2,500 o gymwysterau galwedigaethol ar gael i ddysgwyr 16 oed.[78] Mae adroddiad Estyn ar y Cwricwlwm 16-19 yn nodi bod 'tirlun cymwysterau galwedigaethol yn hynod gymhleth. Dywed rhieni a dysgwyr eu bod yn llai ymwybodol o gymwysterau galwedigaethol nag ydynt o gymwysterau Safon Uwch.' Er nad oes nifer delfrydol o gymwysterau galwedigaethol, mae'n bwysig eu bod nid yn unig yn gyfredol, ond yn gallu rhag-weld arferion diwydiannol a chyflogaeth, deddfwriaeth a chynnwys gwybodaeth.

Mae'r cymwysterau galwedigaethol a gynigir i ddysgwyr yn dibynnu ar ysgogwyr polisi cenedlaethol, gofynion rhanbarthol a dewisiadau darparwyr dysgu. Fodd bynnag, bydd y cwricwlwm galwedigaethol a gynigir gan unrhyw un darparwr dysgu hefyd yn dibynnu ar faint ac adnoddau'r darparwr dysgu hwnnw. Er enghraifft, efallai na fydd darparwyr dysgu sydd â mynediad i ardal ddaearyddol lai bob amser yn gallu ffurfio carfannau hyfyw ym mhob un o'r meysydd galwedigaethol, na darparu'r amrywiaeth o lwybrau dewis o gymwysterau galwedigaethol y byddent yn dymuno eu cynnig.

Os ystyriwn, er enghraifft, y ddarpariaeth alwedigaethol lefel 3 ym maes pwnc sector TGCh, gwelwn fod amrywiaeth eang o ddarpariaeth alwedigaethol ar gael ledled Cymru. Er enghraifft, mae 50 o gymwysterau galwedigaethol ar lefel 3 ar gael ar gyfer cyllid cyhoeddus yng nghronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru. Mae rhai o'r rhain yn dystysgrifau ategol, diplomâu a diplomâu estynedig – ac mae gan bob un ohonynt nifer cynyddol o oriau dysgu dan arweiniad. Bydd darparwyr dysgu wedyn yn marchnata'r cymwysterau galwedigaethol mewn gwahanol ffyrdd a gallant gyfuno cymwysterau galwedigaethol mewn rhaglen ddysgu. Felly, er enghraifft, mae Cyfrifiadura gyda Datblygu Gemau a Chodio, a Chyfrifiadura gyda Seiberddiogelwch yn enghreifftiau o'r un cymhwyster galwedigaethol, ond amrywiaeth o lwybrau dewis.

Mae dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr dysgu i gyd yn gwerthfawrogi'r dewis eang o gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael, a gallu darparwyr dysgu i addasu'r cymhwyster i ddiwallu anghenion penodol. Gall dysgwyr wedyn gael mynediad at unedau penodol mewn cymwysterau galwedigaethol sydd fwyaf priodol ar gyfer y llwybr gyrfa y maent yn dymuno ei ddilyn. Gan gydnabod y gwahaniaethau yng ngallu darparwyr dysgu i gynnig amrywiaeth o lwybrau, dylid archwilio ymhellach sut gellid cynnig cwricwlwm ehangach mewn lleoliadau lle mae'r dewis yn fwy cyfyngedig. Er bod heriau logistaidd, mae cyfleoedd i wireddu hyn drwy ddarpariaeth o bell neu glystyru.

[78] Ystadegau Llywodraeth Cymru, 24 Chwefror 2023

**Cyber College Cymru: Coleg Gwent, Coleg Penybont, Coleg y Cymoedd, Coleg Merthyr Tudful**

Mae Cyber College Cymru yn fenter sy'n cynnwys pedwar coleg addysg bellach sydd ar wahân yn ddaearyddol. Mae'n galluogi dysgwyr i baratoi ar gyfer gyrfaoedd ym maes seiberddiogelwch drwy eu cyflenwi â sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r diwydiant. Drwy fentora proffesiynol, mae dysgwyr yng Nghymru sydd â diddordeb mewn gyrfa seiber yn ffynnu ar y llwybr hwn sy'n datblygu ac sy'n cyfuno dealltwriaeth o'r diwydiant ag addysg gadarn, 'gorau o'i fath' drwy'r bartneriaeth hyblyg, broffesiynol hon. Mae'r fenter yn arwain at gymhwyster galwedigaethol lefel 3.

Mae ymgorffori arbenigwyr blaenllaw yn y diwydiant yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm wedi bod yn hollbwysig o ran galluogi dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth o'r cwrs i sefyllfaoedd gwaith go iawn. Mae gan y dysgwyr fynediad at ragor o brofiadau sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr ac felly maen nhw'n fwy cymwys i symud yn llwyddiannus i'r sector wrth iddynt ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy ychwanegol. Mae gweithio mewn partneriaeth yn sicrhau bod anghenion gweithlu'r diwydiant yn cael eu diwallu drwy harneisio talent newydd a chyfeirio at bobl ifanc â syniadau newydd, gyda safbwyntiau gwahanol, a fydd yn cyflwyno arloesedd a brwdfrydedd i'r sectorau seiber a digidol.

Mae mater arall yn ymwneud â chyflogwyr sy'n dymuno cofrestru dysgwyr ar raglenni neu gymwysterau, ond efallai na fydd darpariaeth o'r fath ar gael yn y rhanbarth daearyddol angenrheidiol, neu mae'r niferoedd mor fach bod diffyg hyfywedd ariannol yn atal cwrs rhag rhedeg. Mae awgrymiadau gan gyflogwyr wedi cynnwys sefydlu cronfa ddata genedlaethol sy'n cadw manylion dysgwyr sy'n dymuno ymgymryd â darpariaeth isel ei maint, ac yn cadw manylion o'r fath nes bydd hyfywedd ariannol wedi'i sicrhau.

**Argymhelliad 21: Dylai Llywodraeth Cymru a darparwyr dysgu gydweithio i ystyried ffyrdd arloesol o gynnig cwricwlwm ehangach i ddysgwyr lle mae'r dewis yn fwy cyfyngedig, neu lle mae nifer fach o ddysgwyr.**

**5.8 A yw dysgwyr yn glir ynghylch sut gallant gamu ymlaen drwy gymwysterau galwedigaethol ar bob lefel?**

Mae'n anochel y bydd gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithio ar gymwysterau galwedigaethol ôl-16. Mae Cymwysterau Cymru newydd gau ymgynghoriad ar y 'Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16'.[79] O fewn hyn, mae bwriad i 'sicrhau cyfres o gymwysterau cyn-alwedigaethol dwyieithog sydd wedi'u dylunio i'w cyflwyno mewn ysgolion ar Lefel Mynediad, Lefel 1 a Lefel 2 mewn amrywiaeth o feysydd galwedigaethol eang'. Bydd ysgolion yn gallu dewis cymwysterau o nifer o feysydd yn ôl yr hyn sy'n gweddu orau i'w disgyblion.

O'r cyfweliadau â rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn ystod yr adolygiad hwn, daeth hi'n amlwg fod yn rhaid sicrhau bod y cynigion ar gyfer cymwysterau galwedigaethol cyn-16 ac ôl-16 yn ategu ei gilydd. Mae angen i ddysgwyr ddeall pwrpas y cymhwyster galwedigaethol cyn-16 yn glir, ac mae angen egluro'r llwybrau cynnydd posibl yn ofalus. Cyfeiriwyd at enghreifftiau o ddysgwyr wedi cwblhau cymwysterau galwedigaethol lefel 2 yn yr ysgol ac yn disgwyl camu ymlaen i gymhwyster lefel 3 wrth symud i addysg ôl-16. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser yn wir ac roedd yn dibynnu ar y dewis o gymhwyster a ddewiswyd cyn-16, cynnwys y cwricwlwm, a'r sgiliau ymarferol a enillwyd. Mae'n hanfodol felly bod dadl lawn ar y cysylltiadau rhwng cymwysterau galwedigaethol cyn ac ôl-16, a'r llwybrau cynnydd sydd ar gael cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.

**Argymhelliad 22: Gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y 'Cynnig Llawn ar gyfer Cymwysterau 14-16', dylai Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru weithio gyda darparwyr dysgu a chyrff dyfarnu i sicrhau bod dysgwyr yn deall diben cymwysterau cyn-alwedigaethol, bod y cymwysterau hynny'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n gyson â'r disgwyliadau, a bod dilyniant rhwng cymwysterau cyn-alwedigaethol a chymwysterau galwedigaethol ôl-16.**

Roedd un o'r trafodaethau a gynhaliwyd gan y grŵp llywio yn ymwneud â chynnwys cyffredinol cymwysterau galwedigaethol – i ba raddau y dylai gwahanol lefelau o gymwysterau galwedigaethol gynnwys ystod o sgiliau neu ganolbwyntio ar arbenigeddau galwedigaethol. Roedd y grŵp llywio yn glir ynghylch y canlynol:

- nid yw cynnydd o reidrwydd yn golygu symud i lefelau 'uwch'. Gall cynnydd fod o gymhwyster mewn un pwnc, i'r un lefel o gymhwyster mewn sector neu lwybr galwedigaethol newydd neu wahanol efallai
- mae cymwysterau lefel 1 yn sylfaen ar gyfer dysgu pellach, a dylent fod yn fwy cyffredinol eu natur
- gall cymwysterau lefel 2 fod yn ymwneud ag ehangder, ond gallant hefyd baratoi dysgwyr ar gyfer y gweithle, fel ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. dylai rhaglenni dysgu galwedigaethol Lefel 2 gynnwys elfennau o ymgysylltu â chyflogwyr

- dylai cymwysterau lefel 3 fod yn fwy arbenigol, a dylent gynnwys lleoliad gwaith yn unol ag Argymhelliad 10.  Mae'r lefel hon yn helpu dysgwyr i fynd i'r gweithle neu i gymryd rhan mewn dysgu pellach.

- mae pwysigrwydd strwythur y Rhaglen Ddysgu gyffredinol yn bwysig ar bob lefel, oherwydd gall ategu anghenion sgiliau

I bob dysgwr, fodd bynnag, neges bwysig gan randdeiliaid oedd bod angen i lwybrau cynnydd drwy gymwysterau galwedigaethol fod yn llawer cliriach nag y maent ar hyn o bryd.  Yn y gweithdy cyntaf a gynhaliwyd gennym, roeddem wedi gofyn i randdeiliaid 'werthuso' pa mor glir yw llwybrau cynnydd drwy gymwysterau galwedigaethol, gyda 10 yn golygu 'hollol glir' ac 1 yn golygu 'ddim yn glir', gydag ymateb niwtral yn gyffredinol.  Roedd ein hail weithdy yn edrych ar hyn ymhellach, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn dweud bod angen i lwybrau cynnydd fod yn gliriach.  Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod angen egluro'r iaith a ddefnyddir, ei bod yn bwysig bod cynnydd yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, a bod angen dileu dyblygiad cynnwys rhwng lefelau.

Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid beth sydd angen digwydd i wneud y llwybrau hyn yn glir, ac fe ddaeth nifer o safbwyntiau i'r amlwg.  Roedd y safbwyntiau'n cynnwys:

- disgrifyddion gweledol / mapiau llwybrau / gwybodeg ar gyfer llwybrau cynnydd posibl, gyda therminoleg gyson

- llwybrau cynnydd sy'n gysylltiedig â chyrchfannau

- cydnabyddiaeth nad yw llwybrau bob amser yn fertigol, ac y gallent gynnwys symud i'r ochr neu i lefelau is yn dibynnu ar y sgiliau sydd eu hangen

- mae cymeradwyaeth gan gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch yn hollbwysig yn ôl diben y cymhwyster

- cyngor ac arweiniad gyrfaol clir

Trafododd y grŵp llywio y gwahanol lefelau o gymwysterau galwedigaethol sy'n bodoli, a strwythur eang y cynnwys.  Yn gyffredinol, roedd y grŵp llywio yn fodlon â'r strwythur presennol, lle mae mwy o arbenigedd wrth i ddysgwyr symud i lefelau uwch.  Roedd barn gref ymysg darparwyr dysgu, fodd bynnag, y dylai cymwysterau lefel 1 ôl-16 fod yn fwy cyffredinol o ran cynnwys nag y maent ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 23:  Dylai Cymwysterau Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i gynhyrchu 'mapiau ffordd' cymwysterau galwedigaethol i alluogi dysgwyr i nodi cyfleoedd dilyniant ym mhob sector.**

### 5.9 Dysgwyr dros 19 oed


Rydym nawr am symud ymlaen at ddysgwyr ôl-19. Mae marchnad lafur heddiw yn newid yn gyflym. Yn wir, mae cymdeithas heddiw yn newid yn gyflym. Mae bywyd gwaith yn wahanol o'i gymharu â dim ond degawd yn ôl hyd yn oed, a gall unigolion ddisgwyl newid swyddi, galwedigaethau a gyrfaoedd lawer gwaith yn ystod eu bywyd. Mae llawer o swyddi'r dyfodol yn anhysbys – bydd dyfodiad deallusrwydd artiffisial, y newid i sero net, ac awtomeiddio yn gofyn am setiau sgiliau newydd. Felly mae angen i gymwysterau galwedigaethol allu ymateb i'r anghenion hyn yn gyflym, a darparu'r cymwyseddau hyn yn gyflym, gan wireddu dysgu gydol oes.

Cafwyd rhai safbwyntiau clir wrth drafod gyda rhanddeiliaid ynghylch darparu cymwysterau galwedigaethol ar gyfer dysgu gydol oes – yn enwedig gan gyflogwyr:

- Mae diffyg eglurder ynghylch y rôl y gall cymwysterau galwedigaethol ei chwarae o ran uwchsgilio neu ailsgilio'r gweithlu
- Nid yw dulliau cyflawni mor hyblyg ag yr hoffai cyflogwyr
- Mae cymwysterau'n cymryd gormod o amser i'w datblygu a'u darparu
- Mae'r cyfleoedd cynnydd ar ôl lefel 3 yn ddryslyd
- Bod camu ymlaen o gymhwyster lefel 5 i radd yn aml yn cael ei ystyried yn achos o ddyblygu gwaith

Ategwyd y safbwyntiau hyn gan arolwg cyflogwyr 2019, a oedd yn nodi rhesymau dros rwystrau i addysg alwedigaethol.

Graff 16:  Rhwystrau rhag manteisio ar gymwysterau galwedigaethol[80]




Ffynhonnell:  [Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2019 Canlyniadau craidd:Pecyn sleidiau Cymru (llyw.cymru)]

Mae rhai o'r rhwystrau hyn yn sylfaenol – y cyntaf yw 'nid yw staff eisiau cymwysterau galwedigaethol'.  Gallai hyn fod o ganlyniad i nifer o faterion – gallai'r rhain gynnwys dealltwriaeth o beth yw cymwysterau galwedigaethol, a'u gwerth i'r economi ac i gymdeithas.  Er ein bod yn derbyn efallai na fydd angen cymwysterau galwedigaethol mewn llawer o achosion – er enghraifft, gall cymwysterau gwerthwyr ddarparu llwybrau amgen – bydd argymhelliad 13 yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.  Mae angen inni fynd i'r afael â'r canfyddiad ynghylch gwerth cymwysterau galwedigaethol.  Ond cyn dechrau ar ymgyrch addysgu a hyrwyddo, mae angen inni fod yn glir ynghylch yr hyn rydym yn ei gyflawni, sut y gellir ei gyflawni, a sut gallwn fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod.

Mae barn bod cymwysterau galwedigaethol yn cymryd gormod o amser i'w cyflawni pan fydd angen i gyflogwyr allu uwchsgilio neu ailsgilio'n gyflym.  Mae angen inni allu darparu cymwysterau mewn darnau llai o faint, er mwyn gallu ymateb yn gyflymach i anghenion cyflogwyr.  Gall hyn olygu darparu un uned, neu gyfuniad o unedau o gymwysterau galwedigaethol, i ddarparu'r sgiliau cywir.  Gall cyrff dyfarnu gynnig 'micro-gredydau', bathodynnau digidol, ac ardystio unedau.  Gall darparwyr dysgu ddarparu'r unedau cyflwyno hyn, ac maent yn gwneud hynny, ond mae angen ymwybyddiaeth uwch o hynny.

Ar ben hynny, gofynnir yn aml i ddarparwyr dysgu ymateb yn gyflym i anghenion cyflogwyr yn eu hardal leol – gallai hyn fod oherwydd bod technoleg newydd yn dod i'r amlwg mewn diwydiant lleol, neu fod cyfleoedd newydd yn codi.  Yn yr achosion

[80] Llywodraeth Cymru, Arolwg Cyflogwyr 2019

hyn, mae angen ymateb cyflym – weithiau'n cynnwys ymchwil ar gyfer y darparwr dysgu, neu gaffael sgiliau newydd.  Gall hyn fod yn gostus ond os oes gan y gofyniad y potensial parhaus i gyfrannu'n gynaliadwy at y gymuned a'r economi leol, byddai'r hafaliad cost/budd yn gadarnhaol.

**Argymhelliad 24:   Dylai darparwyr dysgu hyrwyddo unedau unigol neu luosog o gymwysterau galwedigaethol i gyflogwyr lle bo hynny'n briodol, a dylai Cymwysterau Cymru annog cyrff dyfarnu i sicrhau bod tystysgrifau unedau ar gael i ateb y galw.**

**Argymhelliad 25:  Dylai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ddarparu cronfa 'ymateb cyflym' i ddarparwyr dysgu, yn seiliedig ar anghenion a nodwyd a chanlyniadau cynaliadwy, i'w galluogi i ymateb yn gyflym i ofynion y diwydiant.**

Mae cyflogwyr yn gwneud sylwadau am ddarparu cymwysterau galwedigaethol – sydd weithiau ddim mor hyblyg ag y byddent yn dymuno.  Mae angen lleihau'r amser i ffwrdd o'r gweithle, ac mae modd cyflawni hyn mewn sawl ffordd.  Mae nifer o lwybrau cyflawni posibl, fel dangos sgiliau yn yr amgylchedd gwaith, dysgu o bell, dysgu ar-lein, a chyflwyno y tu allan i oriau gwaith, naill ai'n uniongyrchol neu drwy recordiadau.

Yn ogystal â hynny, gall dull cadarn, wedi'i deilwra ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol fod yn effeithiol weithiau wrth gyflawni cymwysterau galwedigaethol.  Ceir rhai enghreifftiau diddorol o sut caiff Cydnabod Dysgu Blaenorol ei ddefnyddio mewn gwledydd eraill.

Yn Nenmarc,[81] gall cymwyseddau oedolion gael eu hasesu mewn perthynas â chyrsiau galwedigaethol oedolion.  Ar gyfer cyrsiau byr, mae hwn yn opsiwn a elwir yn Asesiad Cymhwysedd Unigol lle mae gan ddysgwyr hawl i'r asesiad hwn ac yn gallu cael iawndal ariannol am yr amser a dreulir yn y broses hon, sy'n cymryd rhwng hanner diwrnod a 5 diwrnod.  Wrth wneud cais am addysg alwedigaethol i oedolion, mae'n rhaid asesu dysgu a phrofiadau blaenorol cyn cofrestru, sy'n golygu y dylai pob oedolyn dros 25 oed sy'n bwriadu dechrau ar addysg alwedigaethol gymryd rhan yn y broses Cydnabod Dysgu Blaenorol.

Yn yr Almaen[82] ar y llaw arall, yr arf pwysicaf ar gyfer asesu canlyniadau dysgu heb fod yn ffurfiol yw cael eich derbyn i arholiad galwedigaethol terfynol. O dan y ddarpariaeth hon, gellir derbyn dysgwyr i arholiad terfynol ar gyfer galwedigaeth gydnabyddedig y mae angen hyfforddiant ffurfiol ar ei chyfer os ydynt yn darparu

[81] https://www.cedefop.europa.eu/en/tools/vet-in-europe/systems/denmark-u2
[82] https://www.cedefop.europa.eu/en/tools/vet-in-europe/systems/germany-u2

tystiolaeth eu bod wedi cael eu cyflogi yn yr alwedigaeth berthnasol am gyfnod sy'n cyfateb i neu'n fwy nag un a hanner yr hyfforddiant cychwynnol.

Gellir cael credyd am lefel uwch o gyrhaeddiad addysg gyffredinol, sy'n lleihau'r cyfnod cyflogaeth y mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth ar ei gyfer. Gall cymhwyster galwedigaethol cychwynnol perthnasol blaenorol mewn galwedigaeth hyfforddiant wahanol hefyd gael ei gynnwys tuag at y cyfnodau cyflogaeth gofynnol. Ar wahân i'r rhan ymarferol o'r arholiad, lle caiff cymwyseddau proffesiynol perthnasol eu profi, rhaid i ymgeiswyr allanol brofi eu gwybodaeth theori mewn arholiad ysgrifenedig.

Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae cyrff dyfarnu yn pennu a ganiateir Cydnabod Dysgu Blaenorol ar gyfer cymwysterau penodol. Mae darparwyr unigol wedyn yn penderfynu a ydynt am wneud cais a sut i gymhwyso cydnabyddiaeth o'r fath. Mae gwahaniaeth rhwng Cydnabod Dysgu Blaenorol – lle nad yw dysgwr yn mynychu rhan o gwrs a'i fod yn gallu symud yn gynt i asesiad – a Chydnabod Asesu/Cyflawniad Blaenorol, sy'n rhoi eithriad o ran o'r asesiad. Gall y ffordd o gymhwyso'r rhain effeithio ar swm y cyllid ar gyfer rhaglen ddysgu.

**Argymhelliad 26: Dylai Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a darparwyr dysgu weithio gyda'i gilydd i archwilio a yw'r trefniadau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol yn dal yn briodol, ac ystyried rhinweddau eu cymhwyso mewn ffordd gyson ledled Cymru.**

Roedd trafodaethau gyda chyflogwyr ynghylch mynediad at gymwysterau galwedigaethol yn gadarnhaol ar y cyfan. Nododd cyflogwyr yn gyffredinol mai eu pwyntiau cyswllt cyntaf wrth chwilio am gymwysterau galwedigaethol newydd oedd eu darparwr lleol, naill ai i roi cyngor ar gymhwyster neu i ddarparu cymhwyster a enwir. Fodd bynnag, roedd cyflogwyr yn glir bod cyflymder y newid yn y diwydiant yn gofyn am newid ac ymateb cyflymach yn y 'farchnad gymwysterau'.

Yn bwysig, un pryder gan rai cyflogwyr yw nad yw Cymru'n ddigon uchelgeisiol o ran hyrwyddo a darparu llwybrau galwedigaethol hyd at y cymhwyster 'terfynol' – sy'n aml yn cael ei ystyried yn gymwysterau lefel gradd neu gydnabyddiaeth broffesiynol. Cafwyd enghreifftiau gan rai cyflogwyr lle byddent am arwain gweithwyr o gymhwyster galwedigaethol lefel 2 i radd, gan eu galluogi i ennill yr ardystiad proffesiynol yr oedd ei angen arnynt ar gyfer eu galwedigaeth ddewisol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd yr unig ddewis ar gyfer y flwyddyn olaf – y cymhwyster lefel gradd – naill ai'n gofyn am astudio llawnamser neu amser ychwanegol sylweddol i orffen y radd ei hun.

Mae cyflogwyr yn teimlo bod nifer o alwedigaethau y gellir eu cyrraedd drwy lwybrau galwedigaethol, gyda phontio di-dor a chysylltiad â chymwysterau lefel gradd neu gymwysterau proffesiynol gyda rhagor o gynllunio, ac argaeledd ar sail fwy hyblyg. Mae dyfodiad y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn galonogol oherwydd gallai hwyluso datblygiad darpariaeth ddi-dôr o'r fath, gan ganolbwyntio ar broffesiynau penodol lle mae prinder dybryd yn y gweithlu yn y lle cyntaf efallai.

Gofynnom i randdeiliaid am y rhwystrau i gysylltiad effeithiol rhwng lefelau 4 a 5 a lefel 6. Roedd y prif bryderon yn cynnwys:

- Gwahaniaeth mewn strwythurau cyllido rhwng gwahanol lefelau a mathau o gymwysterau

- Gwahaniaeth yn nhrefniadau cyrff dyfarnu – er enghraifft, cyflawnir lefel 4 a 5 drwy gymwysterau galwedigaethol, ond lefel 6 drwy brifysgol. Nodwyd mai'r prif bryder yn yr achosion hyn oedd diffyg aliniad fertigol, a oedd weithiau'n arwain at ddyblygu ac ar adegau eraill yn arwain at ddiffyg darparu cynnwys

- Nifer isel y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer llawer o gymwysterau, ac felly'r goblygiadau o ran cost

Mae prentisiaeth gradd yn un ffordd o oresgyn rhai o'r pryderon hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi treialu rhaglen o brentisiaethau gradd ym meysydd diwydiannau digidol, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, peirianneg a gweithgynhyrchu uwch. Fodd bynnag, mae galw mewn ardaloedd eraill am y math hwn o lwybr. Wrth gwrs, nid oes angen i brentisiaethau gradd fod yr unig lwybr, ac fel y nodir yn 'Pontio i Fyd Gwaith', mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol. Gall aliniad fertigol, ynghyd â Chydnabod Dysgu Blaenorol, osgoi dyblygu a chyflymu'r broses o ennill cymwysterau.

**Argymhelliad 27: Dylai Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil weithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i archwilio dilyniant drwy ddarpariaeth alwedigaethol i ddarpariaeth lefel 6, gan bwysleisio'n benodol ar radd-brentisiaethau. Dylai integreiddio fertigol rhwng lefelau fod yn hollbwysig yn y model cynnydd hwn.**

### 5.10 Crynodeb

Rydym wedi edrych yma ar y dysgwr, a'r cyfleoedd cynnydd drwy gymwysterau galwedigaethol. Rydym wedi canfod y dylid rhoi gwybod i bob dysgwr am yr holl ddewisiadau sydd ar gael iddynt, a dylid eu hannog i wneud eu dewisiadau eu hunain gyda chymorth priodol. Rydym wedi canfod bod cyfleoedd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol weithiau'n dibynnu ar leoliad daearyddol neu ddarparwr dysgu unigol, a bod yn rhaid inni edrych ar ffyrdd o oresgyn hyn.

Mae angen i gynnydd drwy gymwysterau galwedigaethol fod yn gliriach, a rhaid cynnal uniondeb y pontio rhwng y ddarpariaeth alwedigaethol cyn-16 ac ôl-16.

Rydym wedi gweld bod angen datblygu 'darnau bach' o ddysgu gan gydnabod nad yw dysgu o reidrwydd yn barhaus o 16 oed ymlaen, ac y dylai llwybrau cynnydd drwy

gymwysterau lefel uwch annog dysgwyr i aros mewn gwaith.  Nodwn yn benodol fod gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd rôl allweddol i'w chwarae yn gwireddu hyn.

# Pennod 6: Cymwysterau galwedigaethol: Dewisiadau ar gyfer Cymru

## 6.1 Cyflwyniad

Yn ystod y penodau blaenorol, rydym wedi ystyried nifer o agweddau sy'n ymwneud â chymwysterau galwedigaethol yng Nghymru – yr ystod o gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael, arferion rhyngwladol, sut rydym yn penderfynu a oes gennym ystod berthnasol o gymwysterau galwedigaethol, a thaith y dysgwr i a drwy gymwysterau galwedigaethol.

O ganlyniad, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion – argymhellion sy'n gyffredinol bragmataidd eu natur i gyd-fynd â'n brîff. Mae pob argymhelliad unigol yn deilwng ynddo'i hun ond gyda'i gilydd, byddent yn cael effaith sylweddol ar y dirwedd cymwysterau galwedigaethol ac yn bwysicaf oll, ar ein dysgwyr. Ymhlith y rhai mwyaf sylfaenol mae'r gofynion i sefydlu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol, comisiynu gwaith i bennu anghenion galwedigaethol a sgiliau cenedlaethol ar gyfer y dyfodol, darparu cyngor ac arweiniad cychwynnol cynhwysfawr i ddysgwyr cyn-16, a chodi ein dyheadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

Fel cenedl sydd â phwerau datganoledig dros addysg a hyfforddiant yn y Deyrnas Unedig, mae'n naturiol inni gymharu ein sefyllfa ag eraill. Nid yw'r ffordd ymlaen ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi'i phennu eto. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd yr Alban wedi cyhoeddi ei hadolygiad annibynnol o gymwysterau ac asesiadau yn ystod cyfnod uwch yr addysg, ac o'r cyd-destun darparu sgiliau, yn ddiweddar. Nid yw'r ymateb i'r naill adolygiad na'r llall yn hysbys eto. Mae Gogledd Iwerddon wedi cwblhau ymgynghoriad ar bwrpas ac egwyddorion cymwysterau galwedigaethol, ond hyd yma nid yw wedi cadarnhau ei bwriadau. O ystyried y datblygiadau sy'n dod i'r amlwg ym mhob gwlad, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a Chymwysterau Cymru i gyd yn cynnal perthynas agos â chymheiriaid mewn gwledydd eraill er mwyn gweld a oes cyfleoedd i gydweithio a chydweithredu wrth i gynlluniau ddatblygu.

Beth am gyfeiriad cyffredinol cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru? Mae'r bennod hon yn archwilio ac yn gwerthuso'r dewisiadau sydd ar gael i Gymru ac yn gwneud argymhellion ynghylch sut dylem fynd i'r afael â chymwysterau galwedigaethol yn y dyfodol. Mae'n cyfosod ymatebion i'r gwahanol amcanion yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad, gan gynnwys ehangu cymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru*. Rydym wedi cysoni ein dewisiadau yn fras yn nhrefn yr amcanion yn y Cylch Gorchwyl.

Credwn fod gan Gymru nifer o ddewisiadau ar gyfer datblygu cymwysterau galwedigaethol yn y dyfodol. Rydym wedi nodi pedwar dewis:

Dewis 1: sefydlu corff dyfarnu cenedlaethol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru

Dewis 2: mabwysiadu'r dull o ymdrin â chymwysterau galwedigaethol a ddefnyddir yn Lloegr, gan gyfeirio'n gyntaf at fabwysiadu Lefelau T

Dewis 3: rheoli cymwysterau galwedigaethol mewn ymateb i ddatblygiadau yn Lloegr a gwledydd eraill y DU

Dewis 4: datblygu ac ehangu cymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru* yng nghyd-destun asesiad cenedlaethol o anghenion sgiliau a galwedigaethol

**6.2 Dewis 1 – Sefydlu corff dyfarnu cenedlaethol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru**

Mae dewis o ddatblygu corff dyfarnu cenedlaethol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru. Gallai hwn fod yn gorff dyfarnu cenedlaethol a ariennir gan y llywodraeth, a allai ddatblygu amrywiaeth o gymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru* yn benodol. Mae'n drefniant sydd wedi'i fabwysiadu gan lawer o wledydd yn rhyngwladol fel y gwelsom ym mhennod 4, ac i ryw raddau gan yr Alban a Gogledd Iwerddon, sydd â marchnad fwy cymysg.

Yn gyntaf oll, gadewch inni ystyried manteision cael corff dyfarnu cenedlaethol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Yn y lle cyntaf, gellid datblygu'r holl gymwysterau galwedigaethol yn erbyn y set o egwyddorion a argymhellwyd gennym ym mhennod 3, gan ddarparu cymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru* ym mhob sector, yn unol â'r meini prawf sy'n briodol i Gymru yn ein barn ni.

Gallem sicrhau nad oedd unrhyw gymwysterau'n gorgyffwrdd yn amhriodol a bod llwybrau cynnydd drwy gymwysterau yn strwythuredig, yn syml ac yn glir.

Gallem ystyried a oedd angen i raglenni dysgu galwedigaethol ar lefel mynediad a lefel 1 gael eu hardystio drwy strwythur cenedlaethol a dechrau cymhwyster ffurfiol ar lefelau mwy galwedigaethol-benodol – lefel 2 ac uwch.

Byddai cael ein corff dyfarnu ein hunain yn ein diogelu rhag newidiadau yng ngwledydd eraill y DU ac yn ein galluogi i symud ymlaen gan wybod y gallwn wneud hynny fel cenedl unigol.

Ond a oes anfanteision i strwythur o'r fath? Yr anfantais amlwg yw dileu dewis, ac roedd rhanddeiliaid – yn enwedig darparwyr dysgu – yn credu bod dewis yn bwysig. Mae dewis o gymwysterau yn caniatáu i ddarparwyr dysgu ddewis y rhaglen ddysgu a'r cymhwyster galwedigaethol gorau i ddiwallu anghenion unigol y dysgwyr. Mae dewis yn caniatáu i ddarparwyr dysgu symud rhwng cyrff dyfarnu os ydynt yn teimlo bod cynnwys y cymhwyster yn fwy priodol, neu fel y dywedodd un rhanddeiliad wrthym, 'yn fwy cyffrous i ddysgwyr' mewn corff dyfarnu gwahanol. Mae dewis yn ei gwneud hi'n bosibl addasu i anghenion lleol a rhanbarthol. Gellid dadlau bod cael amgylchedd cystadleuol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn gadarnhaol, gan y bydd cyrff dyfarnu yn ceisio cael mantais dros y farchnad, drwy ymateb i anghenion y diwydiant, datblygiadau addysgeg ac asesu, ac adborth gan ddarparwyr dysgu.

Efallai y bydd problemau gyda chludadwyedd neu fathau o gydnabyddiaeth. Er bod systemau cyfwerthedd amrywiol yn bodoli, efallai y bydd nerfusrwydd am gyfres o gymwysterau newydd – o safbwynt cyflogwr ac o bosibl o safbwynt addysg uwch. Mae gan ddarparwyr dysgu sy'n agos at y ffin bryderon ynghylch ffiniau – cymwysterau a enillwyd yng Nghymru yn dderbyniol i gyflogwyr dros y ffin. Ac yn olaf, mae rhai cymwysterau'n gofyn am gydnabyddiaeth broffesiynol neu ryngwladol – gallai hyn gymryd amser ar y gorau, ac ar y gwaethaf bod y cymwysterau ddim yn cael eu derbyn gan y cyrff perthnasol.

Byddai sefydlu corff dyfarnu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn ymrwymiad sylweddol. Byddai angen cryn brofiad ar gorff o'r fath o ddatblygu cymwysterau galwedigaethol, ac elfen strwythurol sylweddol i gefnogi'r datblygiad hwnnw. Byddai angen i Gymwysterau Cymru gydnabod y corff cenedlaethol a rheoleiddio ei gymwysterau. Ni ellir tanbrisio'r broses o nodi, dylunio a datblygu cymwysterau perthnasol, a sicrhau eu bod yn cael eu derbyn.

Pe baem yn hunan-reoleiddio ar lefel mynediad a lefel 1, byddai dal angen strwythur ar ddarparwyr dysgu i sicrhau cysondeb o ran safon.

Pan ofynnwyd iddynt am apêl corff dyfarnu cenedlaethol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru, nid oedd gan randdeiliaid a ymatebodd fawr o awydd i newid o'r fath, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn dweud na fyddent yn cefnogi hyn. Pan ofynnwyd am fanteision corff dyfarnu cenedlaethol, dywedodd ymatebwyr y byddai'n darparu symlrwydd, eglurder a chysondeb. Ymysg yr anfanteision canfyddedig oedd llai o ddewis, y potensial ar gyfer safonau is, a diffyg cystadleuaeth a allai arwain at ddiffyg arloesedd ac uchelgais.

Fel cenedl, mae gennym berthynas gref â chyrff dyfarnu, sydd wedi cefnogi datblygiad ac wedi dangos ymrwymiad i Gymru a'i dysgwyr. Mae gan y cyrff dyfarnu hyn brofiad o ddatblygu cymwysterau galwedigaethol, arbenigedd mewn methodolegau asesu, a chysylltiadau presennol â chyrff cynrychioliadol. Mae gan rai cyrff dyfarnu arbenigedd pwnc arbenigol hefyd. Byddai angen dod o hyd i'r profiad hwn a'r sgiliau hyn ar gyfer corff dyfarnu cenedlaethol newydd. Felly, nid ydym yn

dechrau o'r dechrau – byddem yn gadael ein cyrff dyfarnu presennol am fanteision y gellid eu cyflawni, yn haws o lawer, drwy strwythurau presennol, ac yn osgoi'r anfanteision a allai godi fel arall.

Felly, byddai creu corff dyfarnu cenedlaethol yn newid strwythurol sylweddol heb fanteision arbennig y tu hwnt i'r system bresennol. Byddai costau datblygu strwythur o'r fath yn sylweddol, hyd yn oed pan fo hynny'n seiliedig yn unig ar gostau datblygu cymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru* mewn dau sector. Yn bwysicaf oll, ni fyddai newid strwythurol o'r fath o reidrwydd yn cael effaith fanteisiol glir ar gyflawniad ac ymgysylltiad dysgwyr, nac yn wir ar foddhad cyflogwyr. At ei gilydd felly, nid ystyrir bod angen bwrw ymlaen â'r cysyniad o gorff dyfarnu cenedlaethol i Gymru ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 28: Dylai Cymru gadw marchnad agored mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol, ac ni ddylid mynd ati i greu un corff dyfarnu cenedlaethol.**

### 6.3 Dewis 2 – Mabwysiadu'r dull o ymdrin â chymwysterau galwedigaethol a ddefnyddir yn Lloegr, gan gyfeirio'n gyntaf at fabwysiadu Lefelau T

Yr ail ddewis yw mabwysiadu'r un dull gweithredu â'r un a ddefnyddir yn Lloegr.

Ym mis Tachwedd 2015, gofynnodd Llywodraeth San Steffan i'r Panel Annibynnol ar Addysg Dechnegol am gyngor ar fesurau a allai wella addysg dechnegol yn Lloegr. Ei brif argymhelliad oedd y dylai'r 'Llywodraeth ddatblygu opsiwn addysg dechnegol cydlynol sy'n datblygu'r wybodaeth dechnegol a'r sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith medrus, sy'n arwain o lefelau 2/3 i lefelau 4/5 a thu hwnt, ac sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr am ei fod yn gweithio yn y farchnad'.

Ar lefel 3, mae Lloegr wedi cyflwyno Lefelau T[83] mewn nifer o feysydd sector. Mae'r rhain wedi'u disgrifio ym mhennod 1. Mae Lefelau T yn debygol o ddisodli ystod o gymwysterau galwedigaethol a thechnegol a ariennir ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed yn Lloegr. Ar 29 Mawrth 2023, cyhoeddodd yr Adran Addysg yn Lloegr restr derfynol o gymwysterau ar lefel 3 sy'n gorgyffwrdd â Lefelau T (tonnau 1 a 2 o'r cyfnod gweithredu yn unig) ac a fydd yn cael eu dad-gyllido o 1 Awst 2024 ymlaen. Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd restr o gymwysterau y mae'n fwriad eu dad-gyllido yn 2025 mewn perthynas â thon 3. Mae Cymwysterau Cymru wedi cynnal dadansoddiad o'r cymwysterau sy'n cael eu cynnig ar gyfer dad-gyllido yn Lloegr. Mae wedi canfod bod yr effaith ar gymwysterau yng Nghymru yn debygol o fod yn gyfyngedig iawn ac ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda'r cyrff dyfarnu perthnasol i ddeall eu cynlluniau ar gyfer Cymru.

---

[83] https://www.gov.uk/government/publications/introduction-of-t-levels/introduction-of-t-levels

Fel y disgrifir ym mhennod 1, ar lefel 2 ac isod[84] cynigir y bydd wyth grŵp o gymwysterau yn dod o fewn y cwmpas ar gyfer cyllid cyhoeddus ar lefel 2, ochr yn ochr â chymwysterau TGAU a Sgiliau Gweithredol. Bydd cymwysterau'n cael eu grwpio yn ôl y canlynol: a ydynt yn cefnogi symud ymlaen i astudio ar lefel 3, yn darparu mynediad at gyflogaeth gynaliadwy ar lefel 2 neu'n darparu Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL). O blith yr wyth grŵp, bydd chwe grŵp ar gael i bobl ifanc ac oedolion, a dau grŵp ar gyfer oedolion yn unig.  Ar lefel 1 ac is, bydd pum grŵp o gymwysterau lefel 1 a phedwar grŵp o gymwysterau ar lefel mynediad yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid cyhoeddus yn y dyfodol, gyda phob grŵp ar gael i bobl ifanc ac oedolion.

Ar 28 Ebrill 2023, cyhoeddodd Pwyllgor Addysg Tŷ'r Cyffredin ei Drydydd Adroddiad o Sesiwn 2022/2023 – The Future of post-16 qualifications.[85]  Yn yr adroddiad, roeddent yn cydnabod bod Lefelau T yn gymwysterau manwl a heriol ond roeddent yn codi nifer o bryderon ynghylch y 'cydbwysedd cywir rhwng manylrwydd a hygyrchedd'.  Roedd y pryderon yn ymwneud â'r canlynol:

- gofynion mynediad,
- lefelau cadw,
- hygyrchedd,
- gofynion mynediad prifysgol,
- argaeledd lleoliadau gwaith.

Nododd y Pwyllgor ymhellach fod ymchwil o 2021 wedi canfod nad oedd gan bron i ddwy ran o dair o gyflogwyr ddiddordeb mewn cynnig lleoliad lefel T, a bod diddordeb cyflogwyr yn lleihau.   Nododd hefyd ei bryderon bod y rhaglen wedi denu dros £1 biliwn o gyllid cyhoeddus.

Yn Lloegr, mae Cymdeithas y Colegau wedi galw am 'oedi ar unwaith i'r bwriad i ddad-gyllido cymwysterau Lefel 3 ac is presennol, nes y gallwn weld sut mae Lefelau T yn gweithio o ran hygyrchedd a chynnydd i fyfyrwyr, diwallu anghenion y diwydiant a hyrwyddo symudedd cymdeithasol'.[86]

Rydym yn cydnabod bod manteision yn gysylltiedig â Lefelau T, ac y byddai manteision o fabwysiadu Lefelau T.  Mae'r rhain yn cynnwys:

- manylrwydd y cymhwyster

- cynnwys lleoliad gwaith

[84] Consultation: Review of post-16 qualifications at level 2 and below in England (education.gov.uk)
[85] https://committees.parliament.uk/publications/39333/documents/193104/default/
[86] https://d4hfzltwt4wv7.cloudfront.net/uploads/files/AoC20Opportunity20England202023.pdf

- y ffaith y byddai cymwysterau galwedigaethol ar lefel 3 yn rhedeg ochr yn ochr yng Nghymru a Lloegr, gan leihau'r risg bosibl sy'n gysylltiedig â chymwysterau â niferoedd isel yn y dyfodol

Fodd bynnag, mae Lefelau T yn cael eu cynnig yn Lloegr yn unig ar hyn o bryd, ac nid mewn unrhyw wlad arall yn y DU. Pe baem yn dymuno cyflwyno Lefelau T i Gymru, byddai nifer o heriau hefyd:

- Mae Lefelau T yn cael eu dyfarnu gan y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol yn Lloegr, sydd heb unrhyw bwerau i ddyfarnu yng Nghymru. Pe bai Lefelau T yn cael eu cyflwyno yng Nghymru, byddai'r Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol yn cadw rheolaeth dros ddatblygu, adolygu a diwygio Lefelau T (a'r cymwysterau technegol sydd ynddynt), gan wneud rhaglenni Lefel T yn agored i newidiadau polisi yn Lloegr – sefyllfa debyg, neu andwyol hyd yn oed, i'n sefyllfa ar hyn o bryd.

- Mae Lefelau T yn cynnwys gofyniad gorfodol ar gyfer gwaith sylweddol am 45 diwrnod (o leiaf 315 awr). Rydym eisoes wedi gweld yn Lloegr drwy Bwyllgor Addysg Tŷ'r Cyffredin fod hyn yn profi'n her. Mae'r adborth yr ydym ni fel grŵp llywio wedi'i gael gan ddarparwyr dysgu yn Lloegr yn cefnogi'r farn hon. Mae'n debygol y bydd anghydraddoldeb o ran cyfleoedd yng Nghymru hefyd o ran dod o hyd i leoliadau gwaith o'r ansawdd iawn, ac yn y meysydd galwedigaethol iawn, a allai fod yn fwy dwys mewn ardaloedd mwy gwledig yng Nghymru.

- Nid yw Lefelau T ar gael yn Gymraeg, ac mae cyrff dyfarnu sy'n cael y contract i ddatblygu'r cymwysterau newydd wedi datblygu/yn eu datblygu yn Saesneg yn unig. Pe bai Lefelau T yn cael eu cyflwyno yng Nghymru, byddai angen i gynnwys ac asesiadau Lefelau T fod ar gael yn Gymraeg. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i'r Safonau Galwedigaethol y mae Lefelau T yn cael eu seilio arnynt. Byddai angen cymeradwyaeth y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol ar gyfer hyn hefyd. Mae'n debygol y byddai angen cyllid gan y llywodraeth i helpu cyrff dyfarnu i ddarparu'r cymwysterau yn Gymraeg ac efallai y bydd angen y cyllid hwn gydol oes y Lefelau T, yn enwedig mewn pynciau lle byddai'r niferoedd isel yn ei gwneud hi'n anhyfyw eu cynnig yn Gymraeg heb gymhorthdal.

- Datblygwyd Lefelau T gan baneli Lefel T sy'n cynnwys darparwyr dysgu, cyflogwyr a chyrff proffesiynol yn Lloegr (wedi'i goruchwylio gan y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol). Felly, mae Lefelau T wedi cael eu datblygu i ddiwallu anghenion cyflogwyr a darparwyr dysgu yn Lloegr, ac efallai na fyddant yn diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr dysgu yng Nghymru.

Byddai angen cymorth ariannol sylweddol gan y llywodraeth i gefnogi darparwyr dysgu ac i gymell cyflogwyr i dderbyn myfyrwyr Lefel T ar gyfer lleoliadau gwaith.

Darparwyd cymorth ariannol yn Lloegr, yn gyntaf oherwydd nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad sy'n angenrheidiol ar gyfer y rhaglenni, a hefyd ar gyfer lleoliadau yn y diwydiant. Gall darparwyr dysgu yn Lloegr hefyd wneud cais am gyllid cyfalaf i brynu offer arbenigol ac i adnewyddu cyfleusterau presennol neu adeiladu adeiladau newydd. Mae dros £400m o gyllid cyfalaf wedi cael ei ddarparu hyd yma. Yn ogystal â hynny, mae cyflogwyr a darparwyr dysgu yn cael cyllid cymhelliant ar gyfer myfyrwyr Lefel T sy'n cael lle ar leoliadau mewn diwydiant.

Roedd adborth gan randdeiliaid yn Lloegr yn dangos, er bod Lefelau T yn gymwysterau cadarn a heriol, gyda'r potensial i ymgysylltu'n gryf â chyflogwyr, roedd heriau o ran eu rhoi ar waith. Hefyd, roedd teimlad nad oedd Lefelau T yn briodol ar gyfer pob dysgwr lefel 3 ac y gallai rhai dysgwyr golli cyfleoedd heb gymwysterau lefel 3 eraill. Datgelodd adborth arall rywfaint o ddryswch o ran llywodraethu – pa sefydliad sy'n cymryd yr awenau pan fydd problemau i'w datrys, a'i bod hi'n anodd integreiddio'r lleoliad gwaith i amserlenni ar gyfer dysgwyr. Mae rhanddeiliaid yng Nghymru yn pryderu nad yw Lefelau T yn cael eu datblygu ym mhob llwybr a allai fod yn bwysig i Gymru, fel twristiaeth, cynhyrchu bwyd ac ynni adnewyddadwy.

Wrth wneud ein hargymhellion, rydym wedi rhoi sylw penodol i'r canlynol:

- y statws uchelgeisiol y mae'r Lefel T yn ceisio ei gyrraedd
- yr ymgysylltiad cryf â chyflogwyr wrth ddatblygu a chyflawni
- y diffyg cynhwysiant ymddangosiadol mewn Lefelau T a allai roi rhai dysgwyr dan anfantais
- yr heriau sy'n gysylltiedig â lleoliadau gwaith
- y strwythurau llywodraethu
- y ffaith nad yw'r canlyniadau wedi'u profi hyd yma

**Argymhelliad 29: Ni ddylai Cymru fabwysiadu'r un dull gweithredu ag yn Lloegr wrth roi Lefelau T ar waith, ond dylai gadw golwg wrth i'r cymwysterau aeddfedu.**

### 6.4 Dewis 3 – Rheoli cymwysterau galwedigaethol mewn ymateb i ddatblygiadau yn Lloegr a gwledydd eraill y DU

Un o'r prif bryderon cyn dechrau'r adolygiad hwn oedd y risg y byddai cymwysterau'n cael eu dad-gyllido yn Lloegr, a'r goblygiadau dilynol i'r cymwysterau hynny yng Nghymru. Y risg a nodwyd oedd y gallai nifer y cofrestriadau yng Nghymru ar gymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu dad-gyllido yn Lloegr fod yn rhy fach i'r cyrff dyfarnu ystyried bod y cymwysterau yn ariannol hyfyw yn y dyfodol, ac y byddai'r cymwysterau hynny'n cael eu tynnu'n ôl gan y cyrff dyfarnu dan sylw.

Mae Adran Addysg Llywodraeth y DU eisoes wedi cyhoeddi rhestrau o gymwysterau a fydd yn cael eu dad-gyllido neu a allai gael eu dad-gyllido o ganlyniad i dair ton

gyntaf Lefelau T. O 2025 ymlaen, bydd y cymwysterau newydd cyntaf ar lefel 2 ac is yn cael eu cyflwyno. Bydd angen i gyrff dyfarnu gyflwyno eu cymwysterau i'w cymeradwyo yn erbyn set newydd o feini prawf, ac o ganlyniad, mae perygl y bydd cyrff dyfarnu'n penderfynu rhoi'r gorau i gynnig rhai cymwysterau lle mae'r gost a'r ymdrech o'u hadolygu a'u diweddaru yn rhy uchel. Byddai hyn yn golygu bod rhai cymwysterau'n peidio â chael eu cynnig mwyach yng Nghymru.

Lle nodwyd risgiau – i gymwysterau galwedigaethol lefel 3 ar hyn o bryd – mae Cymwysterau Cymru wedi gweithio gyda chyrff dyfarnu i'w hannog i ymestyn dyddiad cychwyn terfynol nodweddiadol cymwysterau galwedigaethol priodol yng Nghymru. Er ei fod yn ateb tymor byr, mae'n cyflwyno rhywfaint o sicrwydd i gyflogwyr a darparwyr dysgu, tra bo'r cynllun gweithredu'n parhau yn Lloegr, gan gydnabod bod oedi cyn gweithredu eisoes yn digwydd yn Lloegr.

Mae'r cyrff dyfarnu y siaradwyd â nhw yn ystod yr adolygiad hwn wedi bod yn gadarnhaol o ran ymestyn dyddiadau cychwyn terfynol nodweddiadol ar gyfer cymwysterau, ac yn wir, o ran eu dymuniad i weithio gyda Chymru. Mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi dweud bod sgyrsiau â chyrff dyfarnu wedi bod yn 'galonogol o gadarnhaol'.

Fodd bynnag, mae'r dewis hwn yn adweithiol yn hytrach na rhagweithiol – mae'n ymateb i newid a orfodir yn allanol, ac felly nid yw'n bodloni'r dyheadau sydd gennym ar gyfer addysg, hyfforddiant a chymwysterau galwedigaethol yng Nghymru. Felly, mae elfen o risg o hyd o ran yr ystod o gymwysterau a fydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn y dyfodol. Rhaid ystyried hyn ochr yn ochr â'r nifer isel o ardystiadau mewn llawer o gymwysterau ac felly hyfywedd isel dewisiadau *wedi'u gwneud i Gymru* ac i Cymwysterau Cymru ddefnyddio ei bwerau i gomisiynu cymwysterau newydd lle bo angen.

Mae'r dirwedd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn gymhleth ac mae darparwyr dysgu yn benodol wedi mynegi pryder ynghylch dyfodol cymwysterau galwedigaethol o ystyried dad-gyllido cymwysterau yn Lloegr. Felly, mae'n bwysig bod Cymwysterau Cymru'n cyfathrebu'n fanwl ac yn rheolaidd â darparwyr dysgu i roi gwybod iddynt am gymwysterau sydd mewn perygl, a'r camau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r risg. Byddai'n ddefnyddiol pe bai diweddariadau rheolaidd i newidiadau i ddyddiadau cychwyn terfynol nodweddiadol yn cael eu cyfleu mewn ffordd systematig i ddarparwyr dysgu, er mwyn helpu i gynllunio'r cwricwlwm.

**Argymhelliad 30: Fel mesur tymor byr/canolig, dylai Cymwysterau Cymru barhau i weithio gyda chyrff dyfarnu i ymestyn dyddiad dechrau terfynol arferol y cymwysterau lle bo hynny'n briodol, a dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddarparwyr dysgu am newidiadau posibl i gymwysterau drwy gyfathrebu clir a rheolaidd.**

## 6.5 Dewis 4 – Datblygu ac ehangu cymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru* yng nghyd-destun asesiad cenedlaethol o anghenion sgiliau a galwedigaethol

Mae blaenoriaethau strategol Cymwysterau Cymru ar gyfer 2022-2027 yn nodi pum thema allweddol sy'n sail i'w gwaith:

- ffocws *wedi'u gwneud i Gymru* – gan gynnwys sicrhau cynnig cynaliadwy o gymwysterau dwyieithog o ansawdd uchel
- mabwysiadu agwedd esblygol ddeinamig at gymwysterau er mwyn iddynt barhau i fod yn gyfoes ac yn berthnasol i gymdeithas fodern
- rheoli newid yn ofalus ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i hybu ymrwymiad a chyflawni diwygiadau'n llwyddiannus
- defnyddio eu dylanwad i hybu dulliau asesu modern ac arloesol
- sicrhau bod lles dysgwyr wrth galon eu penderfyniadau

Mae'r cyntaf o'r rhain – cymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru* – wedi bod yn destun trafodaeth helaeth yn y grŵp llywio ac ymysg rhanddeiliaid yn ystod yr adolygiad hwn. Felly, byddwn yn ystyried y dewis hwn mewn tri cham:

- beth yw ystyr cymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru*?
- beth yw ein profiad hyd yma o gymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru*?
- sut dylem fwrw ymlaen â datblygu cymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru*?

### Beth yw ystyr cymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru*?

Fe wnaethom sylweddoli'n gynnar nad oedd dealltwriaeth gyffredin o ystyr cymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru*. Roedd Cylch Gorchwyl yr adolygiad yn cyfeirio at gymwysterau galwedigaethol 'wedi'u gwneud yng Nghymru' a chymwysterau galwedigaethol 'wedi'u gwneud i Gymru'.

Bu'r grŵp llywio'n trafod y gwahanol dermau. Cafwyd llawer o gwestiynau ynghylch *wedi'u gwneud yng Nghymru* ac roedd trafodaethau gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys cyrff dyfarnu, yn cwestiynu'r dehongliad, fel:

- a yw hyn yn golygu y bydd angen i bob corff dyfarnu fod wedi'i leoli yng Nghymru os yw ei gymwysterau'n cael eu cynnig yng Nghymru?

- a fyddai hyn yn golygu na fyddai cyrff dyfarnu sydd eisoes yn gweithredu yng Nghymru yn gallu gwneud hynny mwyach, gyda risg y byddai cymwysterau galwedigaethol hirsefydlog ac uchel eu parch yn peidio â chael eu cynnig mwyach?

- beth allai ddigwydd i gymwysterau arbenigol sy'n cael eu cynllunio a'u datblygu gan sefydliadau llai ledled y DU?

Daethom i'r casgliad fod perygl o gamddehongli'r term *wedi'u gwneud yng Nghymru* ac na ddylid ei fabwysiadu i ddisgrifio cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru.

Yna, fe wnaethom ystyried beth allai *wedi'u gwneud i Gymru* ei olygu a datblygu diffiniad. Mae'r diffiniad isod wedi cael ei dderbyn yn eang gan randdeiliaid, gydag 85% o'r ymatebwyr yn y digwyddiad rhanddeiliaid mwyaf diweddar yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r diffiniad, 3% yn anghytuno â'r diffiniad, ac nid oedd y gweddill yn cytuno nac yn anghytuno.

O ganlyniad, ein diffiniad o gymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru* yw cymwysterau sydd:

- yn cael eu cynllunio neu eu haddasu i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr yng Nghymru

- yn cynnwys rhanddeiliaid o Gymru yn y gwaith o ddylunio, datblygu ac adolygu cymwysterau

- â chynnwys sy'n ddigon hyblyg i gyd-fynd â'r cyd-destun Cymreig, ei flaenoriaethau a'i bolisïau

- ar gael yn ddwyieithog

Er bod cytundeb cyffredinol ynghylch y diffiniad o gymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru*, bu safbwyntiau cymysg ynghylch yr angen am gymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru*. Mae'r safbwyntiau hyn wedi amrywio o'r farn leiafrifol am angen diamod am gyfres o gymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru*, i farn fwyafrifol sef y dylid creu cymwysterau *wedi'i gwneud i Gymru* dim ond os gallant gynnig gwerth ychwanegol gwirioneddol uwchlaw a thu hwnt i gymwysterau presennol, neu lle mae angen addasu cymhwyster er mwyn iddo barhau i fod ar gael yng Nghymru (er enghraifft, os yw'n cael ei ddad-gyllido neu ei newid yn Lloegr).

Dylai cymwysterau o'r fath fod y 'gorau' sydd ar gael, o ran cynnwys sy'n adlewyrchu'r arferion diwydiannol/cyflogwyr diweddaraf sy'n dod i'r amlwg, bod ymgysylltu'n rhan o'r dull gweithredu, caniatáu i ddarparwyr fod yn arloesol ac yn

greadigol wrth ddarparu, a mabwysiadu methodolegau asesu sy'n adlewyrchu orau'r maes galwedigaethol dan sylw a phwrpas y cymhwyster. Mae'r holl randdeiliaid yn cytuno bod yn rhaid i gyflogwyr a phrifysgolion gydnabod yn eang unrhyw gymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru*, a bod yn rhaid iddynt gael eu derbyn yn genedlaethol ac yn rhyngwladol lle bo hynny'n briodol.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch Cymru'n 'gwyro' oddi wrth ddull gweithredu ar draws y DU, ond mewn gwirionedd, mae gwahaniaeth eisoes yn y system addysg – ar gyfer cymwysterau academaidd a galwedigaethol. O safbwynt academaidd, dim ond graddio TGAU y mae'n rhaid inni ei ystyried, a'r dull a ddefnyddir ar gyfer Safon Uwch/Uwch Gyfrannol i ddangos y gwahaniaeth hwnnw.

**Argymhelliad 31: Dylid derbyn yr ymadrodd *wedi'u gwneud i Gymru* fel terminoleg, ac y dylid mabwysiadu'r diffiniad o gymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru*.**

**Beth yw ein profiad hyd yma o gymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru*?**

Mae'r setiau cyntaf o gymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru* wedi cael eu cyflwyno mewn dau faes pwnc sector: iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, ac adeiladu a gwasanaethau adeiladu. Canfu adolygiad Estyn o'r cwricwlwm 16-19 oed ymateb cadarnhaol ar y cyfan i'r cymwysterau galwedigaethol newydd *wedi'u gwneud i Gymru* ond nododd fod llawer o ddarparwyr dysgu wedi mynegi rhywfaint o rwystredigaeth gyda phroblemau cynnar ynghylch dylunio a gweithredu rhai o'r cymwysterau newydd. Cynhaliodd Cymwysterau Cymru 'adolygiadau cyflym' o'r ddwy gyfres o gymwysterau galwedigaethol newydd i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan ddarparwyr dysgu.

Wrth gyflwyno'r cyfresi newydd o gymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru* fel y nodir uchod, cyflwynodd Cymwysterau Cymru 'gyfyngiadau'. Pan fydd dull gweithredu *wedi'u gwneud i Gymru* yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff dyfarnu ddatblygu cymwysterau i fodloni gofynion newydd, mae'n golygu penderfyniad masnachol ganddynt ynghylch a ddylid buddsoddi mewn newid. Lle mae maint y farchnad yng Nghymru yn ffactor, mae gan Cymwysterau Cymru bwerau i gyfyngu a chomisiynu neu ddewis cymwysterau newydd – mae hyn yn golygu y gellir adennill y buddsoddiad a wneir gan y corff dyfarnu dros gyfnod y cyfyngiad (pump i saith mlynedd fel arfer). Mae'r cyfyngiad yn ennyn yr ymateb masnachol gofynnol gan sefydliadau dyfarnu, ond mae'n anochel yn lleihau'r dewis i ddarparwyr gan nad yw cymwysterau nad ydynt yn bodloni'r gofynion *wedi'u gwneud i Gymru* yn gymwys mwyach i gael cyllid cyhoeddus.

Roedd adborth cadarnhaol ar y cymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru* newydd yn cynnwys pwysigrwydd diweddaru cynnwys y ddarpariaeth, perthnasedd y cymwysterau i Gymru, ac mewn llawer o achosion, ehangder y cymhwyster.

*‘Mae’r cymwysterau’n gam mawr ymlaen... Rydyn ni wedi cael mwy o drafodaethau nag erioed o’r blaen gyda Cymwysterau Cymru a’r cyrff dyfarnu. Dydw i ddim yn gwybod am unrhyw beth tebyg sydd wedi cael ei wneud. Maen nhw wedi gwneud popeth o fewn eu gallu.’*

*(Darparwyr Dysgu)*

Fodd bynnag, byddai’n deg dweud bod y problemau sy’n deillio o gyflwyno’r setiau cyntaf o gymwysterau *wedi’u gwneud i Gymru*, effaith y problemau hynny ar ddysgwyr, darparwyr dysgu a chyflogwyr yn y pen draw wedi effeithio’n andwyol ar ganfyddiad y cymwysterau.

Mae’r pryderon hynny wedi cynnwys:

- Maint y cymwysterau – rhai yn rhy fawr o’u cymharu â chymwysterau blaenorol
- Swmp a dyfnder y cynnwys, gyda mwy o ffocws mewn rhai achosion ar gynnwys theori
- Cydbwysedd amser cyflawni/amser asesu
- Methodolegau asesu a chyfnodau asesu, gyda rhagor o bwyslais ar aseiniadau ysgrifenedig
- Mynediad at Addysg Uwch i rai dysgwyr, yn enwedig i brifysgolion y tu allan i Gymru

Roedd adroddiad diweddar ar ‘Hyder rhanddeiliaid mewn cymwysterau nad ydynt yn raddau’ a gomisiynwyd gan Cymwysterau Cymru ac a gynhaliwyd gan Beaufort Research[87] yn cefnogi’r canfyddiadau hyn. Canfu’r ymchwil nad oedd rhai rhanddeiliaid ‘yn credu bod cymwysterau [wedi’u gwneud i Gymru] yn ‘gweithio’ nac yn diwallu anghenion dysgwyr, er gwaethaf ymgynghori eang. Roedd yn ymddangos i rai fel petai sylwadau’r sector addysg heb gael sylw gwirioneddol a digonol yn ystod ymgynghoriadau.’ Fel y nodwyd yn flaenorol, mae’r adolygiadau cyflym a gynhaliwyd gan Cymwysterau Cymru wedi tynnu sylw at wersi pwysig y mae’n rhaid eu hystyried yn ofalus mewn adolygiadau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 32: Pan fydd Cymwysterau Cymru yn comisiynu cymwysterau newydd, byddant yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff sy’n**

[87] https://cymwysterau.cymru/media/vvkfmgfx/hyder-rhanddeiliaid-mewn-cymwysterau-nad-ydynt-yn-raddau-yng-nghymru-ac-yn-y-system-gymwysterau.pdf

**cynrychioli darparwyr dysgu i sefydlu datblygiad proffesiynol a goblygiadau o ran adnoddau, ac yn datblygu cynllun gweithredu ar y cyd.**

### Sut dylem fwrw ymlaen â datblygu cymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru*?

Mae'n amlwg bod manteision ynghlwm wrth gymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru*. Gellid datblygu'r holl gymwysterau galwedigaethol yn erbyn y set o egwyddorion a gynigir yn argymhelliad 2 a gallwn ddarparu cymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru* ym mhob sector, yn unol â'r meini prawf sy'n briodol i Gymru yn ein barn ni.

Y gwrthwynebiad allweddol i gymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru* yw'r gostyngiad yn y dewis a welwyd mewn dau sector hyd yma. Fel yr adroddwyd yn gynharach, mae darparwyr dysgu yn gallu dewis y cymhwyster sy'n gweddu orau i grwpiau o ddysgwyr, anghenion cyflogwyr yn eu hardal leol, y cynnwys cwricwlwm maent yn teimlo sydd fwyaf perthnasol, y dull dysgu ac addysgu maent yn teimlo sy'n cynnig y cyfleoedd gorau ar gyfer arloesi, ac y gellir eu hintegreiddio orau i raglenni dysgu unigol. Roedd rhai darparwyr dysgu yn derbyn, o ystyried y gwahanol ddulliau yng ngwledydd y DU, y gallai fod yn anodd cadw'r dewis sydd ar gael ar hyn o bryd, ond roedd y mwyafrif helaeth yn teimlo y dylid gwneud popeth posibl i gadw'r dewis hwnnw.

Fodd bynnag, mae'n bosibl bod cyfyngu ar gymwysterau yn y ddau faes pwnc sector yr effeithiwyd arnynt fwyaf, a'r heriau o ran gweithredu, wedi dylanwadu ar rai o'r safbwyntiau hyn. Mae ffyrdd eraill o ennill cymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru* heb orfod cyfyngu ac sydd wedi bod yn effeithiol mewn sectorau eraill fel peirianneg, lle na fu effaith ar y dewis.

Roedd cludadwyedd cymwysterau hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig iawn. Mae angen cydnabod cymwysterau *wedi'i gwneud i Gymru* yn genedlaethol ac, mewn llawer o achosion, yn rhyngwladol. Byddai angen iddynt fod yn dderbyniol i gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch, ac mae profiad blaenorol wedi dangos y gall hyn fod yn heriol.

Mae pryderon ynghylch cost cymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru*. Mae Cymwysterau Cymru wedi dweud wrthym fod y gyfres newydd o 22 cymhwyster ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yn costio dros £3.0 miliwn i'r cyrff dyfarnu eu datblygu a'u cyflwyno, heb gynnwys costau darparu parhaus. Nid yw'r holl gostau ychwanegol i'r system gymwysterau wedi'u cynnwys yn y gost hon, gan gynnwys gwaith Cymwysterau Cymru, cyrff sector a darparwyr dysgu.

Felly beth mae hyn i gyd yn ei olygu o ran argymell ehangu cymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru* yn y dyfodol? Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion sy'n cyfrannu at gynllun ar gyfer y dyfodol.

Cam 1:

Rydym wedi argymell strategaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol sy'n rhan o gyd-destun dysgu ôl-16 (argymhelliad 1). Rydym hefyd wedi argymell bod Llywodraeth Cymru'n cynnal asesiad o'r gofynion galwedigaethol a sgiliau ar gyfer y dyfodol (argymhelliad 3).

Cam 2:

Yng nghyd-destun yr asesiad hwn, rydym wedi argymell bod Cymwysterau Cymru'n adnewyddu ei ddull ar gyfer adolygiadau sector (argymhelliad 5) gan ailedrych ar y sectorau sydd eisoes wedi cael eu hadolygu lle bo angen, ac ehangu cylch gwaith ei grwpiau cymwysterau sector (argymhelliad 6). Gan gydnabod bod adolygu cymwysterau galwedigaethol yn dasg sylweddol, mae angen parhau ag adolygiadau sector ar sail ailadroddol. Rydym wedi argymell y dylai'r dull a fabwysiadwyd yn dilyn y rownd bresennol o adolygiadau ystyried edrych ar yr egwyddorion a nodir yn argymhelliad 3 a themâu penodol ar draws pob sector fel enghreifftiau.

Rydym nawr yn argymell ymhellach bod Cymwysterau Cymru'n cynhyrchu cynllun 10 mlynedd ar gyfer adolygu sectorau, neu themâu penodol mewn ac ar draws sectorau. Dylai'r cynllun hwn ystyried y gofynion sy'n dod i'r amlwg o ran anghenion galwedigaethol a sgiliau yng Nghymru, ond dylai hefyd fod yn ymwybodol o newidiadau yn Lloegr a gwledydd eraill y DU. Dylid cysoni'r cynllun hwn ag arolygiadau thematig Estyn lle bo hynny'n briodol, er mwyn i adborth o arolygiadau Estyn ar ddysgu ac addysgu allu llywio'r adolygiadau unigol.

Dylai'r adolygiadau sector ystyried cymwysterau cyn-16, yn enwedig cymwysterau galwedigaethol cyn-16, yn unol ag argymhelliad 22. Dylai'r adolygiadau sector hefyd nodi llwybrau cynnydd lle mae angen gwneud hynny, yn unol ag argymhelliad 23.

Cam 3

Rhan olaf y jig-so yw asesiad ym mhob adolygiad sector o ba gymwysterau y dylid eu *gwneud i Gymru*. Nid ydym yn credu ei bod hi'n iawn datblygu'r holl gymwysterau galwedigaethol fel cymwysterau *wedi'i gwneud i Gymru*. Ar lefel ymarferol, mae dros 2,500 o gymwysterau galwedigaethol ar lefel 1-5, llawer ohonynt â llai na 100 o gofrestriadau. Mae dros 12,000 o gymwysterau galwedigaethol rheoleiddiedig eraill ar gael ar hyn o bryd, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u cyd-reoleiddio.

Fodd bynnag, yn yr adolygiadau sector diwygiedig, dylid cael dull graddol o wneud cymwysterau galwedigaethol *i Gymru*, gan dargedu'r rheini sydd â'r nifer uchaf o gofrestriadau, y rheini sy'n ymddangos mewn fframweithiau prentisiaeth, neu gymwysterau yn ôl lefel. Mae angen inni feithrin hyder mewn cymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru*, gan ddysgu gwersi o'r adolygiadau cyflym a gynhaliwyd a sicrhau ein hunain nad yw dysgwyr yn cael eu rhoi dan anfantais drwy gyflwyno'r cymwysterau cyn y gellir sicrhau hyder a derbyniad.

Rydym yn argymell, lle bynnag y bo modd, na ddylai'r cymwysterau *wedi'u gwneud i Gymru* arwain at gyfyngiad sy'n atal dewis. Pan nodir angen i ddiwygio cymwysterau, byddem yn argymell y dylid rhoi blaenoriaeth i wneud newidiadau i gymwysterau presennol yn hytrach na chyfyngu a chomisiynu cymwysterau newydd.

Dylid bod yn ofalus wrth gyfyngu, a gwneud hynny dim ond pan fo'n gwbl angenrheidiol er mwyn sicrhau ymrwymiad cyrff dyfarnu. Fodd bynnag, nodwn y gall Cymwysterau Cymru gyfyngu i fwy nag un corff dyfarnu. Nid oes rhaid i gymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru* gyfyngu ar y farchnad – eu hanfod yw annog y farchnad i weithio gyda ni drwy addasu, ymateb cyflym, a darparu cymwysterau galwedigaethol sy'n denu cyflogwyr, dysgwyr a darparwyr dysgu.

**Argymhelliad 33: Dylai Cymwysterau Cymru adnewyddu ei ddull o adolygu'r sector drwy ddatblygu cynllun 10 mlynedd, gan gynnwys adolygiadau thematig, a nodi cymwysterau y dylid eu *gwneud i Gymru*. Lle bo angen diwygio cymwysterau, dylai Cymwysterau Cymru ystyried yn gyntaf yr opsiynau ar gyfer diwygio neu addasu cymwysterau presennol, a dim ond lle mae angen sicrhau ymrwymiad cyrff dyfarnu y dylai Cymwysterau Cymru gyfyngu a chomisiynu cymwysterau newydd.**

### 6.6 Crynodeb


Wrth werthuso'r dewisiadau sydd gennym ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru, rydym wedi ystyried nifer o ffactorau. Ein prif bryder oedd yr effaith ar y dysgwr – sut bydd unrhyw argymhellion a wnawn yn effeithio ar allu dysgwr i gofrestru ar y cymhwyster/cymwysterau iawn, a chamu ymlaen i'r yrfa o'i ddewis.

Yna bu'n rhaid inni ystyried y ffordd orau o gyflawni hynny. Sut gallwn sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr addysg a'r hyfforddiant galwedigaethol priodol, a'i fod wedi cofrestru ar y cymhwyster iawn ar ei gyfer? Yn hyn o beth, mae cael dewis o gymwysterau yn cael ei ystyried yn bwysig – mae'n caniatáu i ddarparwyr dysgu ymateb i unigolion, i garfannau o ddysgwyr, ac i'w hanghenion cyflogaeth lleol. Mae'n caniatáu i ddarparwyr dysgu symud rhwng cyrff dyfarnu lle gallai cynnwys neu ddarpariaeth fod yn fwy addas i garfannau o ddysgwyr.

Ar y llaw arall, mae posibilrwydd o gymwysterau galwedigaethol yn cael eu dad-gyllido yn Lloegr, a goblygiadau posibl hynny i gynaliadwyedd y cymwysterau hynny yng Nghymru.

Gwyddwn yng Nghymru sut beth dylai ein cymwysterau fod – rydym yn glir am egwyddorion sylfaenol a phwrpas ein cymwysterau.  Rydym hefyd yn glir, wrth gyflwyno unrhyw gymhwyster newydd, na ddylid rhoi dysgwyr dan anfantais ac y dylid cynllunio'r gwaith o weithredu cymwysterau o'r fath yn ofalus.

Efallai mai dyma'r ffordd orau o ddangos ein dull gweithredu arfaethedig:




Credwn mai'r dull gorau y gallem ei ddefnyddio yw mabwysiadu dull newydd ar gyfer adolygiadau sector, gan gynllunio o fewn y rhain pa gymwysterau y dylid eu *gwneud i Gymru*, ac yn y lle cyntaf, addasu cymwysterau galwedigaethol i gadw at yr egwyddorion newydd rydym wedi'u cynnig.  Dim ond pan fo angen y byddai cyfyngu'n llawn ar gymwysterau galwedigaethol yn cael ei ddefnyddio. Drwy wneud hynny, mae gennym ddull gweithredu graddol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol *wedi'u gwneud i Gymru*, yn hytrach na mabwysiadu cymwysterau newydd.

Rydym yn seilio'r argymhelliad hwn ar brofiad a thystiolaeth, ac yn credu'n gryf y gallwn, drwy hyn, sicrhau'r strwythur cymwysterau galwedigaethol sy'n diwallu anghenion ein dysgwr, ein heconomi a'n cymdeithas orau.

# Atodiad 1: Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Cymwysterau Galwedigaethol

## Cyflwyniad

Mae'r ymrwymiad i adolygu'r cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael i ddysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru yn elfen allweddol o'r Cytundeb Cydweithio (2021) rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i arwain gwaith Llywodraeth Cymru yn y Senedd bresennol.[88] Nodir yr amcanion canlynol yn y Cytundeb Cydweithio:

*'Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn arwain y ffordd drwy ddiwygio cymwysterau mewn ffordd sylfaenol, gan ganolbwyntio ar brofiadau a lles. Bydd ein cymwysterau diwygiedig yr un mor uchelgeisiol â chwricwlwm newydd Cymru. Byddwn yn ehangu cryn dipyn ar yr amrediad o gymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu 'gwneud yng Nghymru' er mwyn diwallu anghenion ein dysgwyr a'n heconomi.*

Cafodd yr angen i ddechrau'r adolygiad hwn yng Ngwanwyn 2022 ac ystyried y camau angenrheidiol i 'ehangu cryn dipyn ar yr amrediad o gymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu gwneud yng Nghymru' ei ddwyn i sylw gan benderfyniad Llywodraeth San Steffan i ddad-gyllido nifer fawr o gymwysterau galwedigaethol lefel 2 a 3 erbyn 2024 fel rhan o'r broses o gyflwyno lefelau T' yn Lloegr[89] [90] [91].

Mae'r gostyngiad arfaethedig yn nifer y dyfarniadau galwedigaethol sydd ar gael yn Lloegr yn debyg o effeithio ar holl wledydd y D.U. gan y bydd yn ei gwneud rhai dyfarniadau penodol yn llai cost-effeithiol a hyfyw yn fasnachol os ydynt ond ar gael mewn un neu fwy o wledydd llai y DU. Mae hyn yn peri problemau am dri rheswm. Yn gyntaf, gallai effeithio ar argaeledd cymwysterau galwedigaethol sydd eu hangen ar gyfer diwydiannau a galwedigaethau pwysig yng Nghymru, e.e. afioneg, gofal plant, seiberddiogelwch, yswiriant technoleg ariannol, gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ail, efallai na fydd y math o gymwysterau a ddarperir yn y dyfodol yn bodloni gofynion fframweithiau prentisiaeth Cymru na llwybrau hyfforddiant cysylltiedig sy'n seiliedig ar waith, fel y mae'r cyrff dyfarnu'n ei fwriadu ar hyn o bryd. Yn olaf, mae angen inni ystyried goblygiadau'r newidiadau o ran argaeledd cymwysterau galwedigaethol a gaiff eu cyflwyno a'u hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Nodau ac amcanion

Bydd yr adolygiad o gymwysterau galwedigaethol yn cynnwys y chwe amcan canlynol:

1. Cofnodi a gwneud sylwadau ar berthnasedd ac effeithiolrwydd y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd ar lefelau 1, 2, 3, 4 a 5, a nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu pellach arnynt.

[88] Y Cytundeb Cydweithio:2021 | LLYW.CYMRU
[89] **Gwall! Dydy cyfeirnod yr hyperddolen ddim yn ddilys.**
[90] **Gwall! Dydy cyfeirnod yr hyperddolen ddim yn ddilys.**
[91] **Gwall! Dydy cyfeirnod yr hyperddolen ddim yn ddilys.**

2. Nodi’r modelau rhyngwladol gorau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, gan gynnwys unrhyw dueddiadau a newidiadau diweddar, a pha mor addas a pherthnasol ydynt yma, yn enwedig yng nghyd-destun uchelgeisiau a nodau’r Cwricwlwm newydd i Gymru.

3. Ystyried effaith cymwysterau Lefel T newydd ar Gymru a’r opsiynau, gan gynnwys dewisiadau eraill, ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

4. Ystyried gwaith a wnaed gan Cymwysterau Cymru i ganfod pa gymwysterau galwedigaethol presennol y mae cyrff dyfarnu yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn bwriadu eu gwneud i newid yr ystod o gymwysterau galwedigaethol maent yn eu cynnig ar lefelau 1, 2, 3, 4 a 5 dros y pedair blynedd sy’n weddill ar y Senedd bresennol.

5. Amlinellu a gwerthuso’r opsiynau ar gyfer Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a darparwyr cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn sgil y newidiadau tebygol a nodwyd o dan bwyntiau 1 i 4 uchod.

6. Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ac Aelodau Dynodedig ynghylch ffurf ac amseriad yr ehangu sylweddol ar gymwysterau galwedigaethol sydd wedi cael “eu gwneud yng Nghymru” a rhai sydd wedi cael “eu gwneud i Gymru” yn ystod y cyfnod rhwng 2023 a 2026. Bydd hyn yn cynnwys yr adnoddau ychwanegol a’r gofynion cyllido i gefnogi unrhyw newidiadau arfaethedig.

**Llywodraethu a threfniadaeth**

Arweinydd yn y maes yng Nghymru fydd yn cadeirio’r grŵp llywio a fydd yn goruchwylio’r adolygiad o gymwysterau galwedigaethol. Bydd aelodau’r grŵp llywio hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o’r sefydliadau canlynol:

- Colegau Cymru
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
- Estyn
- Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB)
- Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB)
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW)
- Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (NUS Cymru)
- Cymwysterau Cymru (QW)
- Undeb y Prifysgolion a Cholegau (UCU)

Bydd gwaith y grŵp llywio’n cael ei adrodd a’i drafod ym Mwrdd Polisi Gweinidog y Gymraeg ag Addysg a’r Bwrdd Strategaeth a Gweithredu. Bydd yr adroddiadau hyn yn manylu ar gynnydd, problemau a risgiau yn ogystal â chynlluniau a rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

**Amserlen y gwaith**

Bydd yr adolygiad o gymwysterau galwedigaethol yn canolbwyntio ar bum gweithdy lle gwahoddir swyddogion Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr allanol i amlinellu crynodeb o ymchwil diweddar ar bolisi a gweithgarwch mewn meysydd perthnasol, yn ogystal â hwyluso trafodaeth ar y cwestiynau canlynol.

1. Pa gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael ac sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru?

2. Beth yw cynigion Llywodraeth San Steffan er mwyn diwygio cymwysterau galwedigaethol yn Lloegr?

3. Beth mae cyrff dyfarnu cymwysterau galwedigaethol y DU yn bwriadu ei wneud dros y pedair blynedd nesaf i newid patrwm y ddarpariaeth cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru?

4. Pa opsiynau sydd gan Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a darparwyr i addasu'r cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru? Pa opsiynau sydd ar gael i ehangu'n sylweddol nifer ac amrediad y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer creu cymwysterau galwedigaethol sydd wedi cael "eu gwneud yng Nghymru"? Pa un fydd y ffordd orau i'r rhain ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg? Beth yw'r modelau gorau o gymwysterau galwedigaethol yn Erwop y gallai Cymru ystyried eu mabwysiadu? Pa ddiwygiadau sydd eu hangen i gyd-fynd ag uchelgais a gwerthoedd cwricwlwm newydd Cymru?

5. Pa gamau y dylid eu cymryd i roi ar waith unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru?

Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau (FEAD) yn Llywodraeth Cymru fydd yn darparu gwaith ysgrifenyddol ar ran y grŵp llywio a'r gweithdai cysylltiedig.

Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn cynhyrchu crynodeb o drafodaethau a chasgliadau pum gweithdy a thrafodaethau'r Grŵp Llywio ynghyd â'r argymhellion i Lywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru a bydd y Grŵp Llywio yn cytuno arno i'w gyhoeddi a'i gyflwyno i'r Gweinidog Addysg ac Aelodau Dynodedig yng Ngwanwyn 2023.

**Nodyn Briffio Ehangach – Cymwysterau Galwedigaethol**

**Y Cefndir**

Mae cymwysterau galwedigaethol yn cyfrif am y mwyafrif o'r cymwysterau a gaiff eu rheoleiddio a'u dyfarnu i ddysgwyr yng Nghymru. Maent yn asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a/neu sgiliau sy'n berthnasol i fyd gwaith yn benodol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21, roedd 168,095 o raglenni galwedigaethol, sef 88 y cant o'r holl raglenni a ddarparwyd ar draws rhaglenni dysgu seiliedig ar waith ac unrhyw raglen mewn addysg bellach neu addysg oedolion na chafodd ei nodi'n raglen ddysgu TGAU, Safon Uwch Gyfrannol, Safon Uwch neu'r Fagloriaeth Ryngwladol.

Mae'r mwyafrif helaeth o gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd hefyd ar gael yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu**

Mae dau ymrwymiad clir yn y Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â diwygio Cymwysterau Galwedigaethol:

- Hyrwyddo parch cydradd rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd mewn addysg yng Nghymru.

- Diwygio cymwysterau a mynd ati i ehangu'n sylweddol yr ystod o gymwysterau galwedigaethol sydd wedi cael eu 'gwneud yng Nghymru'.

**Ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio**

Gwneir yr ymrwymiad canlynol yn y Cytundeb Cydweithio:

*'Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn arwain y ffordd drwy ddiwygio cymwysterau mewn ffordd sylfaenol, gan ganolbwyntio ar brofiadau a lles. Bydd ein cymwysterau diwygiedig yr un mor uchelgeisiol â chwricwlwm newydd Cymru. Byddwn yn ehangu cryn dipyn ar yr amrediad o gymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu 'gwneud yng Nghymru' er mwyn diwallu anghenion ein dysgwyr a'n heconomi.*

**Diwygio Cymwysterau Galwedigaethol yn Lloegr**

- Cyhoeddodd yr Adran Addysg ei hymateb i ail ymgynghoriad ar adolygiad o gymwysterau L3 sy'n cadarnhau y bydd unrhyw gymwysterau sy'n gorgyffwrdd â Lefelau T a/neu nad ydynt yn bodloni meini prawf penodol, yn cael eu dad-gyllido yn Lloegr o fis Awst 2024 ymlaen ar y cynharaf.

- Ar 23 Tachwedd 2021, lansiodd Pwyllgor Addysg Tŷ'r Cyffredin ymchwiliad i 'effeithiolrwydd' cymwysterau ôl-16; Safon Uwch, Lefelau T, BTEC a phrentisiaethau. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried a ddylid cyflwyno system bagloriaeth newydd a fyddai'n "caniatáu i bobl ifanc astudio mwy o gyfuniad o bynciau academaidd a galwedigaethol" yn eu lle.

- Mae'r Adran Addysg wedi ymrwymo i ddarparu rhestr i Cymwysterau Cymru o gymwysterau Lefel 3 a fydd yn cael eu dad-gyllido yn y don gyntaf ym mis Ionawr 2022 cyn gwneud cyhoeddiad ffurfiol.  Deallwn bod Cymwysterau Cymru wedi cael rhestr ddangosol ac yn cynnal dadansoddiad i asesu'r effaith bosibl.

- Mae Bil Sgiliau ac Addysg ôl-16 Llywodraeth y DU yn cynnwys darpariaeth ddeddfwriaethol a fyddai, petai'n cael ei basio, yn caniatáu i'r Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol (IfATE) yn Lloegr ddarparu cyngor a chymorth, a chymryd camau y mae'n eu hystyried yn briodol, er mwyn gallu darparu Lefelau T mewn rhannau o'r DU ar wahân i Loegr, yn ogystal ag yn rhyngwladol.

**Risgiau i Ddysgwyr Cymru**

- Gallai diwygio Cymwysterau Galwedigaethol ar Lefel 3, 4 a 5 yn Lloegr olygu, pan fydd cymwysterau'n cael eu dad-gyllido a/neu'n cael eu disodli gan Lefelau T, y gallai'r cymwysterau sy'n weddill golli eu gwerth ar y farchnad ar gyfer sefydliadau dyfarnu yn Lloegr gan arwain at farchnad anhyfyw a llai o faint yng Nghymru.

- Lle mae Cymwysterau Cymru wedi comisiynu cymwysterau newydd i Gymru o ganlyniad i'w adolygiadau sector (hyd yma, ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig) dilewyd y risg a berir gan y newidiadau yn Lloegr ar gyfer y meysydd sector penodol hynny. Fodd bynnag, mae risgiau'n bodoli ar gyfer y sectorau hynny lle nad oedd adolygiadau Sector Cymwysterau Cymru yn cynnig comisiynu cymwysterau newydd yn benodol i'w defnyddio mewn colegau addysg bellach a phrentisiaethau, gan gynnwys Technoleg Ddigidol (DT) a Pheirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni (EAME).

- Ni fydd dad-gyllido'r holl Gymwysterau Sgiliau Gweithredol Lefel 2 yn Lloegr yn cael unrhyw effaith yng Nghymru oherwydd bod Cymru wedi datblygu ei chyfres ei hun o gymwysterau Sgiliau Hanfodol.

- Disgwyliad City and Guilds yw y bydd nifer o gymwysterau Defnyddwyr TGCh yn parhau i fod ar gael i ymateb i'r galw parhaus am y cymwysterau hyn. Fodd bynnag, gallai dad-gyllido cymwysterau Defnyddwyr TGCh effeithio ar gynnydd dysgwyr o Lefel 1, a mynediad uniongyrchol i Lefel 2.  Bydd gan sefydliadau dyfarnu gyfnod rhybudd i ddarparu tystiolaeth ynglŷn ag a yw cymwysterau'n cefnogi mynediad at swydd neu alwedigaeth benodol – bydd unrhyw gymwysterau sy'n parhau i dderbyn cyllid yn amodol ar adolygiad ehangach o gymwysterau. Ar hyn o bryd, dim ond ychydig iawn o ddarpariaeth o gymwysterau Lefel 2 i Ddefnyddwyr TGCh sydd wedi'i chynllunio ar gyfer 2021-2 yng Nghymru .

**Rôl Llywodraeth Cymru**

- Cynnal adolygiad o gymwysterau galwedigaethol, gan weithio gyda chyd-weithwyr mewn addysg cyn-16 a rhanddeiliaid ehangach.

- Rheoli ymgysylltiad ag adrannau'r llywodraeth ar draws y DU ac Ewrop a Chymwysterau Cymru ar oblygiadau diwygio addysg dechnegol yn UKGOV ar

Gymru, gan gynnwys adolygiad o gymwysterau ar Lefel 3 ac is, a chyflwyno Lefelau T.

- Gweithio gyda Cymwysterau Cymru i gyflwyno eu rhaglen o Adolygiadau Sector i ehangu'n sylweddol yr ystod o gymwysterau galwedigaethol sydd wedi cael 'eu gwneud yng Nghymru'.

- Gweithio gyda'r gyfarwyddiaeth addysg a Cymwysterau Cymru i adolygu Cymwysterau Cyffredinol a'r goblygiadau ar gyfer dysgu ôl-16.

- Mae sicrhau parch cydradd i lwybrau galwedigaethol ac addysgol yn ffocws allweddol i unrhyw adolygiad o gwricwlwm a chymwysterau 16-19 yn y dyfodol, a bod y rhain yn cyd-fynd â'r uchelgeisiau a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru a chymwysterau galwedigaethol 14-16 oed.

- Datblygu modelau ar gyfer systemau cynnydd effeithiol mewn addysg ôl-16.

- Gweithio gyda Gyrfa Cymru i gyflwyno 'Gŵyl Dy Ddyfodol' i godi proffil llwybrau cymwysterau galwedigaethol i ddysgwyr yn yr ysgol.

- Gwerthuso'r Rhaglen Prentisiaeth Iau gyda'r bwriad o ehangu'r ddarpariaeth.

**Diwygio Cymwysterau Galwedigaethol i Gymru**

Dyma'r egwyddorion sy'n sail i'n gwaith ar ddiwygio Cymwysterau Galwedigaethol:

- Llwybrau cynnydd ôl-16 clir a chydlynol o'r Cwricwlwm newydd i Gymru.
- Sicrhau bod gwella effeithiolrwydd cymwysterau yng Nghymru yn eu gwneud yn fwy cludadwy ar draws Ewrop ac yn rhyngwladol.
- Ehangu darpariaeth asesu cyfrwng Cymraeg a gwasanaethau eraill er mwyn ehangu a normaleiddio addysg cyfrwng Cymraeg.

**Rôl Cymwysterau Cymru**

- Diweddaru Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol 2017.

- Parhau â rhaglen o adolygiadau sector fel ei ddull craidd o adolygu cymwysterau galwedigaethol yn strategol. Nod pob adolygiad yw nodi i ba raddau y mae cymwysterau a'r system gymwysterau yn y sector hwnnw yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr.

- Cynnal cyfres o adolygiadau sector cyfnod 2 llai eang sy'n canolbwyntio ar ystyried pa mor debygol yw hi y bydd ystod addas o gymwysterau, gan gynnwys cymwysterau cyfrwng Cymraeg, ar gael yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr adolygiad cam 2 cyntaf (chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus) ym mis Medi 2021, a dechreuodd yr ail adolygiad yn ddiweddar (amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid). Mae adolygiadau pellach yn yr arfaeth ar gyfer gweinyddu busnes a manwerthu (2022), celf, disgyblaethau creadigol a'r cyfryngau (2022) a gwallt a harddwch (2023).

- Cefnogi cyflogwyr mewn sector a chyrff dyfarnu i gydweithio yn y ffordd arferol i adolygu a diwygio cymwysterau – neu ddatblygu cymwysterau newydd i ddiwallu anghenion dysgwyr.

- Dynodi bod cymwysterau fel rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar rai rhaglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus.

- Cyllido rhywfaint o asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

- Monitro cymwysterau galwedigaethol (gan gynnwys cymwysterau Sgiliau Hanfodol).

- Monitro cyrff dyfarnu.

- Mynd i’r afael â materion a nodwyd drwy ymyriadau rheoleiddiol.

- Comisiynu cymwysterau newydd a goruchwylio eu datblygiad.

- Cynnal ymchwil i gymwysterau galwedigaethol.

**Cysylltiadau â Pholisïau Ehangach Llywodraeth Cymru**

- Cynllun Cyflogadwyedd
- Polisi Prentisiaethau
- Tegwch mewn Addysg
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc

# Atodiad 2: Rhestr o gyflwyniadau a roddwyd i'r grŵp llywio o wledydd eraill

Amelia Brennan, Adran Addysg Lloegr

Catherine Sezen, Cymdeithas y Colegau

Vickie Illingworth, Pennaeth Gweithredol Coleg Chichester

Anna Dawe, Prif Swyddog Gweithredol Coleg Wigan a Leigh

David Roy – Swyddog Polisi, Adolygiad annibynnol o'r tîm cymwysterau ac asesu, Llywodraeth yr Alban

Mark Lee – Cyfarwyddwr diwygio trydyddol, Adran yr Economi, Gogledd Iwerddon

Rebecca Cope – Tîm Diwygio Cymwysterau Galwedigaethol, Adran yr Economi, Gogledd Iwerddon

Erno Hyvönen – Cydlynydd Prosiect, Adran Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol, Y Ffindir

Margrethe Marstrøm Svensrud – Pennaeth Adran ar gyfer Bywyd a Sgiliau Gwaith, Cyfarwyddiaeth Addysg Uwch a Sgiliau, Norwy

Nadia Starr – Prif Swyddog Gweithredol, Awdurdod Cymwysterau De Affrica

Vijayen Naidoo – Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Ansawdd Masnach a Galwedigaeth, De Affrica

## Atodiad 3: Cyfweliadau/cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod yr adolygiad, ac eithrio adrannau o'r llywodraeth

| Sector | Sefydliad |
|---|---|
| Ardal Fenter | Bwrdd Menter Dyfrffordd y Ddau Gleddau |
| Arolygiaeth | Estyn |
| Coleg Cymraeg Cenedlaethol | Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol | Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Comisiwn y Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg |
| Corff Cynrychioli Dysgu Seiliedig ar Waith | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| Corff Cynrychiolwyr Addysg Bellach | Colegau Cymru |
| Corff Cynrychiolwyr Addysg Uwch | Prifysgolion Cymru |
| Corff Cynrychiolwyr Ysgolion | CYDAG |
| Cyflogwyr*<br><br>*Nid yw'r rhestr o gyflogwyr yn cynnwys y rhai sy'n mynychu cyfarfodydd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, na CSConnected | Amcanu<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Grŵp Seren<br>Heddlu De Cymru<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>Anelu'n Uchel Blaenau Gwent<br>GE Aviation<br>AXIOM<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>Trivallis |
| Cyngor y Gweithlu Addysg | Pathways into Teaching |
| Cyrff Cynrychioli Cyflogwyr | CBI<br>CITB<br>Ffederasiwn y Busnesau Bach<br>Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Diwydiant Cymru<br>CSConnected |
| Cyrff Cynrychioli Undebau Llafur | Undeb Prifysgolion a Cholegau |
| Cyrff Dyfarnu | City and Guilds<br>CBAC<br>Pearsons |

| | |
|---|---|
| Darparwr Addysg Bellach/Dysgu Seiliedig ar Waith | Coleg Gŵyr Abertawe<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Coleg Sir Gâr<br>Coleg Caerdydd a'r Fro<br>Coleg Sir Benfro<br>Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot<br>Coleg Cambria<br>Coleg Penybont<br>Coleg y Cymoedd<br>Coleg Gwent |
| Darparwr Addysg Uwch | Prifysgol De Cymru<br>Grŵp Derbyn Prifysgol De Cymru<br>Y Brifysgol Agored<br>Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith | Hyfforddiant Cambrian<br>Educ8<br>Academi Protechrail<br>The Construction Hub Academy |
| Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu | FAB Central<br>Bwrdd Cynghori FAB Cymru |
| Gyrfaoedd | Gyrfa Cymru |
| Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol | De a Gorllewin Cymru<br>Gogledd Cymru<br>Prifddinas-Ranbarth Caerdydd<br>Canolbarth Cymru<br>Clwstwr Economi Sylfaenol Ddynol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd |
| Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (o 1 Ebrill 2024) | Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (o 1 Ebrill 2024) |
| Y Comisiwn Plant | Y Comisiynydd Plant |
| Y Gyfarwyddiaeth Addysg | Cyngor Sir Powys |
| Ysgolion | Ysgol Uwchradd Fitzalan<br>Ysgol Uwchradd Y Frenhines Elisabeth<br>Ysgol y Creuddyn<br>Ysgol Aberconwy |